Cardiff and Vale College
Coleg Caerdydd a'r Fro

# COLEG CAERDYDD A'R FRO

# ADRODDIAD BLYNYDDOL A DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2021

**Tabl cynnwys**


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad y Corff Llywodraethu | 1 |
| Datganiad o gyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu | 21 |
| Datganiad ar lywodraethiant corfforaethol a rheolaeth fewnol | 23 |
| Adroddiad yr archwilwyr annibynnol i Gorff Llywodraethu Coleg Caerdydd a'r Fro | 30 |
| Datganiad Cyfunol a Datganiad Incwm Cynhwysfawr Cyfunol y Coleg | 34 |
| Datganiad Cyfunol a Datganiad ar Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn y Coleg | 35 |
| Mantolenni Cyfunol a'r Coleg | 36 |
| Datganiad Cyfunol o Lifau Arian | 37 |
| Nodiadau ar y datganiadau ariannol | 38 |

## ADRODDIAD Y CORFF LLYWODRAETHU

Mae'r Corff Dyfarnu yn cyflwyno ei adroddiad blynyddol a datganiadau ariannol wedi'u harchwilio ar gyfer Coleg Caerdydd a'r Fro ("y Coleg") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021.

### Statws cyfreithiol

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro yn Gorfforaeth Addysg Bellach a gafodd ei sefydlu ar 8 Ebrill 2011 o dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992.

Mae'r Coleg yn elusen a eithrir fel y diffinnir yn Rhan 3 Deddf Elusennau 2011.

### Diben

Newid bywydau drwy ddysg.

### Gwerthoedd

- Ysbrydoledig: Rydym yn uchelgeisiol, yn rhagweithiol ac yn arwain drwy esiampl.
- Cynhwysol: Rydym ni'n un tîm unigryw – gweithio gyda'n gilydd er budd pawb.
- Dylanwadol: Rydym yn hybu adfywiad cymdeithasol ac economaidd.

### Blaenoriaethau strategol

- Ansawdd
- Effeithlonrwydd
- Twf
- Llesiant

### Budd y cyhoedd

Mae'r Coleg yn elusen eithriedig ac yn cael ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru fel y prif reoleiddiwr ar gyfer pob Corfforaeth Addysg Bellach yng Nghymru. Mae aelodau'r Corff Llywodraethu, sy'n ymddiriedolwyr yr elusen, yn cael eu rhestru ar dudalennau 19 i 20. Wrth osod ac adolygu amcanion strategol y Coleg, mae'r Corff Llywodraethu wedi ystyried canllawiau'r Comisiwn Elusennau ynghylch budd y cyhoedd ac yn enwedig ei ganllawiau atodol ynghylch cynnydd mewn addysg. Mae'r canllawiau hyn yn gosod y gofyniad i bob sefydliad sy'n dymuno cael ei gydnabod fel elusen ddangos yn amlwg, bod ei nodau er budd y cyhoedd. Wrth gyflawni ei genhadaeth, mae'r Coleg yn cynnig y buddion cyhoeddus adnabyddedig canlynol drwy hyrwyddo cynnydd mewn addysg:

- Addysgu o ansawdd
- Ehangu cyfranogiad a threchu allgáu cymdeithasol
- Cofnod cyflogaeth rhagorol i fyfyrwyr
- Systemau cryf i gefnogi myfyrwyr
- Cysylltiadau gyda chyflogwyr, diwydiant a'r byd masnach

Mae cyflawniad y Gorfforaeth o fudd i'r cyhoedd wedi'i amlygu yn yr adroddiad hwn gan y Corff Llywodraethu.

**Cyfeiriad strategol**

Mae'r Coleg wedi sefydlu cynllun dros dair blynedd sy'n nodi ei ddiben a blaenoriaethau strategol. Dan bob blaenoriaeth strategol mae nifer o feysydd ffocws penodol:

- Ansawdd
  - Byddwn yn datblygu ein pobl, ac yn buddsoddi ynddynt, ac yn sicrhau ein bod yn hapus yn ein gwaith;
  - Byddwn yn darparu profiadau rhagorol er mwyn dysgu ac atgyfnerthu – byddwn yn atgyfnerthu sgiliau, yn hyrwyddo cyflawniad a llwyddiant, ac yn galluogi cynnydd myfyrwyr;
  - Byddwn yn datblygu pobl fedrus a chyflogadwy, a'r cwbl yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gymdeithas drwy eu bywydau.
- Effeithlonrwydd
  - Byddwn yn parhau i fod yn ariannol gadarn, yn ddyfeisgar a chanolbwyntio ar ddatrysiadau - gan gyflawni gwerth am arian ac adnoddau i wneud buddsoddiadau newydd;
  - Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i uchafu ein heffaith gyfunol a chefnogi dyfodol cynaliadwy;
  - Byddwn yn creu llefydd o'r radd uchaf i ddysgu, sy'n iach ac yn ddiogel, sy'n hyrwyddo technoleg, yn cefnogi dysgu bob amser ac yn ysbrydoli cymunedau.
- Twf
  - Byddwn yn ymgymryd â rôl ganolog o ran ymgysylltu cyflogwyr, datblygu gweithluoedd a darparu doniau medrus ar gyfer y dyfodol er mwyn cefnogi adferiad a thwf economaidd;
  - Byddwn yn ehangu ein busnes, yn cynhyrchu ffrydiau incwm newydd ac yn cydweithio'n lleol ac yn rhyngwladol i ymateb i gyfleoedd sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd;
  - Byddwn yn cynyddu ymgysylltiad mewn dysgu, drwy gael gwared ar rwystrau, ehangu darpariaeth a chyflawni newid sy'n cael effaith go iawn ar gymdeithas a'n rhanbarth.
- Llesiant
  - Byddwn yn cefnogi iechyd corfforol a meddyliol a llesiant ein staff, dysgwyr a'r gymuned yr ydym yn ei gwasanaethu - gan ysbrydoli a galluogi pawb i wneud penderfyniadau dysgedig er mwyn gwarchod eu hunain a'n byd;
  - Byddwn yn gwrando ac yn ymateb i anghenion ein cymuned, gan sicrhau bod pawb yn cael cyfle i gyflawni a gwireddu eu potensial;
  - Byddwn yn dathlu ein Cymreictod, ein hiaith a'n diwylliant, gan fanteisio ar gyfleoedd i atgyfnerthu ein bywydau a'n gwlad.

Mae'r Corff Llywodraethu yn monitro perfformiad y Coleg mewn cymhariaeth â'r cynllun hwn.

**Niferoedd dysgwyr**

Yn 2020/21, darparodd y Coleg gyfleoedd i 30,543 o ddysgwyr, gan gynnwys:

- 5,687 o ddysgwyr ar gyrsiau llawn amser;
- 466 o ddysgwyr ar gyrsiau addysg uwch;
- 50 o Brentisiaid Iau;
- 157 o ddisgyblion ysgol rhwng 14-19 oed ar lwybrau dysgu rhan amser;
- 14,544 ar brentisiaethau a rhaglenni i hyfforddeion;
- 7,389 o oedolion yn astudio'n rhan amser;
- 2,250 o ddysgwyr yn astudio drwy drefniadau masnachfraint yn y gymuned.

**2020/21 – perfformiad y Coleg**

Cyflwynodd y flwyddyn hon sawl her i'r Coleg, ei ddysgwyr a'i staff, oherwydd cyfyngiadau a tharfu parhaus yn sgil pandemig COVID-19. Wedi dweud hynny, er gwaethaf yr amgylchiadau, parhaodd y dysgwyr i gyflawni canlyniadau cadarnhaol, gyda'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn llwyddo i gwblhau eu cymwysterau yn ôl y bwriad a mynd ymlaen i gam nesaf eu dysg neu yrfaoedd.

Roedd dysgu ar y campws yn parhau i fod yn ddibynnol ar y cyfyngiadau drwy gydol y flwyddyn, er y cafodd rhai o'r rhain eu llacio'n raddol wrth i'r flwyddyn fynd rhagddi, yn unol â newidiadau i ganllawiau Llywodraeth Cymru. Bu i ymgysylltiad â myfyrwyr barhau i fod yn uchel, gyda staff yn ymroddedig i sicrhau bod dysgwyr yn cyflawni eu cymwysterau. Serch hynny, mae'r flwyddyn hon wedi bod yn heriol, yn enwedig i'r dysgwyr hynny sy'n astudio pynciau ymarferol ac ar brentisiaethau.

Yn sgil y cyfyngiadau a oedd ar waith am ran helaeth o'r flwyddyn, cyfyngwyd ar allu'r Coleg i gynnig ei ystod lawn o weithgareddau: mae enghreifftiau o'r meysydd a gafodd eu heffeithio yn cynnwys cyfyngiadau ar leoliadau gwaith, academïau chwaraeon, cyfleoedd ar gyfer dysgwyr rhyngwladol, cyrsiau hyfforddiant wyneb yn wyneb, cyfleoedd cyflogaeth ar gyfer dysgwyr ym mannau manwerthu'r Coleg, a chynnal digwyddiadau cymunedol.

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Coleg i ddarparu mwy a mwy o gymorth – megis adnoddau digidol, dysgu ychwanegol a chymorth bugeiliol – i'r dysgwyr hynny a oedd yn ei chael hi'n fwy heriol hyd yn oed, oherwydd natur eu cwrs dewisol neu eu hamgylchiadau unigol.

Mae rhagor o fanylion ynghylch perfformiad y Coleg yn ystod y flwyddyn wedi'u hamlinellu isod.

- Yn ogystal â chefnogi dysgwyr 2020/21, parhaodd y Coleg i gefnogi dysgwyr ar raglenni addysg bellach (AB) a dysgu seiliedig ar waith nad oeddynt wedi llwyddo yn eu cymwysterau yn 2019/20. Roedd hyn yn cyfateb i 538 o ddysgwyr AB a 289 o ddysgwyr seiliedig ar waith, ac mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi llwyddo yn eu cymwysterau bellach.
- Cyflwynodd cyrff dyfarnu bolisïau asesu newydd a oedd yn gofyn naill ai graddau wedi'u cyfrifo neu ddiwygiadau i asesiadau er mwyn dyfarnu cymwysterau. Mewn achosion lle cyfrifir graddau, roedd yn ofynnol i'r Coleg gyflwyno proses asesu gadarn er mwyn sicrhau bod graddau yn cael eu dyfarnu'n fanwl gywir ac yn deg yn unol â thueddiadau tair blynedd. Roedd hyn yn cynnwys proses sicrhau ansawdd fewnol gan Fwrdd Safonau'r Coleg, a phroses apelio arbennig.

**2020/21 – perfformiad y Coleg (parhad)**

- Fel y disgrifir ymhellach isod, bu'r Coleg ac is-gwmni, Associated Community Training Limited (ACT), yn llwyddiannus yn ymarfer caffael Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu prentisiaethau hyd at 2025 (gyda phosibilrwydd o ymestyn hyd at 2027).

- Parhaodd gofnod presenoldeb cryf y Coleg, gyda chyfradd presenoldeb o dros 85% ar gyfer y flwyddyn;

- Mae bodlonrwydd Llais Dysgwyr wedi gwella mewn sawl maes dros y tair blynedd diwethaf, ac mae'r holl dargedau datblygiad proffesiynol parhaus wedi'u cyflawni, a sgoriau bodlonrwydd addysgu a dysgu yn mynd y tu hwnt i 95% yn rheolaidd. Yn ystod y flwyddyn, bu dysgwyr y Coleg ynghlwm â nifer o ymgynghoriadau allanol, gan gynnwys cymryd rhan yn adolygiad annibynnol ar gyfres arholiadau 2020, a phanelau yn canolbwyntio ar bynciau gan gynnwys brechu, hiliaeth a chamfanteisio.

- Parhaodd gynnydd dysgwyr o'u mannau cychwyn i addysg bellach, prentisiaethau neu gyflogaeth yn gryf, gyda'r Coleg yn cynnig darpariaeth ragorol mewn perthynas â chyflogadwyedd, addysg yn ymwneud â gwaith a chysylltiadau â chyflogwyr.

- Gwelodd y Coleg fwy o fyfyrwyr nag erioed o'r blaen yn cyflawni Lefelau A, gyda'r nifer uchaf erioed o 569 o ddysgwyr yn dathlu cyfradd lwyddo o 96%. Fel un o ddarparwyr mwyaf o gymwysterau BTEC yn y wlad, astudiodd 825 o fyfyrwyr gyrsiau BTEC yn y Coleg, gyda 30% o ddysgwyr yn cyflawni graddau rhagorol. Bydd nifer o fyfyrwyr nawr yn mynd ymlaen o gyrsiau Lefelau A a BTEC i addysg uwch, gan gynnwys prifysgolion Caergrawnt, Rhydychen a'r Grŵp Russell.

- Llwyddodd y Coleg i gyflawni'r rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol, mae ffrwd cyllid newydd yn canolbwyntio ar gyflawni ystod eang o gymwysterau sy'n cael eu cefnogi gan ddiwydiant ar draws sectorau â blaenoriaeth. Cefnogwyd 2,178 o unigolion i ymgymryd ag ystod eang o gymwysterau.

- Ymgymerodd y Coleg â phrif rôl yng *Ngŵyl Gwên o Haf*, rhaglen o weithgareddau'r haf ar gyfer plant ar y cyd ag awdurdodau lleol ac ysgolion. Roedd y sesiynau ar gynnig yn cynnwys Cod a Drôn, Hacathon, DJ am y Diwrnod a 'Ready, Steady, Cook'.

- Yn ychwanegol at hynny, cynigiodd y Coleg raglenni drwy fenter Gwella'r Gwyliau Ysgol Caerdydd, a gafodd ei sefydlu i ddarparu ysgolion sydd â niferoedd uchel o ddisgyblion cymwys am Brydau Bwyd Ysgol Am ddim, â gweithgareddau a bwyd yn ystod yr haf.

**Llwyddiannau dysgwyr**

I gyd-fynd â pherfformiad academaidd, mae'n bleser gan y Coleg adrodd ar y cyflawniadau grŵp neu unigol canlynol gan ein dysgwyr:

- Yng ngharfan ddiweddaraf Cystadleuaeth Sgiliau Cymru (2020-21), cymerodd 186 o ddysgwyr y Coleg ran a hynny mewn 41 digwyddiad gwahanol – y nifer uchaf erioed. Enillodd dysgwyr y Coleg gyfanswm o 30 o fedalau - 14 aur, 7 arian a 9 efydd.

- Cipiodd dysgwyr ar gyrsiau Gorffennu Cerbydau, Atgyweirio Cyrff Cerbydau a Pheirianneg Cerbydau Trwm ddeg gwobr diwydiant a sgiliau: gan gynnwys medalau aur i Luke Friston, Sion Lewis a Lewis Hastings, arian i Philip Gregory ac Owen Sims, ac efydd i Dafydd Jones.

- Enillodd y Coleg ac ACT gyfanswm o 34 o fedalau yn y gystadleuaeth sgiliau cynhwysol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol mewn Trin Gwallt Cynhwysol, Garddwriaeth Gynhwysol a Cherbydau Modur Cynhwysol.

**Llwyddiannau dysgwyr (parhad)**

- Cipiodd Katie Hill, myfyrwraig Lefel A wobr y Coleg am ei hymrwymiad rhagorol i'r Gymraeg, ac fe'i dewiswyd yn Llysgennad y Gymraeg.
- Kaiden Ashun, prentis mewnosod electro-dechnegol, ddaeth i'r brig yn y gystadleuaeth genedlaethol Prentis Masnach Screwfix y Flwyddyn yn 2021.
- Mae Jack Grey, Newyddiadurwr Iau ar gynllun prentisiaeth sy'n cael ei redeg gan y Coleg mewn partneriaeth â BBC Cymru Wales ac ITV Wales, wedi cyrraedd y rhestr fer ar gyfer Gwobr Top Scoop gan y Cyngor Cenedlaethol ar gyfer Hyfforddi Newyddiadurwyr.
- Mae un o Brentisiaid Iau cyntaf y Coleg wedi dechrau astudio gradd yn ddiweddar. Ymunodd Ray Weston â'r Coleg yn 2016, ac wedi iddo lwyddo yn ei raglen Prentis Iau a chwrs BTEC lefel 3 yn y Cyfryngau Rhyngweithiol, bydd nawr yn mynd ymlaen i'w faes astudio nesaf – Gradd Sylfaen mewn Ffilm, sy'n cael ei rhedeg gan y Coleg mewn partneriaeth â Phrifysgol De Cymru.
- Cafodd Capten cyntaf yr Academi Rygbi, Ben Thomas, ei ddewis i chwarae dros Gymru, gan ennill ei gap cyntaf yn ddiweddar. Dewiswyd Evan Lloyd, Nathan Evans a Jake Beetham i chwarae dros Gymru ar lefel dan 20.
- Roedd Oscar Griffin yn rhan o garfan Clasuron Lefel A cyntaf y Coleg, ac yn ddiweddar mae wedi mynd yn ei flaen i astudio Groeg a Lladin Glasurol ym Mhrifysgol Caergrawnt.
- Bydd ffilm *Fire Break* Alfie Arnold, sydd yn ei Flwyddyn Gyntaf yn astudio Gradd Sylfaen mewn Ffilm, yn cael ei dangos yng ngŵyl Ffilm Ifanc eleni. Cynhyrchodd ei ffilm fel rhan o'i fodiwl "Truth and Telling" yn ystod y cyfnod clo.
- Enillodd Barbara Green a Damian Porucznik Gategori 1 (Dyluniad 2D) yn Her Ddylunio Opera Cenedlaethol Cymru.

**Y Cwricwlwm a datblygiadau a chyflawniadau eraill**

O ran cefnogi ein dysgwyr, eu cymunedau a chyflogwyr, mae'r Coleg wedi lansio neu ddatblygu nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Gwelliannau mewn recriwtio, ymrestru a'r prosesau derbyn, gan gynnwys ymrestru cynnar, a sesiynau 'sefydlu meddal' wythnosol o fis Gorffennaf 2021, a gwelliannau i ap y Coleg ar gyfer dysgwyr;
- Wythnos Gyrfaoedd Genedlaethol - dros gyfnod o bythefnos, cynhaliodd y Coleg 79 o ddigwyddiadau rhithiol gan 639 o fynychwyr a 65 o lefarwyr allanol;
- Mae Hwb Asesu Rhanbarthol ESOL wedi parhau i fodloni'r anghenion cynyddol ar gyfer addysg ESOL yn y rhanbarth, a chefnogi ffoaduriaid ar draws y prif ardaloedd gwasgaru ceiswyr lloches yng Nghymru drwy ein darpariaeth o brosiect AilGychwyn: Integreiddio Ffoaduriaid Llywodraeth Cymru, yn gweithio mewn partneriaeth ag Addysg Oedolion Cymru, Coleg Cambria, Coleg Gwent, Cyngor Dinas Casnewydd a Choleg Gŵyr Abertawe.
- Cafodd y Coleg Ddyfarniad Aur y Cynllun Cydnabod Cyflogwyr am gefnogaeth ragorol tuag at gymuned y Lluoedd Arfog.
- Yn dilyn lansiad llwyddiannus yn 2020 o 'Edfest', gŵyl datblygiad proffesiynol parhaus gwbl ar-lein ar gyfer staff, ac i gyd-fynd â hyn cynhaliwyd y 'Leadfest' gyntaf yn 2021.

**Y Cwricwlwm a datblygiadau a chyflawniadau eraill (parhad)**

- Arweiniodd y Coleg brosiect gan y Ganolfan Rhagoriaeth Ddiwydiannol gan ganolbwyntio ar weithgynhyrchu uwch, lled-ddargludyddion cyfansawdd, seiberddiogelwch a thechnoleg werdd, a bu'n bartner ar brosiect i gefnogi'r defnydd o realiti rhithwir a realiti estynedig mewn addysgu a dysgu.

- Datblygodd y Coleg ymhellach ei weithgareddau llesiant actif – gan gynnwys recriwtio tîm Llesiant Actif, datblygu adnodd hunanasesu llesiant actif, a datblygu ei raglen o weithgareddau llesiant ar gyfer staff a dysgwyr.

Unwaith eto, cafodd grŵp y Coleg nifer o ddyfarniadau a chydnabyddiaeth yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys:

- Enillydd y Wobr TES am Gefnogi Dysgwyr, a chyrraedd y rhestr fer ar gyfer Coleg y Flwyddyn a gwobrau Mentrau Addysgu a Dysgu;

- Cawsom ganmoliaeth fawr gan Beacon am ein gwaith gyda TEL a'n Harweinyddiaeth gynhwysol:

- Coleg Addysg Bellach y Flwyddyn Cymru gan y Ganolfan Genedlaethol er Amrywiaeth a chyrraedd yr ail safle yn y 100 gweithle mwyaf cynhwysol. Yn ogystal, cynhaliodd y Coleg ei statws Arweinwyr mewn Amrywiaeth.

- Cynhaliodd y Coleg ei statws Coleg Arddangos Microsoft, ac mae'n parhau i fod yr unig goleg yng Nghymru sy'n meddu ar yr achrediad hwn;

- Cafodd y Coleg ac ACT achrediadau IIP gwell, sef Aur a Phlatinwm yn y drefn honno;

- Cafodd ACT a CF10 Retail Limited eu cynnwys yn y *100 Best Companies* gan *Sunday Times* yn 2021;

- Cyfeiriwyd at y Coleg ac ACT yn adolygiad thematig Estyn mewn perthynas â Llesiant am eu cefnogaeth i ddysgwyr, a chafodd darpariaeth Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) ei chynnwys yn y cyhoeddiad Dysgu Cyfunol.

- Llwyddwyd i gynnal ei achrediad Matrix;

- Enillydd 5 dyfarniad gan Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru.

**Partneriaethau**

Mae'r Coleg wedi ymrwymo i gefnogi cyflogwyr a chymunedau ar draws Caerdydd a'r Fro:

- Mae'r Coleg wedi datblygu partneriaethau cryf â chyflogwyr lleol, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymgymryd â phrofiad gwaith a/neu addysg yn ymwneud â gwaith. Mae nifer o sefydliadau, gan gynnwys Canolfan Mileniwm Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bro Morgannwg, BBC, Principality, Aston Martin, Deloitte, Admiral a Lloyds yn cynnig gweithdai neu interniaethau ar gyfer dysgwyr i wella eu sgiliau ac ennill profiadau sydd wedi'u teilwra i'w huchelgeisiau o ran gyrfa;

- Mae'r Coleg yn gweithio'n agos ag awdurdodau lleol a'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg, gan rannu gweithgareddau datblygiad proffesiynol ar gyfer addysgu a chynnal y Prosiect Seren, cynllun penodol ar gyfer dysgwyr mwy galluog a dawnus;

**Partneriaethau (parhad)**

- Mae'r Coleg hefyd wedi datblygu rhagor o bartneriaethau effeithiol gydag Undeb Rygbi Cymru, Cymdeithas Chwaraewyr Rygbi Cymru, Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, Rygbi Caerdydd a'r Coleg Paratoi ar gyfer y Fyddin, er mwyn cynnig cyfleoedd gwahanol i ysgogi dysg yn ein cymuned.

- Mae gan y Coleg bartneriaethau hirhoedlog gyda sefydliadau'r trydydd sector, megis Vision 21, y Weinyddiaeth Bywyd, ac Academi Cyfryngau Caerdydd;

- Mae Byrddau Cynghori Cyflogwyr penodol i sector y Coleg yn cryfhau perthnasoedd gyda chyflogwyr, gan sicrhau bod anghenion sgiliau lleol a thwf economaidd yn cael eu bodloni;

- Mae dysgwyr yn gweithio'n helaeth gyda'r BBC a sefydliadau creadigol a'r cyfryngau mawr eraill, megis Her Ddylunio Opera Cenedlaethol Cymru, Make Art not War gyda'r Imperial War Museum, y Theatr Newydd, digwyddiadau cerddoriaeth fyw yn y ddinas, a'r rhaglen gerddoriaeth 'BBC Introduces'.

**Y prif risgiau, cyfleoedd ac ansicrwydd**

Fel rhan o'r broses gynllunio strategol, mae'r Tîm Gweithredol yn ymgymryd ag adolygiad o'r risgiau a all effeithio ar allu'r Coleg i gyflawni ei amcanion strategol. Yn ogystal, mae pob Deon a Chyfarwyddwr yn datblygu cofrestr risgiau ar gyfer ei gyfadran neu ei gyfarwyddiaeth ei hun.

Mae'r adolygiadau hyn yn ystyried y systemau a'r gweithdrefnau sydd eisoes ar waith er mwyn lliniaru unrhyw effaith bosibl ar y Coleg yn sgil y risgiau a nodwyd, a diffinio unrhyw gamau gweithredu ychwanegol a all fod yn ofynnol i leihau ymhellach tebygoliaeth neu effaith y risgiau a nodwyd.

Datblygir cofrestr risgiau sy'n cofnodi'r prif risgiau strategol, tebygoliaeth o'r risgiau hynny yn digwydd, eu heffaith bosibl ar y Coleg a'r camau gweithredu sy'n cael eu cymryd i leihau a lliniaru'r risgiau.

Mae'r Tîm Gweithredol yn ystyried materion rheoli risgiau fel rhan o bob cyfarfod ac yn ymgymryd ag adolygiad ffurfiol o'r gofrestr sgiliau ym mhob tymor, a chaiff hwnnw ei adrodd i'r Pwyllgor Archwilio.

Gweler isod disgrifiad o'r prif ffactorau risg sy'n effeithio ar y Coleg. Nid yw pob ffactor o fewn rheolaeth y Coleg, ac mae'n bosibl y gall ffactorau eraill ar wahân i'r rhai a restrir isod gael effaith negyddol ar y Coleg.

<u>COVID-19</u>

Gellir crynhoi'r risgiau a wynebir gan y Coleg mewn perthynas â'r pandemig mewn tri chategori eang:

- Risgiau i iechyd, diogelwch a llesiant staff, dysgwyr ac ymwelwyr;

- Risgiau i allu'r Coleg i barhau â gweithgareddau yn effeithiol a chyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer ei ddysgwyr a'i gymunedau;

- Risgiau i iechyd ariannol a gwytnwch parhaus grŵp busnes CAVC.

O ran ffurfio ei ddull i ymdrin â'r risgiau uchod, mae'r Coleg a'i is-gwmnïau wedi sicrhau y glynir wrth ganllawiau Llywodraeth Cymru (a phryd bynnag sy'n briodol, Llywodraeth y DU, yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac unrhyw reoliadau/canllawiau perthnasol eraill); roedd hyn yn sail i'r asesiadau risg a chynlluniau gwaith diogel, y cafwyd trafodaeth yn eu cylch gydag undebau masnach adnabyddus a'u cyhoeddi er mwyn i staff eu hadolygu ar y fewnrwyd staff. Yn ogystal, cynhyrchwyd canllawiau rhwydd eu dilyn ar gyfer staff a myfyrwyr.

**Y prif risgiau, cyfleoedd ac ansicrwydd (parhad)**

COVID-19

Mae'r Tîm Gweithredol yn ystyriol o'r risg uwch a wynebir gan rai unigolion (e.e. y rheiny sydd wedi bod yn gwarchod eu hunain neu sydd â ffactorau risg uwch eraill, megis ethnigrwydd neu gyflyrau iechyd) ac maent wedi sefydlu gweithdrefnau penodol ychwanegol i sicrhau bod y risg i'r unigolion hyn (boed yn staff neu ddysgwr) wedi'i lliniaru cyn belled ag sy'n rhesymol bosibl.

Yn y rhan fwyaf o achosion, llwyddwyd i gyflawni cymwysterau dysgwyr drwy ddefnyddio graddau a gafodd eu pennu gan y ganolfan, asesiadau ymarferol ar y safle (wedi'u gwneud yn unol ag asesiadau risg a systemau gweithio diogel) ac addasiadau i ddulliau asesu a gafodd eu cytuno â chyrff dyfarnu. Wedi dweud hynny, oherwydd cyfyngiadau COVID-19 yn cyfyngu mynediad at gyfleoedd lleoliadau gwaith, nid oedd yn bosibl i nifer fach o ddysgwyr gwblhau eu cymhwyster iechyd a gofal yn ystod y flwyddyn. Mae'r dysgwyr hyn yn ymgymryd â'r lleoliadau gwaith gofynnol ar hyn o bryd ac maent ar y trywydd cywir i lwyddo yn eu cymhwyster.

Parhaodd llif arian yn iach drwy gydol y flwyddyn er gwaethaf y pandemig; ac mae effaith cymorth y llywodraeth ac arbedion mewn costau yn sgil cyfyngiadau ar weithgareddau'r Coleg wedi'i osod yn erbyn unrhyw ostyngiadau mewn incwm. Yn ogystal, llwyddodd y Coleg ac ACT i sicrhau cyllid drwy Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws gan Lywodraeth y DU ar gyfer staff ar ffyrlo. Yn unol ag amodau Llywodraeth Cymru, ni hawliwyd cyllid drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws ar gyfer unrhyw gyflogai y mae ei swydd wedi'i hariannu'n sylweddol gan Lywodraeth Cymru ac a oedd yn parhau i gael ei hariannu yn ystod y cyfnod dan sylw.

Mae graddfa'r risg ariannol yn 2021/22 yn parhau i fod yn ddarostyngedig i ansicrwydd mewn perthynas ag effaith barhaus y pandemig, y potensial am ragor o gyfyngiadau a'r debygoliaeth o lai o argaeledd o gyllid cymorth gan y llywodraeth (gan gynnwys wedi i'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws ym mis Medi 2021) mewn cymhariaeth â 2020/21. Er nad yw dyfarniadau cyllid AB craidd wedi'u heffeithio gan y pandemig, mae sawl ffrwd incwm arall yn parhau i gael eu taro'n galed, ac er eu bod yn dechrau adfer erbyn hyn, mae nifer yn parhau i fod yn sylweddol is nag yr oeddynt cyn y pandemig.

Mae'r pandemig wedi amharu ar gynnydd dysgwyr dros y 18 mis diwethaf, gyda nifer o fyfyrwyr newydd yn ymuno â'r Coleg gyda bylchau sylweddol yn eu gwybodaeth a'u sgiliau, er eu bod wedi cyflawni'r cymwysterau mynediad gofynnol. Mae hyn wedi arwain at niferoedd uwch nag arfer o ddysgwyr nad ydynt yn meddu ar y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fynd ymlaen yn llwyddiannus yn eu maes dysgu dewisol, felly bydd nifer ohonynt yn elwa ar ragor o waith dal i fyny a chymorth.

Mae'r Coleg wedi sefydlu ystod o fesurau ychwanegol i liniaru'r risg hon, gan gynnwys sesiynau addysgu 'dal i fyny', cymorth un i un, tiwtorialau ychwanegol, sesiynau llythrennedd a rhifedd ychwanegol a phecynnau cymorth ar-lein. Mae cyllid ychwanegol o £2.7miliwn wedi'i neilltuo i'r Coleg gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â hyn. Ni fydd yn glir i ba raddau fydd y mesurau hyn yn lliniaru'n llwyddiannus y risg tan yn ddiweddarach yn y flwyddyn, a byddant hefyd yn cael eu heffeithio gan ragor o addasiadau i arholiadau, asesiadau a gweithgareddau cymedroli y gellir eu cyhoeddi gan gyrff dyfarnu gyda hyn.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu rhagor o gyllid cymorth y gellir ei hawlio gan y Coleg yn ystod y flwyddyn nesaf i ad-dalu costau ychwanegol penodol a achoswyd yn sgil y pandemig. Mae'r sector yn parhau i fod mewn trafodaethau â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â chymorth am ragor o gostau ychwanegol wrth i anghenion gael eu hadnabod.

Cyllid yn y Dyfodol

Ymddengys bod y galw mawr gan gyflogwyr am staff ar hyn o bryd ym meysydd megis adeiladwaith yn debygol o gael effaith negyddol ar alw cyrsiau llawn amser yn y meysydd hynny, ac ymddengys bod effaith y pandemig ar y sectorau yn y diwydiant sydd wedi'u heffeithio fwyaf (er enghraifft, arlwyaeth a lletygarwch) yn effeithio ar alw dysgwyr am gyrsiau yn y meysydd hynny.

**Y prif risgiau ac ansicrwydd (parhad)**

Cyllid yn y dyfodol (parhad)

Mae'r defnydd o niferoedd cyfartalog tair blynedd ym methodoleg dyrannu cyllid craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector addysg bellach yn lleihau amlygiad i amrywiadau mewn cyllid sy'n deillio o newidiadau tymor byr mewn ymrestriadau. Wedi dweud hynny, yn y tymor canolig a hir, gallai newidiadau o'r fath i alw dysgwyr effeithio ar ddyraniadau grant y Coleg yn y blynyddoedd nesaf.

Mae i ba raddau y bydd y galw am ymrestriad rhan amser yn adfer yn ôl i lefelau cyn y pandemig yn parhau i fod yn ansicr ac yn cyflwyno risg bellach. Mae Llywodraeth Cymru wedi dangos y bydd yn ystyried darparu cefnogaeth yn y flwyddyn sydd i ddod ar gyfer gweithgarwch rhan amser Colegau, ond gan nad yw graddau a hyd y gefnogaeth hon wedi'i chadarnhau, mae'r rhagolygon yn parhau i fod yn heriol. Wedi dweud hynny, mae'n cyflwyno cyfle i'r Coleg gyrraedd dysgwyr a chyflogwyr nad ydyw wedi gweithio gyda nhw o'r blaen, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u heffeithio'n negyddol gan y pandemig.

Mae ymrestru ar gyrsiau addysg uwch y Coleg yn ddarostyngedig i fwy o bwysau ac ansicrwydd, yn unol ag argaeledd cynyddol llefydd ar gyrsiau llawn amser mewn prifysgolion, yn bennaf oherwydd dirywiad yn y niferoedd o fyfyrwyr rhyngwladol, a hynny'n sgil y pandemig.

Datblygu gwytnwch a ffynonellau cyllid newydd

Yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Coleg wedi sefydlu strategaeth i wella gwytnwch drwy gaffael grŵp ACT yn 2016/17 ac Apprenticeship Learning Solutions (ALS) yn 2017/18. Cryfhaodd hyn sefyllfa'r grŵp fel prif ddarparwr prentisiaethau yng Nghymru, a lleihau dibyniaeth ar ei grant cyllid AB craidd.

Mae'r Coleg wedi parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â mentrau newydd i ddatblygu sgiliau a chyfleoedd ymhellach ar gyfer unigolion, cyflogwyr a chymunedau.

Cydnabyddir bod risg, wrth fuddsoddi mewn marchnadoedd a chyfleoedd newydd, na fydd pob cyfle o'r fath yn cyflawni budd. Er mwyn lliniaru'r risg a llywodraethu'r gweithgareddau hyn yn briodol, maent yn ddarostyngedig i adolygu a monitro gan is-bwyllgor y Corff Llywodraethu.

Dysgu Seiliedig ar Waith

Yn ystod y flwyddyn, cafodd y Coleg ac is-gwmni Associated Community Training Limited (ACT) lwyddiant yn ymarfer caffael Llywodraeth Cymru ar gyfer darparu prentisiaethau hyd at 2025 (gyda phosibilrwydd o estyniad i 2027). Ni lwyddodd yr is-gwmni Apprenticeship Learning Solutions Limited i sicrhau contract, ond bydd yn parhau i gynnig prentisiaethau o fis Awst 2021 drwy is-gontract prentisiaeth gydag ACT.

Dyraniad cyllid contract cyfunol y grŵp ar gyfer prentisiaethau yn 2021/22 oedd oddeutu £35m, cynnydd o oddeutu £6miliwn mewn cymhariaeth â 2020/21. Mae hyn yn cyflwyno cyfle mawr ei angen i'r grŵp ehangu ymhellach ei ddarpariaeth prentisiaethau a chyrraedd dysgwyr a chyflogwyr newydd.

Yn yr un modd ag unrhyw weithgaredd newydd, daw'r twf hwn law yn llaw â risg, yn enwedig mewn perthynas ag ansawdd y ddarpariaeth gan bartneriaid is-gontract, y mae rhai ohonynt wedi ymuno â rhwydwaith CAVC neu ACT am y tro cyntaf yn 2021/22, yn dilyn yr ymarfer paru diweddar rhwng deiliaid contract aflwyddiannus a'r rheiny a gyflwynodd gynnig llwyddiannus i Lywodraeth Cymru. Mae partneriaid is-gontract a masnachfraint yn ddarostyngedig i broses monitro ansawdd sy'n ffurfio rhan o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r partner darparu.

Mae ACT wedi llwyddo yn ymarfer caffael Llywodraeth Cymru am Twf Swyddi Cymru+, a fydd yn disodli'r rhaglen hyfforddeion gyfredol o fis Ebrill 2022. Llwyddodd ACT yn y pedwar lot (gogledd Cymru, y de-orllewin a'r canolbarth, de canolbarth Cymru a de-ddwyrain Cymru).

**Y prif risgiau ac ansicrwydd (parhad)**

Brexit

Mae effaith hirdymor Brexit yn parhau i beri ansicrwydd – gallai hyn effeithio'n uniongyrchol ar y Coleg drwy gael gwared ar gyllid ESF sydd ar hyn o bryd yn cyfrannu 25% o gyllideb Dysgu Seiliedig ar Waith Llywodraeth Cymru, ac mae hefyd yn cefnogi nifer o weithgareddau eraill sydd wedi'u darparu gan y Coleg.

Yn 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gyfer ei threfniadau cyllid ôl-Brexit – "Fframwaith Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru", a chyflwynodd CAVC ymateb i hyn. Mae'r Coleg hefyd yn monitro datblygiadau gyda'r Gronfa Ffyniant Gyffredin (sy'n dilyn cyllid Ewrop) a Chymorth Gwladwriaethol (y cyfeirir ato bellach yn Rheoli Cymorthdaliadau).

**Adnoddau'r grŵp**

Mae gan y Grŵp wahanol adnoddau y gall eu defnyddio i gyflawni ei amcanion strategol.

Yr ystad

Mae'r ystad yn parhau i ddatblygu o ganlyniad i weithredu Strategaeth yr Ystad; mae'r prif ddatblygiadau yn ystod y flwyddyn wedi'u hamlinellu ymhellach isod. Gwerth net y tir ar adeiladau rhydd-ddaliad ar y llyfr ar 31 Gorffennaf 2021 oedd £68.1miliwn (2020: £74.9miliwn).

Ariannol

Ar 31 Gorffennaf 2021, roedd gan y Grŵp asedau net, ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn o £37.1miliwn (2020: £36.2miliwn).

Pan gynhwysir rhwymedigaeth pensiwn o £39.4miliwn (2020: £41.9miliwn), roedd gan y Grŵp rwymedigaethau net o £2.2miliwn (2020: £5.7miliwwn)

Cronfeydd Wrth Gefn

Ar 31 Gorffennaf 2021, roedd gan y Coleg "gronfeydd arian parod wrth gefn" (fel y diffinnir gan Lywodraeth Cymru) o £9.7miliwn (2020: £5.9miliwn) sydd ar gael i'w defnyddio gan y Coleg. Mae cronfeydd arian parod wrth gefn yn wahanol i gyfanswm wrth gefn gan nad ydynt yn cynnwys eitemau sydd ddim yn arian parod (megis adbrisiad asedau sefydlog a rhwymedigaethau pensiwn) a chronfeydd wrth gefn a ddefnyddiwyd yn y gorffennol ar gyfer prosiectau datblygu cyfalaf hanesyddol. Mae cyfanswm cronfeydd arian parod wrth gefn y Coleg o £9.7miliwn yn cynnwys cronfa wrth gefn gyfyngedig o £1.5miliwn (2020: £1.5miliwn); neilltuwyd £2.5miliwn yn ychwanegol i ariannu costau datblygiad campws y Fro nad oedd yn cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru (2020: £0), a £5.7miliwn (2020: £4.4miliwn) i ddarparu cronfa ariannol wrth gefn yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch iechyd ariannol Colegau.

Mae'r Corff Llywodraethu yn fodlon bod lefel y cronfeydd arian parod wrth gefn yn briodol ar hyn o bryd, ac yn ystyried y canlynol:

- Mae canllawiau iechyd ariannol Llywodraeth Cymru i'r sector AB yn awgrymu bod y Coleg yn meddu ar gronfa ariannol wrth gefn sydd gyfwerth â gwariant un mis er mwyn sicrhau gwytnwch ariannol.
- Er bydd y rhan fwyaf o gost y ddau gampws Coleg newydd arfaethedig ym Mro Morgannwg yn cael ei ariannu drwy Fodel Buddsoddi Cydfuddiannol Llywodraeth Cymru, mae cronfa ariannol wrth gefn uwch yn ofynnol er mwyn ariannu costau penodol y bydd angen i'r Coleg eu talu ei hun dros y rhai blynyddoedd nesaf. Disgwylir i'r costau hyn fod cyfwerth ag oddeutu £4miliwn, a chynnwys pryniant tir, cyfranddaliad o 35% y Coleg o gost y darnau gosod, gosodiadau ac offer, ac amrywiol ffioedd a threuliau proffesiynol.

**Adnoddau'r grŵp (parhad)**

Cronfeydd wrth gefn (parhad)

- Mae'r gronfa wrth gefn gyfyngedig o £1.5miliwn a ddisgrifir isod yn ymwneud ag uno Cymdeithas Hyfforddiant Bro Morgannwg â Choleg y Barri yn 2010. Un amod i uno'r cwmnïau hyn oedd ei bod hi'n ofynnol i asedau Cymdeithas Hyfforddiant Bro Morgannwg, gan gynnwys y cronfeydd wrth gefn a gafodd eu trosglwyddo o'r Coleg, gael eu defnyddio'n unig ar gyfer amcan elusennol Cymdeithas Hyfforddiant Bro Morgannwg – er mwyn gwella'r paratoad a hyfforddiant galwedigaethol ac addysg pobl ifanc ac oedolion.

Pobl

Yn ystod y flwyddyn, cyflogodd y Grŵp 1,170 aelod o staff ar gyfartaledd (2020: 1,163) (mynegwyd yn gyfwerth â llawn amser).

Enw da

Mae gan y Coleg, ACT ac ALS enw rhagorol yn lleol ac yn genedlaethol. Mae cynnal brand o ansawdd yn hanfodol i lwyddiant y Coleg o ran denu myfyrwyr a datblygu perthnasoedd allanol.

**Strategaeth ariannol**

Cymeradwyodd y Corff Llywodraethu y strategaeth ariannol ym mis Mehefin 2021 a oedd yn nodi amcanion ariannol y Coleg i gynhyrchu gwarged a chynnydd net mewn arian i ariannu:

- gweithgarwch parhaus;
- buddsoddiad newydd;
- disodli asedau;
- y strategaeth ystad; ac
- i ddarparu neu gynnal cronfa ariannol wrth gefn.

Mae'r Corff Llywodraethu yn fodlon bod athroniaeth y strategaeth a'r amcanion sylfaenol a nodwyd uchod yn parhau i fod yn briodol yn y tymor canolig a'r hir.

Serch hynny, cydnabyddir bod yr ansicrwydd yn ymwneud â phandemig COVID-19 yn golygu bod y Coleg yn wynebu risgiau, heriau ac ansicrwydd a fydd yn cyfyngu i ba raddau y gall fodloni pob targed strategaeth ariannol arferol yn y tymor byr.

**Canlyniadau ariannol**

Yng nghyd-destun blwyddyn heriol, mae'n bleser gan y Coleg adrodd cynnydd yn nhrosiant y grŵp i £109.7miliwn (2020: £97.6miliwn). Mae Enillion cyn Llog, Treth, Dibrisiant ac Amorteiddiad hefyd wedi cynyddu i £14.5miliwn (2020: £11.1miliwn). Mae'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr yn dangos diffyg ariannol cyffredinol o £3.1miliwn ar gyfer y flwyddyn (2020: gwarged o £1.6miliwn), sy'n cynnwys effaith nifer o golledion amhariad ased sefydlog heb fod yn arian parod yn y flwyddyn, fel yr amlinellir yn nodiadau 11 a 12 y cyfrifon.

Er mwyn deall yn fanwl canlyniadau ariannol y flwyddyn, mae tair elfen allweddol i'w nodi:

**Canlyniadau ariannol (parhad)**

Busnes fel arfer

Fel y disgrifir uchod, ni chafodd cyllid grant craidd y Coleg a gafwyd yn ystod y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer darpariaeth lawn amser a rhan amser ei effeithio gan y pandemig. Ymhellach i hynny, dan y fethodoleg cyllid cyfredol, ariennir y Coleg am dwf yn y niferoedd dysgwyr llawn amser, gan ystyried newidiadau demograffig rhanbarthol disgwyliedig, ac felly mynd i'r afael ag argymhelliad Swyddfa Archwilio Cymru y dylai cyllid gael cysylltiad agosach â'r galw am addysg bellach ym mhob ardal. Mae hyn yn golygu bod dysgwyr llawn amser y Coleg wedi'u "hariannu'n llawn", ond yn y gorffennol, mae'r Coleg wedi gorfod cymorthdalu ei bolisi o "*beidio â gwrthod unrhyw ddysgwr*". Darparodd hyn y Coleg â sylfaen gadarn ar gyfer ei weithgareddau yn y flwyddyn, er gwaethaf heriau sylfaenol y pandemig.

Roedd costau gweithredu'r flwyddyn yn is na'r lefelau arferol oherwydd cyfyngiadau ar weithgareddau yn sgil y pandemig, ac arbedion mewn gorbenion oherwydd llai o weithgarwch ar y campws a mwy o weithio gartref.

Cymorth gan Lywodraeth Cymru

Yn ystod y flwyddyn, darparodd Llywodraeth Cymru gymorth ariannol i golegau a darparwyr prentisiaethau oherwydd pwysau ariannol ychwanegol yn deillio o'r pandemig. Roedd y cymorth a gafwyd yn ymwneud ag ystod eang o weithgareddau, gan gynnwys:

- cyllid ar gyfer costau ychwanegol a achoswyd o ganlyniad i'r pandemig (e.e. trefniadau glanhau ychwanegol, gorchuddion wyneb a chostau ychwanegol oherwydd rheolau cadw pellter a threfniadau eraill ynghlwm ag asesiadau risg lleol);
- cyllid i alluogi parhad yn y gwasanaethau cymorth craidd ar gyfer myfyrwyr (e.e. arlwyaeth a meithrinfeydd) er gwaethaf y cyfyngiadau ar weithgarwch ar y safle;
- cyllid ar gyfer costau ychwanegol a achoswyd wrth ddarparu gweithgarwch dysgu yn seiliedig ar waith oherwydd oedi a tharfu ar raglenni a achoswyd gan y pandemig;
- cyllid i gefnogi gyda chwblhau rhaglenni dysgu y tarfwyd arnynt yn y flwyddyn flaenorol a gweithgareddau dysgu ychwanegol a bugeiliol i gefnogi myfyrwyr cyfredol i gwblhau eu rhaglenni yn llwyddiannus.

Ffrydiau incwm masnachol a heb eu hariannu gan y llywodraeth

Fel y cyfeirir ato uchod, mae'r Coleg wedi buddsoddi'n sylweddol mewn amrywio ei ffrydiau incwm i ddarparu gwytnwch a lleihau dibyniaeth ar gyllid gan y Llywodraeth, mae'r rhain yn cynnwys ein mannau manwerthu, arlwyo, meithrinfa, llogi cyfleusterau a digwyddiadau, cyrsiau masnachol a gweithgareddau rhyngwladol. Roedd nifer o'r gweithgareddau hyn yn parhau i gael eu heffeithio'n sylweddol gan y pandemig yn ystod y flwyddyn oherwydd cyfyngiadau parhaus yn effeithio ar feysydd megis darparu hyfforddiant wyneb yn wyneb, lletygarwch a gweithgareddau rhyngwladol. Er ein bod wedi llwyddo i ddefnyddio cyllid Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws gan Lywodraeth y DU er mwyn osgoi staff yn colli eu swyddi ac wedi hawlio £1.1miliwn mewn perthynas â hyn, roedd natur y cynllun yn golygu bod y £665k a gafodd ei ariannu yn "swm atodol" i gyflogau staff at eu lefelau tâl arferol a hynny tra roedd incwm o nifer o weithgareddau yn parhau i fod yn ataliedig drwy gydol y flwyddyn.

Mae'r is-gwmnïau ACT ac ALS yn parhau i berfformio'n dda er bod y ddau wedi wynebu heriau cyffelyb yn ystod y flwyddyn. Yn arbennig ACT, lle cafodd cyllid ar gyfer un grant sylweddol ei atal am ran helaeth o'r flwyddyn ac roedd rhaid i'r cwmni ddefnyddio'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws i gefnogi cyflogau staff. Mae'r cwmnïau hyn yn gwneud taliadau rhodd cymorth i'r Coleg yn hytrach na'r taliadau difidend i gyfranddalwyr preifat, gan sicrhau y gall y cronfeydd hyn gael eu buddsoddi yn addysg a gweithgareddau hyfforddiant y Grŵp.

**Effaith costau pensiwn ar ganlyniadau'r grŵp**

Mae canlyniadau'r Grŵp yn cael eu heffeithio'n sylweddol gan yr ansefydlogrwydd sy'n deillio o ofynion cyfrifyddu ar gyfer buddion ôl-gyflogaeth a sefydlir yn FRS 102. Mae'r safon cyfrifyddu hon yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r Coleg gyfrifyddu cost ei ymrwymiad i'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (LGPS) mewn perthynas â'i staff cymorth busnes. Yn sgil hyn, mae'r costau i'r cyfrif incwm a gwariant a'r rhwymedigaethau a ddangosir ar y fantolen yn cael eu heffeithio gan newidiadau yn y tybiaethau actiwaraidd a symudiadau'r farchnad mewn perthynas â'r asedau a ddelir gan y cynllun pensiwn – gyda'r ddau ohonynt y tu hwnt i reolaeth y Coleg.

Mae prisiad cyfrifyddu 2020/21 yn dangos bod gan y Coleg ddiffyg pensiwn o £39.4m ar 31 Gorffennaf 2021, mewn cymhariaeth â £41.9miliwn ar 31 Gorffennaf 2020. Yn yr un modd â'r flwyddyn flaenorol, mae swm y diffyg cyfrifyddu yn bennaf yn deillio o arenillion is ar fondiau corfforaethol (a ddefnyddir i bennu'r gyfradd ddisgownt) ac enillion o fuddsoddiadau ansefydlog yn gysylltiedig â'r pandemig.

Mae rhwymedigaeth y fantolen a nodir yn gyson â phrofiadau nifer o gyfranogwyr eraill y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae benthyciwr y Coleg yn ymwybodol o hyn ac wedi cael gwared ar y prawf cyfamod ased net o gytundebau cyfleuster benthyciad y Coleg gan fod effaith y pandemig ar faint y diffyg pensiwn yn datgan y cyfamod yn ddiystyr. Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi y bydd y sefyllfa yn cael ei hystyried yn ei hasesiad iechyd ariannol o'r sector AB.

Wrth ystyried effaith y gofynion cyfrifyddu hyn ar sefyllfa ariannol y Coleg, dylid nodi bod rhwymedigaethau pensiwn, yn eu hanfod, yn oblygiadau hirdymor, ac wrth fodloni'r goblygiadau hyn bod y Coleg yn talu'r cyfraniadau cyflogwr i'r cynllun pensiwn a argymhellir gan actiwari cymwys annibynnol.

Yn unol â hynny, er bod y driniaeth gyfrifyddu wedi arwain at rwymedigaethau net ar y fantolen, mae'r Llywodraethwyr yn fodlon nad yw hyn yn cael unrhyw effaith ar gryfder ariannol y Coleg ac nid yw hyn yn effeithio ar allu'r Coleg i weithredu ar sail busnes sy'n parhau.

**Rheoli Trysorlys**

Rheoli Trysorlys yw rheoli llif arian y Coleg, ei waith bancio, trafodion arian y farchnad a chyfalaf drwy'r marchnadoedd; rheolaeth effeithiol o'r risgiau a gysylltir â'r gweithgareddau hynny; a cheisio cyflawni'r perfformiad gorau posibl yn gyson â'r risgiau hynny.

Mae gan y Coleg bolisi rheoli Trysorlys wedi'i nodi yn ei reoliadau ariannol. Cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol, ac mae'n rhaid i'r Corff Llywodraethu roi caniatâd i bob benthyciad.

Yn strategaeth ariannol y Coleg, ceir fframwaith ar gyfer rheolaeth barhaus o allu'r Coleg i fodloni'r ad-daliadau dros dymor y benthyciadau a bod y cyfraddau llog mewn perthynas â'r benthyciadau hyn yn sefydlog.

Mae cytundebau benthyca'r Coleg gyda Santander yn nodi nifer o gyfamodau ariannol, gan gynnwys gwasanaeth dyledion a chymhareb costau llog i Enillion cyn Llog, Treth, Dibrisiant ac Amorteiddiad a lefelau asedau net, y mae'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn adrodd arnynt ac yn eu monitro. Fel y disgrifir uchod, mae Santander wedi hepgor y cyfamod ased net yn sgil yr ansicrwydd sy'n ymwneud â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol; mae pob prawf cyfamod sy'n weddill wedi'u bodloni gyda hyblygrwydd sylweddol.

**Llif arian a hylifedd**
Balans arian parod y Grŵp ar 31 Gorffennaf 2020 oedd £19.3miliwn (2020: £9.3miliwn). Mae'r cynnydd mewn perthynas â'r flwyddyn flaenorol yn bennaf oherwydd cynhyrchu mwy o arian drwy weithgareddau gweithredu, ond mae hefyd oherwydd nifer o wahaniaethau amseru ffafriol yn y tymor byr a fydd yn arafu yn y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r balans ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn cynnwys ychydig o gyllid cymorth gan Lywodraeth Cymru a ddaeth i'n rhan cyn diwedd y flwyddyn sy'n ymwneud â gwariant a achoswyd ar ôl diwedd y flwyddyn i gefnogi gyda phontio dysgwyr a chwblhau rhaglenni dysgu. Bydd unrhyw gyllid na chaiff ei ddefnyddio'n llawn yn cael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru maes o law, yn unol â gweithdrefnau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â hyn.

Yn ystod y flwyddyn, talodd y Coleg £2.7miliwn o gydnabyddiaeth ddibynnol mewn perthynas â chaffael ACT ac ALS, yn seiliedig ar y targedau perfformio a osodwyd ar yr adeg caffael. Cafodd y taliadau ychwanegol hyn eu hariannu'n llawn gan elw a wnaed drwy ACT ac ALS.

Mae'r asedau net cyfredol a nodwyd o £3.9miliwn (2020: £0.3miliwn) yn cynnwys nifer o rwymedigaethau cyfrifyddu na ddisgwylir eu talu yn y flwyddyn sydd i ddod, ac maent hefyd yn cynnwys cydnabyddiaeth ddibynnol, a fydd yn cael ei thalu yn unol â'r llifau arian sydd ar gael a gynhyrchir gan ACT ac ALS a'u talu i'r Coleg fel rhodd cymorth.

**Datblygiadau cyfalaf**
Mae strategaeth ystad uchelgeisiol y Coleg, a oedd yn gofyn buddsoddiad o £98miliwn yn ystod y cyfnod o ddeng mlynedd rhwng 2011 a 2021, yn agosáu at ei gwblhau, gyda'r datblygiadau allweddol canlynol yn cael eu cyflawni yn ystod y flwyddyn:

- Mewn cydweithrediad â Chyngor Caerdydd, llwyddodd y Coleg i:
    - Ddatblygu trafodaethau mewn perthynas â datblygu ac ail-leoli Ysgol Uwchradd Fitzalan newydd i safle Campws Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd yn Lecwydd. Dechreuwyd ar waith yn ymwneud â throsglwyddo cyfleusterau'r Coleg yn ystod y flwyddyn a chafodd y gwaith hwnnw ei gwblhau ar ôl diwedd y flwyddyn ym mis Medi 2021. Bydd y newidiadau yn arwain at rai gwelliannau i'r cyfleusterau mewn perthynas â'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd;
    - Parhau â thrafodaethau sy'n ymwneud â Chanolfan Hyfforddiant Adeiladwaith Caerdydd, wedi i benawdau'r telerau gytuno ar estyniad i brydles 35 mlynedd ym mis Mawrth 2020.
- Parhaodd y Coleg i ddatblygu cynlluniau i ddisodli hen lety ym Mro Morgannwg fel rhan o raglen Ysgolion yr 21ain ganrif gan Lywodraeth Cymru a Model Buddsoddi Cydfuddiannol Band B y Coleg. Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid i gyflawni dau gampws newydd – campws addysg bellach cyffredinol yn safle Chwarter Arloesi Deheuol Glannau'r Barri, a chanolfan technoleg uwch ger safle presennol y Ganolfan Ryngwladol Hyfforddiant Awyrofod a Maes Awyr Caerdydd; mae disgwyl i'r ddau gampws agor yn 2025. Mae'r Corff Llywodraethu wedi sefydlu grŵp llywio i sicrhau bod ymrwymiad y Coleg i'r model cyllid buddsoddi cydfuddiannol a datblygiad strategol parhaus y ddau gampws yn cael eu llywodraethu, eu cefnogi a'u goruchwylio'n gywir.
- Cafodd y prosiect Parc y Gamlas gwerth £2.9m i ddatblygu a chaffael arwyneb chware 3G (yr arwyneb cwbl ailgylchadwy cyntaf yn y wlad), Dôm Awyr gyda dwy Ardal Gemau Aml-ddefnydd, dwy ystafell newid ac eisteddleoedd ym Mharc y Gamlas a'r ardal o laswellt y tu ôl i gampws canol y ddinas - yr ariannwyd yn rhannol gan grant Hwb Cymunedol Llywodraeth Cymru a chyda buddsoddiad o £0.5miliwn gan y Coleg - ei gwblhau yn fuan ar ôl diwedd y flwyddyn. Bydd y cyfleusterau yn cael eu defnyddio gan y Coleg ar gyfer gweithgarwch y cwricwlwm, i gyfoethogi myfyrwyr ac academïau chwaraeon y Coleg, gan gymuned leol Butetown, gan gynnwys timau chwaraeon lleol, ysgolion cynradd ac ar gyfer gweithgareddau dysgu i'r teulu, a chan y gymuned ehangach.

**Datblygiadau cyfalaf (parhad)**

- Parhaodd y Coleg â thrafodaethau yn ystod y flwyddyn gyda nifer o ddarpar denantiaid ar gyfer ei adeilad Un Parêd y Gamlas. Mae disgwyl i'r tenantiaethau ddechrau ddiwedd 2021.

- Dechreuodd y Coleg drefniadau prydles mewn perthynas ag Unedau 5 a 6 yn Ystad Ddiwydiannol Heol Dumballs yn ystod y flwyddyn. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i altro, addasu a diweddaru'r lleoliad hwn i'w ddefnyddio ar gyfer hyfforddiant 'technolegau gwyrdd'.

- Parhaodd y Coleg â thrafodaethau yn ymwneud â chyfranogiad posibl y Coleg fel aelod sefydlu Rhwydwaith Gwres Caerdydd, prosiect dan arweiniad Cyngor Caerdydd i gludo gwres o gyfleuster adfer ynni i fusnesau a chartrefi yng Nghaerdydd.

**Datblygiadau eraill y dyfodol**

Ochr yn ochr â'r datblygiadau cyfalaf uchelgeisiol a ddisgrifir uchod, mae'r Coleg yn gweithio ar ystod o flaenoriaethau yn fewnol ac yn allanol a fydd yn llywio cyfeiriad y Coleg yn y dyfodol, ei ystod o wasanaethau ar gyfer dysgwyr, cyflogwyr a chymunedau a'i berthnasoedd â phartneriaid a rhanddeiliaid, gan gynnwys:

- mwy o bwyslais ar lesiant staff a myfyrwyr, yn dilyn penderfyniad y Corff Llywodraethu yn ystod y flwyddyn i ychwanegu Llesiant yn flaenoriaeth strategol newydd. Yn ystod y flwyddyn, sefydlodd y Corff Llywodraethu Bwyllgor Iechyd a Llesiant newydd, gyda Llywodraethwyr, aelodau o'r Tîm Gweithredol, cynrychiolwyr myfyrwyr a rheolwyr yn gwasanaethu arno. Bydd y Pwyllgor, a ddaeth at ei gilydd am y tro cyntaf ym mis Mehefin 2021, yn goruchwylio'r datblygiadau allweddol sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant ar draws y Coleg ar gyfer staff a myfyrwyr.

- datblygu ymhellach cynnig dysgu seiliedig ar waith cynhwysfawr, atgyfnerthu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddysgwyr, cyflogwyr a chymunedau, datblygu ar gaffael ACT ac ALS, ac yn fwy diweddar, canlyniadau llwyddiannus ymarferion caffael Llywodraeth Cymru er mwyn cynnig prentisiaethau a rhaglenni cyflogadwyedd.

- ymestyn ein gweithgareddau datblygu busnes i fodloni anghenion cyflogwyr, a, pryd bynnag sy'n briodol, defnyddio ein harbenigedd ar y cyd â phartneriaid priodol i ddarparu gwasanaethau masnachol dramor neu ddenu dysgwyr a busnesau rhyngwladol i'r brifddinas;

- mewnosod technoleg ymhellach yn addysgu, dysgu a gweithgareddau eraill y Coleg, yng nghyd-destun 'Digidol 2030', fframwaith strategol Llywodraeth Cymru ar gyfer dysg ôl-16 yng Nghymru;

- parhau i ganolbwyntio ar ganlyniadau dysgwyr a'r prif flaenoriaethau, sef Ansawdd, Effeithiolrwydd, Twf a Llesiant.

**Perfformiad talu**

Yn seiliedig ar gredydwyr, dyddiau talu credydwyr ar 31 Gorffennaf 2021, oedd 25 diwrnod (2020 – 33 diwrnod). Yn ystod y flwyddyn ariannol, ni thalwyd unrhyw gostau llog o dan y Ddeddf Talu Dyledion Masnachol yn Hwyr (Llog).

**Y Gymraeg a darpariaeth cyfrwng Cymraeg/dwyieithog**

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro/Cardiff and Vale College yn falch o'i Gymreictod. Mae'n credu bod gan bawb yr hawl i gyfathrebu, defnyddio gwasanaethau a dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae'n ymroddedig i ddarparu'r cyfle hwnnw i'w ddysgwyr, ei gyflogeion a'i ymwelwyr. Mae gan CAVC agwedd gadarnhaol a chadarn at fodloni ei ofynion dan Safonau'r Gymraeg i sicrhau gwasanaeth dwyieithog cadarnhaol i bob dysgwr a rhoi'r gallu i bob rhanddeiliad gysylltu â'r Coleg yn ei ddewis iaith.

Fel Coleg mwyaf Cymru, mae CAVC yn anelu at fod yn flaengar yn y sector o ran darpariaeth addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog. Mae ei weledigaeth uchelgeisiol i wella darpariaeth o ansawdd drwy gyfrwng y Gymraeg yn cynyddu'r nifer o ddysgwyr sy'n ymgymryd â modiwl Cymraeg neu ddwyieithog fel rhan o'i gwrs; yn darparu taith ddwyieithog i ddysgwyr a chynnig cynhwysfawr o gefnogaeth; yn cynnig mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu sgiliau a gwella eu cyflogadwyedd ac yn gweld mwy o waith mewn partneriaeth er mwyn datblygu cyfleoedd ar gyfer dysgwyr.

Mae CAVC yn rhagweithiol o ran ymgymryd â gweithgareddau a buddsoddi mewn cyfleoedd sy'n codi proffil y Gymraeg ymhlith yr holl randdeiliaid yn y rhanbarth ac yn darparu cynnig cefnogaeth pwrpasol i fusnesau i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg mewn ymgais i gynyddu'r nifer o bobl fedrus, gyflogadwy a dwyieithog sydd i'w cael ar draws y Brifddinas a thu hwnt.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Fel cyflogwr a darparwr addysg a hyfforddiant, bydd Coleg Caerdydd a'r Fro yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau sy'n bodloni anghenion ein cymunedau drwy hyrwyddo cynhwysiant a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.

Mae'r Coleg yn ymdrechu i ddileu gwahaniaethu a goresgyn yr anfanteision sy'n bodoli yng nghymdeithas ac sydd wedi arwain at rai grwpiau yn cael eu trin yn llai ffafriol nag eraill. Mae gan y Coleg gyfrifoldeb i ddarparu cyfleoedd i unigolion gyflawni eu potensial mewn amgylchedd diogel sy'n rhydd rhag gwahaniaethu.

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal mewn perthynas â rhywedd, oedran, anabledd, hil, crefydd a chredo, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth a phriodas/partneriaeth sifil ac unrhyw nodwedd arall sy'n amherthnasol i ddysg neu gyflogaeth yr unigolyn gyda ni. Mae gan yr holl reolwyr, staff, dysgwyr, contractwyr, ymwelwyr ac eraill sydd ynghlwm neu'n gysylltiedig â'r Coleg gyfrifoldeb i ymddwyn mewn modd sy'n parchu a chefnogi ethos ein Coleg cynhwysol a'n hymrwymiad i gyfleoedd teg ar gyfer dysgu a chael cyflogaeth. Gallwch weld Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Coleg ar safle Mewnrwyd y Coleg a'i Gynllun Gweithredu Cydraddoldeb Strategol ar ei wefan allanol.

Dyfarnwyd y Coleg â'r statws uchel ei barch Arweinwyr mewn Amrywiaeth am ei ymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb. Dyfarnwyd y Coleg â'r statws wedi i'r Ganolfan Genedlaethol er Amrywiaeth weithio'n agos â staff a myfyrwyr. Mae'n gosod CAVC fel un o'r sefydliadau gorau yn y wlad am annog diwylliant hollgynhwysol o gydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb.

Mae'r Coleg yn aelod o'r Grŵp Arweinyddiaeth Addysg Bellach Du, a thrwy gynllun deg cam y grŵp, mae'n canolbwyntio ar herio hiliaeth, cynyddu cyflawniad o ran sgiliau a chanlyniadau hyfforddiant ymhlith dysgwyr o leiafrifoedd ethnig, a chynyddu'r nifer o bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol mewn swyddi arwain a llywodraethu mewn AB.

**Hygyrchedd**

Mae cryn dipyn o waith wedi'i wneud ar draws y Coleg i sicrhau ei fod yn hygyrch ar gyfer y rheiny sydd ag anableddau a namau i fodloni dyletswydd y Coleg o dan y Ddeddf Cydraddoldeb cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Mae hyn yn cynnwys darparu arwynebau cyffyrddol, panelau gweledol, addasiadau i ddrysau ciwbiclau toiledau, arwyddion sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, larymau mewn toiledau hygyrch, cynyddu'r nifer o offer codi pobl, dalwyr drysau tân ar rwydwaith, intercom ffoaduriaid, ymylon crwn ar risiau a lifftiau mewnol.

Mae'r gwelliannau yn cynnwys y rheiny sydd wedi'u hystyried yn 'addasiadau rhesymol' gyda'r bwriad o sicrhau bod pob rhan o'r Coleg yn hygyrch cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Wedi dweud hyn, pan nad yw hyn wedi bod yn bosibl, mae problemau wedi'u hadnabod a'u rheoli drwy addasu gweithgareddau'r Coleg i sicrhau nad yw hyn yn effeithio ar unrhyw fyfyriwr, aelod o staff neu ymwelydd.

Mae'r Coleg wedi bod yn paratoi at Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) gan sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cael mynediad at y ddysg ei hun. Mae'r Coleg wedi mewnosod hyfforddiant i gefnogi darpariaeth gyffredinol ac Ymarfer sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn, yn ogystal â buddsoddi'n sylweddol mewn technoleg gynorthwyol.

Fel rhan o'i gytundeb â'r Siarter Trawsryweddol, mae'r Coleg wedi ymgymryd ag archwiliad hygyrchedd o bob safle, gan wneud newidiadau yn ôl yr angen i wella mynediad ar gyfer pobl draws yn ei gymuned.

**Cyflogi pobl anabl**

Mae'r Coleg yn ystyried pob ffurflen gais gan bobl anabl, gan gadw mewn cof tueddfryd yr unigolion sydd dan sylw ac mae'n ymrwymedig i gamau gweithredu craidd 'Hyderus o ran Anabledd' i gefnogi ei ddull gweithredu i recriwtio staff. Pan mae cyflogeion presennol yn datblygu anabledd, gwneir pob ymdrech i sicrhau bod eu cyflogaeth gyda'r Coleg yn parhau. Polisi'r Coleg yw darparu hyfforddiant, datblygu gyrfa a chyfleoedd ar gyfer dyrchafu, sydd yr un fath â'r rheiny ar gyfer cyflogeion eraill, cyn belled â phosibl. Caiff cynllun cydraddoldebau blynyddol ei fonitro gan reolwyr a llywodraethwyr.

**Cynaliadwyedd**

Mae'r Coleg yn parhau i fod yn ymroddedig i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r saith nod yn ei weithgareddau busnes a chwricwlwm. Mae hefyd yn parhau i fod yn ymroddedig i Siarter Cynaliadwyedd Llywodraeth Cymru ac wedi cofrestru ar gyfer Rhwydwaith Busnes Cyfrifol.

Mae gan y Coleg bolisi amgylcheddol a chynllun rheoli ynni a dŵr ac ar hyn o bryd mae'n gweithio tuag at sicrhau achrediad Draig Werdd.

Mae gan y Coleg nifer o brosiectau yn mynd rhagddynt i wella ei "gynaliadwyedd", gan gynnwys cyfrannu at Rwydwaith Gwres Caerdydd, lleihau'r plastigau un defnydd a chynnal archwiliad o olew palmwydd.

Fel rhan o'r garfan gyntaf o brosiectau sydd wedi'u hariannu gan y Model Buddsoddi Cydfuddiannol newydd, nod Llywodraeth Cymru yw cyflawni dau gampws newydd y Coleg yn y Fro yn unol â thargedau carbon sero net.

Mae trosolwg o waith y Coleg ar gynaliadwyedd wedi'i gynnwys yng nghylch gwaith Pwyllgor Iechyd a Llesiant newydd y Corff Llywodraethu a ddisgrifir uchod.

**Llywodraethiant**

Cafodd strwythur Erthyglau, Offer, Corff Llywodraethu ac is-bwyllgor cyfredol y Coleg eu cyflwyno yn 2015 yn dilyn adolygiad cynhwysfawr o'i drefniadau Llywodraethu yng ngoleuni cyhoeddi Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014.

Roedd yr adolygiad hwn yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth newydd, yn ystyried modelau arfer orau'r sector, argymhellion blaenorol yr adolygiad Humphreys o Lywodraethiant ac anghenion y Coleg tuag at y dyfodol.

**Tâl a chydnabyddiaeth staff**

Mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod bod llwyddiant y Coleg yn seiliedig ar waith caled a chyfraniad ei staff a'i bod yn hanfodol y cânt eu gwobrwyo'n deg ac yn rhesymol, o fewn cyfyngiadau trefniadau a deddfwriaethau cenedlaethol perthnasol ac yn amodol ar fforddiadwyedd. Yn ogystal, mae'r Corff Llywodraethu yn cydnabod pwysigrwydd tryloywder a chydraddoldeb wrth wneud penderfyniadau ynghylch tâl a chydnabyddiaeth, ac mae'n cydymffurfio â gofynion i gyhoeddi gwybodaeth ynglŷn â materion o'r fath sy'n cael eu cynnwys naill ai yn y datganiadau ariannol hyn neu mewn adroddiadau ar wahân sydd ar gael ar wefan y Coleg.

Mae'r trefniadau canlynol ar waith mewn perthynas â thâl a chydnabyddiaeth staff:

- Fel rhan o'r Cytundebau Cenedlaethol sydd ar waith rhwng Colegau Cymru fel cynrychiolwr cyflogwyr a'r Cyd-undebau Llafur, mae'r holl staff sy'n uniongyrchol gyflogedig gan y Coleg yn:

    - gyflogedig ar 'gontractau cyffredin' sydd wedi'u cytuno gyda'r Cyd-undebau Masnach y mae staff sy'n ddarostyngedig iddynt yn gymwys am bensiwn a threfniadau gwyliau sy'n cynrychioli rhan sylweddol o gyfanswm eu cydnabyddiaeth;
    - cael tâl sydd o leiaf yn unol â chanllawiau'r Living Wage Foundation;
    - derbyn dyfarniadau tâl blynyddol yn deillio o drafodaethau sector AB Cymru a'r Cyd-Undebau Llafur; ac
    - yn achos staff addysgu, cânt eu talu ar raddfa dâl gyffredin gyda gweithdrefnau sydd wedi'u cytuno'n genedlaethol ar gyfer cynnydd yn y raddfa dâl honno.

- Yn achos staff cymorth busnes, yn absenoldeb graddfa dâl genedlaethol neu system raddio, rai blynyddoedd yn ôl gweithredodd y Coleg broses werthuso swyddi, a hynny wedi ymgynghoriad a chytundeb â chynrychiolwyr undebau masnach lleol.

- Caiff unrhyw swydd newydd sy'n cael ei sefydlu ac sy'n mynd y tu hwnt i'r broses werthuso swyddi cymorth busnes ei hasesu drwy gyfeirio at gyfraddau tâl lleol cyfredol (gan ystyried gwerth yr hawl am bensiwn a gwyliau) a phryd bynnag sy'n briodol, gwasanaethau meincnodi cyflogau perthnasol.

- Mae'r Corff Llywodraethu wedi sefydlu Pwyllgor Cydnabyddiaeth i ystyried cydnabyddiaeth deiliaid swyddi uwch, gan gynnwys Clerc y Gorfforaeth. Mae aelodau'r Pwyllgor hwn wedi'i nodi ar dudalen 19 ac mae'n cynnwys aelod nad yw'n Llywodraethwr, sy'n annibynnol ac yn allanol. Mewn perthynas â gweithredu'r pwyllgor hwn:

    - Ar hyn o bryd, dim ond pedwar deiliad swyddi uwch dynodedig sydd (gan gynnwys Clerc y Gorfforaeth);
    - Yn ychwanegol at yr aelod allanol annibynnol, mae'r Pwyllgor yn cael cyngor gan adran Adnoddau Dynol y Coleg; mae penderfyniadau'r Pwyllgor yn seiliedig ar wasanaethau meincnodi cyflogau annibynnol a phriodol; a
    - Does yr un o'r deiliaid swyddi uwch (gan gynnwys Clerc y Gorfforaeth) ynghlwm â thrafodaethau yn ymwneud â'u cydnabyddiaeth.

**Aelodau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Caerdydd a'r Fro**

Mae'r aelodau a wasanaethodd ar Gorfforaeth Addysg Bellach Coleg Caerdydd a'r Fro, oni nodir yn wahanol, yn ystod y cyfnod rhwng 1 Awst 2020 hyd at ddyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol, i'w gweld isod.

Yn ystod y flwyddyn, talodd Gorff Llywodraethu, staff a dysgwyr y Coleg deyrnged i Bart Haines, cyn Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, fu farw ar 14 Ionawr 2021. Bu Bart yn Llywodraethwr Coleg y Barri a Llywodraethwr Coleg Caerdydd a'r Fro wedi hynny am dros 20 mlynedd, rôl wirfoddol y gwasanaethodd ynddi gan roi yn ddihunan o'i amser, ei arbenigedd a'i frwdfrydedd.

| Aelod | Statws penodi | Dyddiad penodi (A) / diswyddo (R) | Pwyllgorau a wasanaethwyd |
|---|---|---|---|
| Mr G Evans<br>Cadeirydd y Gorfforaeth | Llywodraethwr | | Cadeirydd - R, SG, FGP, V |
| Mr B Haines<br>(Is-gadeirydd y Gorfforaeth mis Awst 2020 – mis Ionawr 2021) | Llywodraethwr | R - Chwe 21 | R, SG, FGP, V |
| Yr Athro D Saunders<br>(Penodwyd yn Is-gadeirydd y Gorfforaeth fis Mawrth 21) | Llywodraethwr | | CQSA (Cadeirydd), R, SG |
| Mr A Abdi | Llywodraethwr | | CQSA, HW |
| Mr D Austin | Llywodraethwr | | FGP (Cadeirydd), V |
| Dr F Cowe | Llywodraethwr | | CQSA |
| Dr M Davies | Llywodraethwr | | A (Cadeirydd) |
| Ms R Davies | Llywodraethwr Staff Cefnogi Busnes | | FGP, CQSA, HW |
| Ms M Floris | Myfyriwr Lywodraethwr | R – Awst 21 | CQSA |
| Mrs M Foster | Llywodraethwr | | FGP, R, V |
| Cyng B Gray | Llywodraethwr Awdurdod Lleol - Bro | | CQSA |
| Ms N Hodkinson | Llywodraethwr Staff Academaidd | | FGP, CQSA, HW |
| Mr D James | Llywodraethwr | | FGP, V |
| Mr M James | Prif Weithredwr y Grŵp | | FGP, CQSA, HW |
| Ms S Khan | Myfyriwr Lywodraethwr | R – Awst 21 | CQSA |
| Cyng S Merry | Llywodraethwr Awdurdod Lleol - Caerdydd | | CQSA |
| Mr I Morris | Llywodraethwr | | FGP, HW (Cadeirydd) |
| Mrs S Nawaz | Llywodraethwr | | CQSA, HW |
| Mr D Reeves | Llywodraethwr | | FGP, R, SG |
| Mr J Taylor | Llywodraethwr | | FGP hyd at fis Medi 2020, A o fis Medi 2020, HW |
| Mr R Thomas | Llywodraethwr | | FGP, V |
| Ms S Vanderkolk-Pellow | Myfyriwr Lywodraethwr | A – Medi 21 | CQSA, HW |
| Mr J Williams | Myfyriwr Lywodraethwr | A – Medi 21 | CQSA, HW |

Yn ystod y cyfnod rhwng 1 Awst 2020 a dyddiad llofnodi'r datganiadau ariannol, roedd gan y Corff Llywodraethu yr is-bwyllgorau canlynol:

- Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol (FGP, wedi newid ei enw o Gyllid, Ystadau, Masnachol ac AD ym mis Tachwedd 2021)
- Cydnabyddiaeth (R)
- Chwilio a Llywodraethu (SG)
- Cwricwlwm, Ansawdd a Materion Myfyrwyr (CQSA)
- Archwiliad (A)
- Pwyllgor Iechyd a Llesiant (HW; sefydlwyd mis Mehefin 2021)
- Grŵp Llywio Campws y Fro (V)

**Aelodau Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Caerdydd a'r Fro (parhad)**

Yn ogystal â'r llywodraethwyr a restrwyd uchod, mae Mr Phil Jardine yn gwasanaethu fel aelod annibynnol y Pwyllgor Cydnabyddiaeth.

Yn ogystal â'r aelodau llawn ar y Corff Llywodraethu a nodir uchod, mae'r unigolion canlynol yn aelodau cyd-etholedig is-bwyllgorau'r Corff Llywodraethu:

| | **Aelodaeth Pwyllgor** | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **FGP** | **CQSA** | **Arch wilio** | **HW** |
| Ms V Compton | | | √ | |
| Mr B Davies | | √ | √ | |
| Ms L Farrow | | | √ | |
| Mrs H Ferguson | | √ | | √ |
| Mr J Harper | | √ | | √ |
| Ms R Huws Williams | | √ | √ | √ |
| Ms D Merrick (R – Chwe 2021) | | | √ | |
| Miss K Patel | √ | | | |

Mae cofnod o bresenoldeb llywodraethwyr mewn cyfarfodydd ar dudalen 26.

Ac eithrio Prif Weithredwr y Grŵp, mae llywodraethwyr yn gwasanaethu'n wirfoddol ac nid ydynt yn cael tâl. Mae gwybodaeth ynghylch treuliau sy'n cael eu had-dalu i aelodau'r Gorfforaeth wedi'i chynnwys yn nodyn 8 y datganiadau ariannol.

**Datgelu gwybodaeth i archwilwyr**

Mae aelodau a oedd yn ddeiliaid swyddi ar ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad hwn yn cadarnhau, hyd eithaf eu gwybodaeth, nad oes gwybodaeth berthnasol i archwiliad nad yw archwilwyr y Coleg yn ymwybodol ohoni; ac mae pob aelod wedi cymryd yr holl gamau y dylai eu cymryd i wneud ei hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Coleg yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.





Mr G D Evans
Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Mr M James
Prif Weithredwr y

Grŵp 7 Rhagfyr 2021

Mae'n ofynnol i aelodau'r Corff Llywodraethu gyflwyno datganiad ariannol wedi'i archwilio ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

O fewn amodau a thelerau'r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a Chorff Llywodraethu'r Coleg, mae'n ofynnol i'r Corff Llywodraethu, drwy ei Swyddog Atebol, baratoi datganiadau ariannol ac adolygiad gweithredol ac ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â Datganiad o'r Arfer Argymelledig – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch, Cyfarwyddyd Cyfrifon Colegau Addysg Bellach yng Nghymru, ac Egwyddorion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Genedlaethol, ac sy'n rhoi safbwynt clir a theg o gyflwr materion y Coleg a'i warged neu ddiffyg incwm mewn cymhariaeth â'r gwariant ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'n ofynnol i'r Corff Llywodraethu:

- ddewis polisïau cyfrifyddu addas a'u cymhwyso'n gyson;
- gwneud beirniadaethau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth;
- nodi a yw safonau cyfrifyddu priodol y DU wedi'u dilyn, yn amodol ar unrhyw wyriad o'r arfer yn cael ei ddatgelu a'i egluro yn y datganiadau ariannol;
- asesu a yw'r coleg yn fusnes sy'n parhau, gan nodi'r rhagdybiaethau atodol, cymwysterau neu gamau gweithredu lliniaru allweddol, fel sy'n briodol (y mae'n rhaid iddynt fod yn briodol â datgeliadau eraill yn y cyfrifon ac adroddiad yr archwilydd);
- paratoi datganiadau ariannol ar sail cwmni sy'n parhau oni bai ei bod yn amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd y Coleg yn parhau i weithredu.

Mae'n ofynnol hefyd i'r Corff Llywodraethu baratoi Adroddiad y Corff Llywodraethu (a elwir hefyd yn Adroddiad Aelodau), sy'n disgrifio'r hyn mae'n ceisio ei wneud a sut mae'n mynd ati i wneud hynny, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch statws cyfreithiol a gweinyddol y Coleg.

Y Corff Llywodraethu sy'n gyfrifol am gadw cyfrifon priodol sy'n datgelu, gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw bryd, sefyllfa ariannol y Coleg ac sy'n ei galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cael eu paratoi yn unol â'r deddfwriaethau perthnasol, gan gynnwys Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 a Deddf Elusennau 2011, a safonau cyfrifyddu perthnasol eraill. Mae'n gyfrifol am gymryd camau sy'n rhesymol agored iddo er mwyn diogelu ei asedau ac atal ac adnabod achosion o dwyll ac anghysondebau eraill.

Cyfrifoldeb y Corff Llywodraethu yw cynnal a chadw a gonestrwydd ei wefannau; nid yw'r gwaith a wneir gan archwilwyr yn cynnwys ystyriaeth o'r materion hyn, ac yn unol â hynny, nid yw archwilwyr yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw newidiadau a all fod wedi digwydd i'r datganiadau ariannol ers iddynt gael eu cyflwyno ar y wefan. Gall deddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n rheoli gwaith paratoi a lledaenu datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaethau awdurdodaethau eraill.

Mae aelodau'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau bod gwariant ac incwm yn cael eu cymhwyso at ddibenion bwriadedig Llywodraeth Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Yn ogystal, maent yn gyfrifol am sicrhau bod cronfeydd arian gan Lywodraeth Cymru, ac unrhyw arian cyhoeddus arall, yn cael eu defnyddio'n unig yn unol â'r Memorandwm Ariannol â Llywodraeth Cymru ac unrhyw amodau eraill y gellir eu cyflwyno o bryd i'w gilydd gan Lywodraeth Cymru neu unrhyw gyllidwr cyhoeddus arall. Rhaid i aelodau sicrhau bod rheolyddion ariannol a rheolaeth briodol ar waith er mwyn diogelu cronfeydd cyhoeddus a chronfeydd eraill i sicrhau y cânt eu defnyddio'n briodol. Yn ogystal, mae Aelodau'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am sicrhau rheolaeth ddarbodus, effeithlon ac effeithiol o adnoddau a gwariant y Coleg, fel nad yw buddion y dylid eu cyflawni wrth ddefnyddio arian cyhoeddus gan Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill yn cael eu rhoi mewn risg.

Cymeradwywyd gan aelodau'r Corff Llywodraethu ar 7 Rhagfyr 2021 a llofnodwyd ar eu rhan gan:



Mr G D Evans
Cadeirydd y Corff

Llywodraethu 7 Rhagfyr 2021

**LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Mae'r Coleg yn ymrwymedig i lynu wrth arfer orau ym mhob agwedd ar lywodraethu corfforaethol.

Mae'r crynodeb hwn yn disgrifio'r dull mae'r Sefydliad wedi cymhwyso'r egwyddorion a nodir yng Nghod Llywodraethu Corfforaethol y DU 2018 (y Cod) fel mae'n berthnasol i'r sector addysg bellach. Ei ddiben yw cynorthwyo darllenydd y cyfrifon i ddeall sut mae'r egwyddorion wedi'u cymhwyso.

Wedi cyhoeddiad Deddf Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) 2014, aeth y Corff Llywodraethu ati i gynnal adolygiad cynhwysfawr o'i drefniadau Llywodraethu. Mae'r adolygiad hwn yn ymgorffori'r ddeddfwriaeth newydd, yn ystyried modelau arfer orau'r sector, argymhellion blaenorol yr adolygiad Humphreys o Lywodraethiant ac anghenion y Coleg tuag at y dyfodol.

Casglwyd yr adolygiad hwn drwy benodi aelodau newydd i'r Corff Llywodraethu a strwythur llywodraethu diwygiedig a ddaeth i rym 1 Awst 2015.

Yn ystod y flwyddyn mae'r Corff Llywodraethu wedi adolygu ac ystyried ei ffordd o weithio a datblygiadau ar gyfer y dyfodol mewn perthynas ag arfer orau, gan gynnwys Canllaw i Lywodraethwyr gan Colegau Cymru, a, fel sy'n briodol yn ôl anghenion y Coleg, wedi addasu newidiadau i gefnogi datblygiad parhaus ei drefniadau llywodraethu.

Ym marn y Llywodraethwyr, mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi cydymffurfio â holl ddarpariaethau'r Cod fel maent yn berthnasol i'r Sector Addysg Bellach, ac wedi cydymffurfio drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021.

**Y Gorfforaeth**

Mae strwythur Corfforaeth Addysg Bellach Coleg Caerdydd a'r Fro yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 i'w weld ar dudalennau 19 i 20; mae cofnod o bresenoldeb Llywodraethwyr mewn cyfarfodydd i'w weld isod. Cyfrifoldeb y Gorfforaeth yw cymhwyso beirniadaeth annibynnol i faterion o natur addysgol, strategol, perfformiad, adnoddau a safonau ymddygiad.

Darperir y Gorfforaeth â gwybodaeth reolaidd ac amserol o berfformiad ariannol cyffredinol y Sefydliad, ynghyd â gwybodaeth arall, megis perfformiad yn erbyn targedau cyllid, gwariant cyfalaf arfaethedig, materion ansawdd, gwariant cyfalaf arfaethedig a materion sy'n ymwneud â staff, megis iechyd a diogelwch a materion amgylcheddol.

Cynhaliodd y Gorfforaeth ei busnes drwy nifer o bwyllgorau. Roedd gan bob pwyllgor gylch gorchwyl, a gafodd ei gymeradwyo gan y Gorfforaeth. Roedd y pwyllgorau hyn fel a ganlyn:

- Cyllid a Dibenion Cyffredinol (wedi newid ei enw o Gyllid, Ystadau, Masnachol ac AD ym mis Tachwedd 2021)
- Cwricwlwm, Ansawdd a Materion Myfyrwyr
- Cyflog
- Chwilio a Llywodraethu
- Archwilio
- Grŵp Llywio Campws y Fro
- Pwyllgor Iechyd a Llesiant (sefydlwyd mis Mehefin 2021)

**LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

**(parhad) Y Gorfforaeth (parhad)**

Llwyddodd pob llywodraethwr i gael cyngor proffesiynol annibynnol er cynnydd ei ddyletswyddau ar draul y Sefydliad ac roedd ganddo fynediad at Glerc y Gorfforaeth, a oedd yn atebol i'r Bwrdd o ran sicrhau y cydymffurfir â'r holl weithdrefnau a rheoliadau perthnasol. Roedd penodi, gwerthuso a chael gwared ar y Clerc yn faterion i'r Gorfforaeth gyfan.

Rhoddwyd agendâu, papurau ac adroddiadau i Lywodraethwyr yn amserol, cyn bob cyfarfod Bwrdd. Darparwyd briffiau hefyd ar sail ad hoc.

Roedd gan y Gorfforaeth elfen anweithredol gref ac annibynnol, ac ni wnaeth unrhyw unigolyn neu grŵp ddylanwadu ar ei phroses gwneud penderfyniadau. Ystyriodd y Gorfforaeth bob un o'i aelodau anweithredol yn annibynnol ar y rheolwyr ac yn rhydd rhag unrhyw fusnes neu berthynas arall, a allai fod wedi ymyrryd yn berthnasol arni yn defnyddio ei beirniadaeth annibynnol.

Roedd rhaniad amlwg yn y cyfrifoldebau bod rolau'r Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Grŵp ar wahân.

**Perfformiad y Gorfforaeth**

Mae'r Gorfforaeth wedi ymgymryd ag asesiad o'i heffeithiolrwydd ei hun fel rhan o broses hunanasesu flynyddol ar draws y grŵp cyfan.

Mae'r Gorfforaeth yn ystyried bod ei threfniadau llywodraethu yn ystod y flwyddyn wedi bod yn effeithiol. Llwyddwyd i drosglwyddo cyfarfodydd o ystafell gyfarfod draddodiadol i fod ar-lein heb darfu, gyda Llywodraethwyr yn cael cymorth gyda hyn yn ôl yr angen. Parhawyd i wneud penderfyniadau a chyflawni arolygiaeth strategol, a pharhaodd presenoldeb llywodraethwyr mewn cyfarfodydd (manylion isod) dros 90%.

Fel y disgrifir isod, yn adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol ceir "sicrwydd sylweddol" mewn perthynas â Llywodraethiant Corfforaethol, a "sicrwydd sylweddol" mewn perthynas â Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol.

**Pwyllgor Cydnabyddiaeth**

Drwy gydol y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021, roedd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth yn cynnwys yr aelodau a nodir ar dudalen 19. Cyfrifoldebau'r pwyllgor oedd cyflwyno argymhellion i'r Bwrdd ynghylch cydnabyddiaeth a buddion Prif Weithredwr y Grŵp a deiliaid swyddi uwch eraill.

Mae manylion cydnabyddiaeth deiliaid swyddi uwch ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 i'w cael yn nodyn 8 y datganiadau ariannol.

**Penodiadau i'r Gorfforaeth**

Roedd pob penodiad newydd i'r Gorfforaeth yn fater i'r Gorfforaeth gyfan ei ystyried. Mae gan y Gorfforaeth Bwyllgor Chwilio a Llywodraethu sy'n cynnwys yr aelodau a nodir ar dudalen 19 ac roedd y pwyllgor hwn yn gyfrifol am ddewis ac enwebu unrhyw aelod newydd i'r Gorfforaeth ei ystyried. Roedd y Gorfforaeth yn gyfrifol am sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu yn ôl yr angen.

Penodir aelodau'r Gorfforaeth am dymor yn y swydd sydd ddim hirach na thair blynedd a rhoddwyd opsiynau iddynt i barhau am ail derm ym mis Gorffennaf 2019.

**LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

**(parhad) Pwyllgor Archwilio**

Roedd y Pwyllgor Archwilio yn cynnwys dau aelod o'r Gorfforaeth ac o leiaf tri aelod cyfetholedig fel y'u nodir ar dudalennau 19 a 20. Gweithredodd y pwyllgor yn unol â'r cylch gorchwyl ysgrifenedig sydd wedi'i gymeradwyo gan y Gorfforaeth.

Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio deirgwaith yn ystod y flwyddyn, a darparodd fforwm yn destun adroddiad gan archwilwyr mewnol ac allanol y Sefydliad, yr oedd ganddynt fynediad at y pwyllgor ar gyfer trafodaeth annibynnol, heb bresenoldeb rheolwyr y Sefydliad. Dangosir presenoldeb aelodau'r pwyllgor mewn cyfarfodydd isod.

Mae archwilwyr mewnol y Coleg wedi monitro'r systemau rheolaeth fewnol, y rheolyddion rheoli risg a'r prosesau llywodraethu yn unol â chynllun cytunedig ac yn adrodd ar eu canfyddiadau i'r rheolwyr a'r Pwyllgor Archwilio.

Y rheolwyr oedd yn gyfrifol am weithredu'r argymhellion archwilio cytunedig ac ymgymerodd yr archwilwyr mewnol ag adolygiadau dilynol bob hyn a hyn i sicrhau bod yr holl argymhellion wedi'u gweithredu. Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynghori'r Gorfforaeth ar benodi archwilwyr mewnol ac allanol a'u cydnabyddiaeth ariannol ar gyfer gwaith archwilio a gwaith nad yw'n ymwneud ag archwilio.

**LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL (parhad) Presenoldeb llywodraethwyr mewn cyfarfodydd**

Dangosir isod y nifer o gyfarfodydd, gan gynnwys is-bwyllgorau, a fynychodd llywodraethwyr ac aelodau pwyllgorau a oedd mewn swydd yn ystod y flwyddyn. Pan nad yw llywodraethwyr ac aelodau'r pwyllgor yn gallu mynychu cyfarfodydd, cânt bapurau ar gyfer y cyfarfod hwnnw sy'n rhoi'r cyfle iddynt godi unrhyw gwestiynau neu faterion gyda'r Cadeirydd ymlaen llaw.

| | Y prif fwrdd | C | FGP | HW | A | V | R | SG |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y cyfarfodydd a gynhaliwyd | 11 | 4 | 5 | 1 | 5 | 2 | 1 | 1 |
| | | | | | | | | |
| **Llywodraethwyr llawn** | | | | | | | | |
| Mr G Evans | 11 | | 5 | | | 2 | 1 | 1 |
| Mr B Haines [1] | 4 | | 2 | | | 1 | | |
| Yr Athro D Saunders | 11 | 4 | | | | | 1 | 1 |
| Mr A Abdi | 11 | 4 | | | | | | |
| Mr D Austin | 11 | | 5 | | | 2 | | |
| Dr F Cowe | 11 | 4 | | | | | | |
| Dr M Davies | 10 | | | | 5 | | | |
| Ms R Davies | 11 | 4 | 5 | 1 | | | | |
| Ms M Floris | 10 | 4 | | 1 | | | | |
| Mrs M Foster | 11 | | 5 | 1 | | 2 | | |
| Cyng B Gray | 11 | 2 | | | | | | |
| Ms N Hodkinson | 11 | 4 | 5 | 1 | | | | |
| Mr D James | 11 | | 5 | | | 2 | | |
| Mr M James | 11 | | 5 | | | 2 | | |
| Ms S Khan | 10 | 4 | | | | | | |
| Cyng S Merry | 10 | 4 | | | | | | |
| Mr I Morris | 10 | | | 1 | | | | |
| Mrs S Nawaz | 8 | 4 | | 1 | | | | |
| Mr D Reeves | 11 | | 4 | | | | 1 | 1 |
| Mr J Taylor [2] | 11 | | | 1 | 4 | 1 | | |
| Mr R Thomas | 9 | | 4 | | | 1 | | |
| | | | | | | | | |
| **Llywodraethwyr Cyfetholedig** | | | | | | | | |
| Ms V Compton | | | | | 4 | | | |
| Mr B Davies | | 4 | | | 5 | | | |
| Ms L Farrow | | | | | 5 | | | |
| Mrs H Ferguson [3] | | 2 | | 1 | | | | |
| Mr J Harper | | 2 | | 1 | | | | |
| Ms R Huws Williams | | 4 | | 1 | 5 | | | |
| Ms D Merrick [4] | | | | | 1 | | | |
| Miss K Patel | | | 4 | | | | | |
| | | | | | | | | |
| **Aelodau annibynnol** | | | | | | | | |
| Mr P Jardine | | | | | | | 1 | |

[1] Fel y disgrifir yn Adroddiad y Corff Llywodraethu, yn ystod y flwyddyn talodd Gorff Llywodraethu, staff a dysgwyr y Coleg deyrnged i Bart Haines, Cyn-is Gadeirydd y Llywodraethwyr, fu farw ar 14 Ionawr 2021.
[2] Penodwyd Mr J Taylor i Grŵp Llywio Campws y Fro fis Chwefror 2021.
[3] Roedd Mrs H Ferguson ar absenoldeb mamolaeth am ran o'r flwyddyn.
[4] Diswyddodd Ms D Merrick fel Llywodraethwr fis Chwefror 2021.

CSQA - Cwricwlwm, Ansawdd a Materion Myfyrwyr
FGP – Cyllid a Dibenion Cyffredinol (wedi newid ei enw o Gyllid, Ystadau, Masnachol ac AD ym mis Tachwedd 2021) HW - Pwyllgor Iechyd a Llesiant
A - Archwilio
V - Grŵp Llywio Campws y Fro R
- Cydnabyddiaeth
SG - Chwilio a Llywodraethu

**RHEOLAETH FEWNOL**

**Cwmpas cyfrifoldeb**

Yn y pendraw, y Gorfforaeth oedd yn gyfrifol am system rheolaeth fewnol y Sefydliad ac am adolygu ei heffeithiolrwydd. Fodd bynnag, mae system o'r fath wedi'i dylunio i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni amcanion busnes, a gall ddarparu lefel resymol o sicrwydd yn hytrach na sicrwydd absoliwt yn erbyn cam-ddatgan neu golli deunydd.

Mae'r Gorfforaeth wedi dirprwyo cyfrifoldeb o ddydd i ddydd i Brif Weithredwr y Grŵp, fel Swyddog Atebol, er mwyn cynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi gyda chyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Sefydliad, gan ddiogelu'r cronfeydd a'r asedau cyhoeddus y mae Prif Weithredwr y Grŵp yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau y neilltuwyd iddo yn y Memorandwm Ariannol rhwng Coleg Caerdydd a'r Fro a Llywodraeth Cymru. Mae Prif Weithredwr y Grŵp hefyd yn gyfrifol am adrodd i'r Gorfforaeth ar unrhyw wendid neu fethiant perthnasol yn y rheolaeth fewnol.

**Diben y system rheolaeth fewnol**

Mae'r system rheolaeth fewnol wedi'i dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu pob risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly gall roi lefel resymol o sicrwydd o effeithiolrwydd yn hytrach na lefel absoliwt. Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar broses gyfredol sydd wedi'i dylunio i adnabod a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Sefydliad, gwerthuso tebygoliaeth y risgiau hynny'n digwydd go iawn a'u heffaith petai hynny'n digwydd, a'u rheoli'n effeithlon, effeithiol a darbodus. Mae'r system rheolaeth fewnol wedi bod ar waith yng Ngholeg Caerdydd a'r Fro yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol. Ni chodwyd unrhyw ddiffygion neu fethiannau sylweddol yn y rheolaeth fewnol yn ystod y flwyddyn.

**Capasiti i ymdrin â risg**

Drwy waith y Pwyllgor Archwilio, mae'r Gorfforaeth wedi adolygu'r broses ar gyfer adnabod a monitro'r prif risgiau y mae'r Sefydliad wedi'i amlygu iddynt gyda'r rheolyddion gweithredu, ariannol a chydymffurfiaeth sydd wedi'u gweithredu i liniaru'r risgiau hynny. Barn y Gorfforaeth yw bod proses gyfredol ffurfiol ar gyfer adnabod, gwerthuso a rheoli risgiau sylweddol i'r Sefydliad, ac roedd y broses honno ar waith pan ddaeth y flwyddyn i ben 31 Gorffennaf 2021.

**Y fframwaith risg a rheoli**

Mae'r system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar fframwaith o wybodaeth reoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Yn benodol, mae'n ymdrin â'r canlynol:

- systemau cyllidebu cynhwysfawr sydd â chyllideb flynyddol a gaiff ei hadolygu a'i chytuno gan y Gorfforaeth;
- adolygiadau rheolaidd gan y Gorfforaeth o adroddiadau ariannol cyfnodol a blynyddol, sy'n dangos y perfformiad ariannol mewn cymhariaeth â rhagolygon;
- gosod targedau i fesur perfformiad ariannol ac eraill;
- canllawiau rheoli buddsoddiad cyfalaf clir; a
- mabwysiadu disgyblaethau rheoli prosiect ffurfiol, pryd bynnag sy'n briodol.

**RHEOLAETH FEWNOL (parhad) Y fframwaith risg a rheoli**

Cysylltodd y Gorfforaeth â Deloitte i ddarparu gwasanaeth archwilio mewnol, sy'n gweithredu yn unol â gofynion Llywodraeth Cymru. Mae gwaith y gwasanaeth archwilio mewnol yn seiliedig ar ddadansoddiad o'r risgiau y mae'r Sefydliad yn cael ei amlygu iddynt, ac mae'r cynlluniau archwilio mewnol blynyddol yn seiliedig ar y dadansoddiad hwn. Caiff y dadansoddiad o'r risgiau a'r cynlluniau archwilio mewnol eu cefnogi gan y Gorfforaeth yn ôl argymhelliad y Pwyllgor Archwilio. Mae'r Archwilwyr Mewnol yn darparu'r Gorfforaeth ag adroddiad ar weithgareddau archwilio mewnol yn y Sefydliad yn flynyddol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys barn annibynnol yr Archwiliwr Mewnol ynghylch manwl gywirdeb ac effeithiolrwydd system rheoli risgiau, rheolyddion a phrosesau llywodraethu'r Sefydliad.

Yn adroddiad blynyddol yr Archwilwyr Mewnol, ceir "sicrwydd sylweddol" mewn perthynas â Llywodraethiant Corfforaethol, a "sicrwydd sylweddol" mewn perthynas â Rheoli Risg a Rheolaeth Fewnol.

Mae'r Gorfforaeth yn fodlon bod y fframwaith rheolaeth fewnol a amlinellir uchod yn bodloni ei rhwymedigaethau mewn perthynas â'r canlynol:

- cyfrifoldeb statudol y Gorfforaeth am 'sicrhau defnydd effeithiol ac effeithlon o adnoddau, gallu'r sefydliad a'r corff corfforaethol i dalu dyledion a diogelu ei asedau' (fel sy'n ofynnol gan Adran 5(3)(c) o Ran 2 Atodlen 4 Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, fel y'u diwygiwyd; a

- chyfrifoldebau cytundebol y Gorfforaeth dan ei chytundebau a chontractau cyllid gyda Llywodraeth Cymru.

**Adolygiad o effeithiolrwydd**

Fel Swyddog Atebol, cyfrifoldeb Prif Weithredwr Grŵp Coleg Caerdydd a'r Fro yw adolygu effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol. Mae adolygiad Prif Weithredwr y Grŵp o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol yn seiliedig ar:

- waith yr archwilwyr mewnol;

- gwaith y rheolwyr gweithredol yn y Sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol; a

- sylwadau gan archwilwyr datganiadau ariannol y Sefydliad yn eu llythyr at reolwyr ac adroddiadau eraill.

Mae Prif Weithredwr y Grŵp wedi cael gwybod am oblygiadau canlyniad ei adolygiad o effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol gan y pwyllgor archwilio, sy'n goruchwylio gwaith yr archwiliwr mewnol, a chynllun i fynd i'r afael â gwendidau a sicrhau bod gwelliant parhaus y system wedi'i sefydlu.

Mae'r tîm gweithredol yn derbyn adroddiadau sy'n nodi dangosyddion perfformiad a risgiau allweddol ac yn ystyried materion rheoli posibl a ddygir at eu sylw drwy fecanweithiau rhybuddion cynnar, sydd wedi'u mewnosod yn yr adrannau a'u cryfhau gan hyfforddiant ymwybyddiaeth risg. Mae'r tîm gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd gan archwiliadau mewnol, sy'n cynnwys argymhellion am welliannau. Mae rôl y Pwyllgor Archwilio yn y maes hwn wedi'i gyfyngu i adolygiad lefel uchel o'r trefniadau ar gyfer rheolaeth fewnol. Mae agenda'r Gorfforaeth yn cynnwys ystyriaeth o risg a rheolaeth ac mae adroddiadau wedi dod i'w rhan gan y tîm gweithredol a'r Pwyllgor Archwilio. Y pwyslais yw caffael y radd berthnasol o sicrwydd, yn hytrach nag adrodd drwy eithriad.

**RHEOLAETH FEWNOL (parhad) Adolygiad o effeithiolrwydd (parhad)**

Yn ei chyfarfod ar 7 Rhagfyr 2021, cynhaliodd y Gorfforaeth yr asesiad blynyddol ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 drwy ystyried adroddiad blynyddol y Pwyllgor Archwilio, adroddiad blynyddol yr archwilwyr mewnol, adroddiad yr archwilwyr allanol i reolwyr a dogfennaeth atodol gan swyddogion.

**Datganiad gan y Pwyllgor Archwilio**

Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi ystyried yr adroddiadau a gyflwynwyd iddo gan archwilwyr mewnol ac allanol yn ystod y flwyddyn a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, ynghyd â chanfyddiadau gwaith eraill a wnaethpwyd gan y Pwyllgor fel y nodir yn ei adroddiad blynyddol. Yn seiliedig ar y wybodaeth hon, mae'r Pwyllgor Archwilio yn fodlon y gall y Corff Llywodraethu, o ran cyflawni ei gyfrifoldebau, ddibynnu ar brosesau rheoli risg, rheolaeth fewnol a llywodraethu'r Coleg.

**Datganiad y Corff Llywodraethu ar reoleidd-dra, priodoldeb a chydymffurfiaeth y Gorfforaeth gydag amodau a thelerau gan y corff cyllido**


Mae'r Gorfforaeth wedi ystyried ei chyfrifoldeb i hysbysu Llywodraeth Cymru o anghysondeb, amhriodoldeb ac anghydffurfiaeth briodol â thelerau ac amodau cyllid Llywodraeth Cymru, dan y memorandwm ariannol a'r contractau sydd wedi'u sefydlu rhwng y Coleg a Llywodraeth Cymru. Fel rhan o'n hystyriaeth, rydym wedi rhoi sylw dyledus i ofynion y memorandwm ariannol a'r contractau gyda Llywodraeth Cymru.

Rydym yn cadarnhau ar ran y Corff Llywodraethu, ar ôl gwneud yr ymholiadau dyledus, a hyd eithaf ein gwybodaeth, y gallwn adnabod unrhyw ddefnydd afreolaidd neu amhriodol perthnasol o arian gan y Coleg, neu achos perthnasol o anghydffurfio ag amodau a thelerau'r cyllid dan femorandwm ariannol a chontractau'r Coleg gyda Llywodraeth Cymru, ac unrhyw gyllidwr cyhoeddus arall.

Rydym yn cadarnhau nad ydym wedi darganfod unrhyw achos o anghysondeb, amhriodoldeb nac anghydffurfiaeth briodol mewn perthynas â chyllid hyd yn hyn. Os caiff unrhyw achos ei adnabod ar ôl dyddiad y datganiad hwn, bydd hwn yn cael ei adrodd i Lywodraeth Cymru.

**Cwmni sy'n Parhau**

Ar ôl gwneud yr ymholiadau priodol, mae'r Gorfforaeth yn credu bod gan y Sefydliad yr adnoddau priodol i barhau i fodoli'n weithredol am o leiaf 12 mis o ddyddiad y datganiad ariannol hwn. Am y rheswm hwn, mae'n parhau i fabwysiadu'r statws cwmni sy'n parhau wrth baratoi'r datganiadau ariannol. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch defnyddio'r statws cwmni sy'n parhau wedi'i chynnwys yn nodyn 1 y datganiadau ariannol.





Mr G D Evans
Cadeirydd y Grŵp Llywodraethu

Mr M James
Prif Weithredwr y

Grŵp 7 Rhagfyr 2021

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GORFF LLYWODRAETHU COLEG CAERDYDD A'R FRO**

**ADRODDIAD AR ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL**

**Barn**

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Coleg Caerdydd a'r Fro ("y Coleg") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021, sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol a Datganiad Incwm Cynhwysfawr y Coleg, Datganiad Cyfunol a Datganiad ar Newidiadau mewn Arian Wrth Gefn y Coleg, Mantolenni Cyfunol a Mantolenni'r Coleg, y Llifau Arian Cyfunol a nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu yn nodyn 1.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o gyflwr y Grŵp a materion y Coleg fel yr oeddynt ar 31 Gorffennaf 2021, ac o incwm a gwariant, enillion a cholledion a newidiadau i gronfeydd arian wrth gefn, a llifau arian y Grŵp ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol ag arferion cyfrifyddu y DU, gan gynnwys FRS 102 *Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon*, a *Datganiad o'r Arfer Argymelledig* 2019 – *Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch*.

**Sail y farn**

Cynaliasom ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU) ("ISAs (UK)") a chyfraith berthnasol. Disgrifir ein cyfrifoldebau isod. Rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesol dan ofynion moesol y DU, gan gynnwys Safon Foesol FRC, ac yn annibynnol ar y grŵp yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth archwilio yr ydym wedi'i chasglu yn ddigonol ac yn briodol i roi sail ar gyfer ein barn.

**Cwmni sy'n parhau**

Mae'r Grŵp Llywodraethu wedi paratoi'r datganiadau ariannol ar sail cwmni sy'n parhau gan nad ydynt yn bwriadu diddymu'r Grŵp na'r Coleg na rhoi'r gorau i'w gweithrediadau, a chan eu bod wedi dod i'r casgliad bod sefyllfa ariannol y Grŵp a'r Coleg yn golygu bod hyn yn realistig. Maent hefyd wedi casglu nad oes unrhyw ansicrwydd perthnasol a allai fod wedi bwrw unrhyw amheuaeth sylweddol dros eu gallu i barhau fel cwmni sy'n parhau am o leiaf blwyddyn o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol ("cyfnod y cwmni sy'n parhau").

Yn ein gwerthusiad o gasgliadau'r Corff Llywodraethu, gwnaethom ystyried y risgiau cynhenid i fodel busnes y grŵp a dadansoddi sut allai'r risgiau hynny effeithio ar adnoddau ariannol y Grŵp a'r Brifysgol neu eu gallu i barhau i weithredu gydol cyfnod y cwmni sy'n parhau.

Ein casgliadau yn seiliedig ar y gwaith hwn:

- rydym yn ystyried bod defnydd y Corff Llywodraethu o sail cwmni sy'n parhau o ran cyfrifyddu wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn yn briodol;
- nid ydym wedi adnabod, a chytuno ag asesiad y Corff Llywodraethu nad oes ansicrwydd sylweddol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Grŵp neu'r Coleg i barhau fel cwmni sy'n parhau gydol cyfnod y cwmni sy'n parhau.

Wedi dweud hynny, gan na allwn ragweld pob digwyddiad neu amod yn y dyfodol ac oherwydd y gall digwyddiadau dilynol arwain at ganlyniadau sy'n anghyson â beirniadaethau a oedd yn rhesymol ar yr adeg y cawsant eu gwneud, nid yw'r casgliadau uchod yn warant y bydd y Grŵp neu'r coleg yn parhau i weithredu.

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GORFF LLYWODRAETHU COLEG CAERDYDD A'R FRO (parhad)**

**Twyll ac achosion o dorri cyfraith a rheoliadau – gallu i ganfod**

Er mwyn adnabod risgiau o gam-ddatgan perthnasol oherwydd twyll ("risgiau o dwyll"), gwnaethom asesu digwyddiadau neu amodau a allai ddynodi cymhelliant neu bwysau i gyflawni twyll neu ddarparu cyfle i gyflawni twyll. Roedd ein gweithdrefnau asesu risg yn cynnwys:

- Ymholi'r cyfarwyddwyr, y Pwyllgor Archwilio ac archwilwyr mewnol ynghylch polisïau a gweithdrefnau lefel uchel y Grŵp er mwyn atal a chanfod twyll, gan gynnwys y swyddogaeth archwiliad mewnol, a sianel y Grŵp ar gyfer "chwythu'r chwiban", yn ogystal ag a oes ganddynt wybodaeth o unrhyw dwyll gwirioneddol, amheuaeth o dwyll neu dwyll honedig.
- Darllen cofnodion y Corff Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio.
- Defnyddio gweithdrefnau dadansoddi i adnabod unrhyw berthnasoedd anarferol ac annisgwyl.
- Caffael copi o gofrestr twyll y Grŵp.

Gwnaethom gyfathrebu risgiau twyll adnabyddedig ar draws y tîm archwilio a pharhau i gadw llygad barcud am unrhyw arwyddion o dwyll drwy gydol yr archwiliad.

Fel sy'n ofynnol gan y safonau archwilio, a chan ystyried pwysau posibl i fodloni cyfamodau benthyciadau, rydym yn cynnal gweithdrefnau i fynd i'r afael â risg rheolwyr yn gwrthwneud rheolyddion a'r risg o gydnabod refeniw twyllodrus, yn arbennig y risg bod incwm o ffioedd dysgu ac incwm contractau addysg a grantiau a chontractau eraill yn cael ei gofnodi yn y cyfnod anghywir a'r risg y gall rheolwyr y Grŵp fod mewn sefyllfa i wneud cofnodion cyfrifyddu amhriodol.

Ni wnaethom adnabod unrhyw risgiau ychwanegol o dwyll.

O ran pennu'r gweithdrefnau archwilio, gwnaethom ystyried canlyniadau ein gwerthusiad a'n prawf o effeithiolrwydd gweithredu rheolyddion rheoli risg o dwyll ar draws y Grŵp cyfan

Cynaliasom weithdrefnau gan gynnwys:

- Adnabod cofnodion mewn dyddlyfrau ac addasiadau eraill i brofi yn seiliedig ar feini prawf risg a chymharu'r cofnodion sydd wedi'u hadnabod i gefnogi dogfennaeth. Roedd y rhain yn cynnwys y dyddlyfrau hynny yn cael eu cynnwys yng nghyfrifon refeniw gyda'r cofnod cyfatebol yn cael ei gynnwys mewn cyfrifon anghyffredin.
- Archwilio derbynebau arian parod yn y cyfnod cyn ac ar ôl 31 Gorffennaf 2021 i ddilysu bod incwm o ffioedd dysgu ac ymchwil wedi'i gydnabod yn y cyfnod cyfrifyddu cywir.

*Adnabod ac ymateb i risgiau o gam-ddatgan perthnasol oherwydd achos o anghydffurfio â deddfau a rheoliadau*

Gwnaethom adnabod meysydd o'r gyfraith a rheoliadau y gallai fod yn rhesymol ddisgwyliedig iddynt gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol o'n profiad masnachol a'n profiad yn y sector yn gyffredinol, a thrwy drafodaeth â'r Cyngor a rheolwyr eraill (fel sy'n ofynnol gan safonau archwilio) a thrafod gyda'r Cyngor a rheolwyr eraill y polisïau a'r gweithdrefnau sy'n ymwneud â chydymffurfio â chyfraith a rheoliadau.

Gan fod y Grŵp yn cael ei reoleiddio, roedd ein hasesiad o'r risgiau sydd ynghlwm yn cynnwys datblygu dealltwriaeth o'r amgylchedd rheoli, gan gynnwys gweithdrefnau'r endid ar gyfer cydymffurfio â gofynion rheoliadol.

Gwnaethom gyfathrebu deddfau a rheoliadau adnabyddedig ar draws y tîm a pharhau i gadw llygad barcud am unrhyw arwyddion o anghydffurfio drwy gydol yr archwiliad.

Mae effaith bosibl y deddfau a'r rheoliadau hyn ar y datganiadau ariannol yn amrywio'n sylweddol.

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GORFF LLYWODRAETHU COLEG CAERDYDD A'R FRO (parhad)**

Mae'n ofynnol i'r Coleg lynu wrth ddeddfau a rheoliadau sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol (gan gynnwys deddfwriaethau cwmnïau cysylltiedig), deddfwriaeth elw sy'n cael ei ddosbarthu, deddfwriaeth pensiynau a datgeliadau penodol sy'n ofynnol drwy ddeddfwriaeth gysylltiedig ag addysg bellach, gan gynnwys Cyfarwyddyd Cyfrifon Colegau Addysg Bellach yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru, a gwnaethom asesu i ba raddau y cydymffurfiwyd â'r deddfau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau mewn perthynas ag eitemau'r datganiadau ariannol.

Er bod y Coleg yn ddarostyngedig i nifer o ddeddfau a rheoliadau eraill, ni wnaethom adnabod eraill lle allai canlyniadau achos o ddiffyg cydymffurfiaeth ei hun gael effaith berthnasol ar y symiau neu'r datganiadau yn y datganiadau ariannol.

*Cyd-destun gallu'r archwiliad i ganfod twyll neu achosion o dorri cyfraith neu reoliad*

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliadau, mae risg na ellir ei hosgoi efallai na fyddwn wedi canfod rhai cam-ddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio ein harchwiliad a'i gynnal yn briodol ac yn unol â'r safonau archwilio. Er enghraifft, po bellaf yw'r achos o anghydffurfio gyda deddfau a rheoliadau oddi wrth y digwyddiadau a'r trafodiadau sy'n cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol, po leiaf tebygol y byddai'r gweithdrefnau sydd wedi'u cyfyngu'n gynhenid sy'n ofynnol drwy safonau archwilio yn adnabod yr achos hwnnw o anghydffurfio.

Yn ogystal, yn yr un modd ag unrhyw archwiliad, mae risg uwch o fethu â chanfod achos o dwyll, gan y gall gynnwys cyd-gynllwynio, ffugiad, hepgoriad bwriadol, cam-gynrychiolaeth, neu wrthwneud rheolyddion mewnol. Mae ein gweithdrefnau archwilio wedi'u dylunio i ganfod cam-ddatgan perthnasol. Nid ydym yn gyfrifol am atal achosion o anghydymffurfio neu dwyll ac ni ellir disgwyl i ni ganfod achos o anghydffurfio gyda phob deddf a rheoliad.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am y wybodaeth arall, sy'n cynnwys Adroddiad y Corff Llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol. Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn cynnwys y wybodaeth arall ac, yn unol â hynny, nid ydym yn mynegi unrhyw farn o bersbectif archwiliad neu unrhyw sicrwydd a geir yn y casgliad, oni nodir yn wahanol.

Ein cyfrifoldeb yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a oes cam-ddatganiad neu anghysondeb perthnasol yn y wybodaeth honno mewn perthynas â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth o'n harchwiliad, yn seiliedig ar ein gwaith archwilio o'r datganiadau ariannol. Yn seiliedig ar y gwaith hwnnw:

- nid ydym wedi adnabod cam-ddatganiadau perthnasol yn y wybodaeth arall; ac
- yn ein barn ni, mae'r wybodaeth a roddir yn Adroddiad y Corff Llywodraethu a'r Datganiad Llywodraethu Corfforaethol a Rheolaeth Fewnol yn gyson â'r datganiadau ariannol.

**Cyfrifoldebau'r Corff Llywodraethu**

Fel yr eglurir yn fwy manwl yn eu datganiad ar dudalen 21, mae'r Corff Llywodraethu yn gyfrifol am: baratoi'r datganiadau ariannol ac am fodloni eu bod yn rhoi trosolwg gwir a theg; cyflawni'r rheolaeth fewnol y mae'n ystyried sy'n hanfodol i alluogi'r gwaith o baratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd rhag cam-ddatgan perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad; asesu gallu'r Grŵp a'r rhiant-sefydliad, sef y Coleg, i barhau fel cwmni sy'n parhau, gan ddatgelu, fel sy'n berthnasol, materion sy'n ymwneud â chwmni sy'n parhau; a defnyddio cyfrifon y cwmni sy'n parhau oni bai bod y Grŵp neu'r rhiant-sefydliad, sef y Coleg, yn bwriadu diddymu gweithrediadau, neu os nad oes dewis realistig arall heblaw am wneud hynny.

**ADRODDIAD YR ARCHWILWYR ANNIBYNNOL I GORFF LLYWODRAETHU COLEG CAERDYDD A'R FRO (parhad)**

**Cyfrifoldebau'r Archwilydd**

Ein hamcanion yw caffael sicrwydd rhesymol ynglŷn ag a yw'r datganiadau ariannol, fel cyfanwaith, yn rhydd rhag unrhyw gam-ddatganiadau perthnasol, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, ac i gyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol y DU bob amser yn canfod cam-ddatganiad perthnasol pan mae'n bodoli. Gall cam-ddatganiadau ddeillio o dwyll neu gamgymeriad, a chânt eu hystyried yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y gellid disgwyl yn rhesymol iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Rhoddir disgrifiad manylach o'n cyfrifoldebau ar wefan y FRC yn
www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities.

**ADRODD AR OFYNION CYFREITHIOL A RHEOLEIDDIADOL ERAILL**


Mae'n ofynnol i ni adrodd ar y materion canlynol dan God Ymarfer Archwilio Addysg Bellach 2015 (a ddaeth i rym 1 Awst 2014) a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Yn ein barn, ym mhob agwedd berthnasol:

- mae arian sydd wedi'i wario o grantiau Llywodraeth Cymru a chyllid arall o ba bynnag ffynhonnell wedi'u gweinyddu gan y Coleg at ddibenion penodol wedi'u defnyddio'n briodol at y dibenion hynny ac, os yn berthnasol, eu rheoli yn unol â phob deddfwriaeth berthnasol;
- mae'r incwm wedi'i ddefnyddio yn unol â'r Memorandwm Ariannol rhwng Llywodraeth Cymru a sefydliadau addysg bellach; ac
- mae'r datganiadau ariannol yn bodloni gofynion Cyfarwyddyd Cyfrifon Colegau Addysg Bellach yng Nghymru 2020/21 sydd wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

**DIBEN EIN GWAITH ARCHWILIO AC I BWY YDYM YN ATEBOL**

Cyflwynir yr adroddiad hwn yn unig i'r Corff Llywodraethu ac yn unol â pharagraff 18 Erthyglau Llywodraethu'r Coleg. Ymgymerwyd â'n gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan i'r Corff Llywodraethu y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilwyr a dim at unrhyw ddiben arall. Hyd eithaf y caniateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn cyfrifoldeb nac yn rhoi cyfrifoldeb i unrhyw un heblaw am y Coleg a'r Corff Llywodraethu am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, neu'r barnau yr ydym wedi'u ffurfio.



**Rees Batley**

**ar gyfer, ac ar ran, KPMG LLP, Archwilydd Statudol**

*Cyfrifwyr Siartredig* 3
Sgwâr y Cynulliad, Cei
Britannia
Caerdyd
d CF10
4AX

7 Rhagfyr 2021

## DATGANIAD CYFUNOL A DATGANIAD INCWM CYNHWYSFAWR Y COLEG

| | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Nodyn** | **Cyfunol £'000** | **Coleg £'000** | **Cyfunol £'000** | **Coleg £'000** |
| **Incwm** | | | | | |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru | 2 | 96,737 | 58,188 | 84,421 | 48,267 |
| Ffioedd dysgu a chontractau addysg | 3 | 4,922 | 3,445 | 5,862 | 4,063 |
| Incwm arall | 4 | 7,982 | 5,653 | 7,281 | 4,950 |
| Incwm o fuddsoddiadau | 5 | 9 | 9 | 7 | 7 |
| Incwm rhodd cymorth o is-gwmnïau | 6 | - | 3,704 | - | 6,443 |
| **Cyfanswm incwm** | | **109,650** | **70,999** | **97,571** | **63,730** |
| **Gwariant** | | | | | |
| Costau staff | 7 | 51,585 | 38,597 | 47,764 | 35,217 |
| Treuliau gweithredu eraill | 9 | 45,906 | 21,369 | 39,859 | 18,047 |
| Dibrisiant ac Amhariad | 12 | 9,012 | 8,540 | 3,458 | 3,200 |
| Cymhelliad ac amhariad | 11 | 4,114 | 168 | 2,631 | 165 |
| Costau llog a chyllid eraill | 10 | 2,179 | 2,167 | 2,253 | 2,248 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **112,796** | **70,841** | **95,965** | **58,877** |
| **(Diffyg)/gwarged cyn treth** | | **(3,146)** | **158** | **1,606** | **4,853** |
| Treth | 21 | - | - | 11 | - |
| **(Diffyg)/gwarged ar gyfer y flwyddyn** | | **(3,146)** | **158** | **1,617** | **4,853** |
| Ennill/(colled) actiwaraidd mewn perthynas â chynlluniau pensiwn | 20 | 6,590 | 6,590 | (19,020) | (19,020) |
| **Cyfanswm incwm/(treuliau) cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn** | | **3,444** | **6,748** | **(17,403)** | **(14,167)** |

Mae pob eitem incwm a gwariant yn ymwneud ag incwm anghyfyngedig. Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 71 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

| | Cronfa incwm a gwariant wrth gefn | | Cronfa ailbrisio | Cyfanswm wrth gefn |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfyngedig (nodyn 26) | Anghyfyngedig | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Grŵp** | | | | |
| **Ar 1 Awst 2020** | **1,525** | **(16,853)** | **9,630** | **(5,698)** |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | - | (3,146) | - | (3,146) |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | 6,590 | - | 6,590 |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | - | 3,444 | - | 3,444 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd incwm a gwariant ac adbrisiant wrth gefn | - | 2,476 | (2,476) | - |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **1,525** | **(10,933)** | **7,154** | **(2,254)** |
| **Coleg** | | | | |
| **Ar 1 Awst 2020** | **1,525** | **(12,117)** | **9,630** | **(962)** |
| Gwarged ar gyfer y flwyddyn | - | 158 | - | 158 |
| Incwm cynhwysfawr arall | - | 6,590 | - | 6,590 |
| Cyfanswm yr incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | - | 6,748 | - | 6,748 |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd incwm a gwariant ac adbrisiant wrth gefn | - | 2,476 | (2,476) | - |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **1,525** | **(2,893)** | **7,154** | **5,786** |

**COLEG CAERDYDD A'R FRO**

**DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2021 MANTOLENNI CYFUNOL A MANTOLENNI'R**

| | Nodyn | Ar 31 Gorffennaf 2021 Cyfunol | Coleg | Ar 31 Gorffennaf 2020 Cyfunol | Coleg |
|---|---|---|---|---|---|
| | | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau anniriaethol ac ewyllys da | 11 | 9,332 | 478 | 11,244 | 646 |
| Asedau diriaethol | 12 | 78,420 | 77,021 | 80,586 | 79,350 |
| Buddsoddiadau | 13 | - | 19,098 | - | 19,098 |
| | | **87,752** | **96,597** | **91,830** | **99,094** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Stoc | | 19 | - | 6 | - |
| Masnach a derbyniadwyon eraill | 14 | 7,498 | 3,515 | 8,228 | 3,580 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | | 19,342 | 18,200 | 9,318 | 8,584 |
| | | 26,859 | 21,715 | 17,552 | 12,164 |
| Credydwyr - symiau yn daladwy cyn pen blwyddyn | 15 | (22,965) | (19,022) | (17,211) | (14,413) |
| **Asedau/(Rhwymedigaethau) cyfredol net** | | **3,894** | **2,693** | **341** | **(2,249)** |
| **Cyfanswm asedau ar ôl tynnu rhwymedigaethau cyfredol** | | **91,646** | **99,290** | **92,171** | **96,845** |
| Credydwyr - symiau yn daladwy ar ôl mwy na blwyddyn | 16 | (53,814) | (53,480) | (55,338) | (55,338) |
| **Darpariaethau** | | | | | |
| Darpariaethau pensiwn | 20 | (39,390) | (39,390) | (41,920) | (41,920) |
| Darpariaethau eraill | 21 | (696) | (634) | (611) | (549) |
| **Cyfanswm yr asedau/(rhwymedigaethau) cyfredol** | | **(2,254)** | **5,786** | **(5,698)** | **(962)** |
| **Arian wrth gefn cyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – cyfyngedig | 25 | 1,525 | 1,525 | 1,525 | 1,525 |
| **Arian wrth gefn anghyfyngedig** | | | | | |
| Cronfa incwm a gwariant wrth gefn – anghyfyngedig | | (10,933) | (2,893) | (16,853) | (12,117) |
| Cronfa ailbrisio | | 7,154 | 7,154 | 9,630 | 9,630 |
| **Cyfanswm wrth gefn** | | **(2,254)** | **5,786** | **(5,698)** | **(962)** |

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan aelodau Corfforaeth Addysg Bellach Caerdydd a'r Fro ar 7 Rhagfyr 2021 ac fe'u llofnodwyd ar ei rhan gan:

Mr G D Evans
Cadeirydd y Corff Llywodraethu

Mr M James
Prif Weithredwr y Grŵp

Mr M C Roberts
Dirprwy Brif Swyddog Gweithredu'r Grŵp

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 71 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## DATGANIADAU ARIANNOL CYFUNOL AR GYFER Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 GORFFENNAF 2021 DATGANIAD CYFUNOL O LIFAU ARIAN

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 £'000 | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 £'000 |
|---|---|---|
| **Llif arian parod o weithgareddau gweithredol** | | |
| (Diffyg)/gwarged ar gyfer y flwyddyn | **(3,146)** | 1,617 |
| *Addasiadau ar gyfer:* | | |
| Dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad | 13,126 | 6,089 |
| Amorteiddiad grantiau cyfalaf | (1,266) | (873) |
| Grantiau gohiriedig gan y llywodraeth | 3,640 | - |
| Ailasesu ewyllys da (nodyn 11) | (1,605) | - |
| Costau pensiwn ar ôl tynnu cyfraniadau yn daladwy | 3,480 | 2,080 |
| Costau cyllid pensiwn | 580 | 430 |
| Incwm o fuddsoddiadau | (9) | (7) |
| Llog yn daladwy | 1,594 | 1,768 |
| Colledion gwaredu ased sefydlog | 98 | |
| Credyd treth gohiriedig | - | (11) |
| (Cynnydd)/gostyngiad mewn stoc | (13) | 47 |
| (cynnydd)/gostyngiad mewn dyledwyr | 730 | 1,836 |
| Cynnydd mewn credydwyr | 3,508 | 795 |
| Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau | 85 | (644) |
| **Llif arian net o weithgareddau gweithredol** | **20,802** | **13,127** |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Incwm o fuddsoddiadau | 9 | 7 |
| Taliadau a wnaed i gaffael asedau sefydlog | (6,789) | (2,223) |
| Caffael ymgymeriadau is-gwmnïau (nodyn 13) | (2,625) | (2,206) |
| Cyllid grant a gafwyd | 6,262 | 2,030 |
| | **(3,143)** | **(2,392)** |
| **Llif arian o weithgareddau ariannu** | | |
| Llog a dalwyd | (1,576) | (1,747) |
| Elfen llog ar daliadau rhent prydles gyllid | (18) | (21) |
| Ad-dalu symiau a fenthyciwyd | (5,758) | (2,230) |
| Elfen gyfalaf ar daliadau rhent prydles gyllid | (283) | (332) |
| | **(7,635)** | **(4,330)** |
| **Cynnydd mewn arian parod a chyfatebol i arian parod yn y flwyddyn** | **10,024** | **6,405** |
| Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddechrau'r flwyddyn | 9,318 | 2,913 |
| Arian parod a chyfatebol i arian parod ar ddiwedd y flwyddyn | 19,342 | 9,318 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 38 i 71 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

## 1 DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU

### Cyfnod y cyfrifon

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi ar gyfer y flwyddyn 1 Awst 2020 hyd at 31 Gorffennaf 2021.

### Sail paratoi

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi'u paratoi yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig, Datganiad o'r Arfer Argymelledig 2018 – Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch, Cyfarwyddyd Cyfrifon 2020/21 a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, a Safon Adrodd Ariannol 102 - "Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig a Gweriniaeth Iwerddon" (FRS 102). Mae'r Coleg yn endid budd y cyhoedd ac felly wedi cymhwyso'r darpariaethau ar gyfer endid budd y cyhoedd a geir yn FRS 102. Gweler isod crynodeb o'r polisïau cyfrifyddu pwysicach, sydd wedi'u cymhwyso'n gyson oni nodir fel arall.

### Sail cyfrifyddu

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol fel yr addaswyd wrth ailbrisio asedau sefydlog penodol.

### Cwmni sy'n parhau

Mae gweithgareddau'r Coleg, ynghyd â'r ffactorau sy'n debygol o effeithio ar ei ddatblygiad a'i berfformiad yn y dyfodol, wedi'u nodi yn Adroddiad y Corff Llywodraethu. Mae sefyllfa ariannol y Coleg, ei lif arian, ei allu i dalu dyledion a'i fenthyciadau wedi'u disgrifio yn y datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail cwmni sy'n parhau ac mae'r Coleg o'r farn bod hynny'n briodol am y rhesymau canlynol.

Mae'r Coleg wedi paratoi rhagolygon llif arian ar gyfer cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol hyn. Ar ôl adolygu'r rhagolygon hyn, barn y Coleg yw, gan ystyried gostyngiadau difrifol ond credadwy, a chan gynnwys effaith ragweledig COVID-19, bydd gan y Coleg ddigon o arian i fodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn daladwy yn ystod y cyfnod o 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol (cyfnod asesu'r cwmni sy'n parhau).

Mae'r rhagolwg llif arian ar gyfer cyfnod asesu'r cwmni sy'n parhau yn ystyried nifer o sefyllfaoedd o ostyngiadau credadwy, gan gynnwys effaith COVID-19 ar incwm (ac yn enwedig llifau incwm anllywodraethol ac o ffynonellau y tu hwnt i'r DU) a chostau gweithredu, chwyddiant cost cyflenwi, ac effaith bosibl cynnydd mewn costau byw staff yn cael ei gytuno sy'n fwy nag unrhyw gyllid cysylltiedig gan y llywodraeth. Mae'r rhagolygon hyn, sydd wedi bod yn destun prawf straen, yn nodi bod gan y Coleg ddigon o adnoddau i allu gweithredu am gyfnod o 12 mis o leiaf o'r dyddiad llofnodi.

Yn ogystal â'i gronfeydd arian wrth gefn, mae gallu'r Coleg i dalu dyledion yn ystod y cyfnod asesu cwmni sy'n parhau wedi'i gefnogi gan gyfleuster credyd cylchdroöl o £3.5 miliwn a chyfleuster gorddrafft o £0.5 miliwn.

Gan ystyried y ffactorau uchod, mae'r Coleg yn hyderus y bydd ganddo ddigon o arian i barhau i fodloni ei rwymedigaethau wrth iddynt ddod yn daladwy am o leiaf 12 mis o ddyddiad cymeradwyo'r datganiadau ariannol, ac felly mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi ar sail cwmni sy'n parhau.

## 1 DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad) Sail

**cyfuno**

Mae'r datganiadau ariannol cyfunol yn cynnwys y Coleg a'i is-gwmnïau ICAT Limited, CF10 Retail Limited, Associated Community Training Limited, Apprenticeship Learning Solutions Limited, ACT (Holdings) Limited, a South East Wales City Region ATA Limited. Mae canlyniadau unrhyw is-gwmnïau a gafodd eu caffael neu eu dileu yn ystod y flwyddyn yn cael eu cynnwys yn y cyfrif incwm a gwariant cyfunol o'r dyddiad caffael neu hyd at y dyddiad dileu. Caiff gwerthiannau ac elw rhyng-grŵp eu dileu'n llawn wrth gyfuno. Nid yw gweithgareddau'r undeb myfyrwyr wedi'u cyfuno oherwydd nad yw'r Coleg yn rheoli'r gweithgareddau hyn.

**Stociau**

Caiff stociau eu nodi ar y gost isaf a gwerth realeiddiadwy net. Pryd bynnag sy'n angenrheidiol, gwneir darpariaeth ar gyfer stoc ddarfodedig, stoc sy'n symud yn araf neu stoc ddiffygiol.

**Arian a chyfwerth ag arian**

Mae arian a chyfwerth ag arian yn cynnwys balansau arian yn y banc ac wrth law, a buddsoddiadau tymor byr, hynod rydd sydd ag aeddfedrwydd o dri mis neu lai o'r dyddiad caffael.

**Cydnabyddiaeth o incwm**

Mae incwm o grantiau dysgu seiliedig ar waith, grantiau heb fod yn gyfalaf gan y Llywodraeth, contractau, ffioedd dysgu a gwasanaethau eraill wedi'u cynnwys hyd eithaf cwblhad y contract neu'r gwasanaeth dan sylw. Ar gyfer rhai contractau academaidd penodol, cydnabyddir incwm yn unig i'r graddau mae'r dysgwyr wedi cwblhau'r broses asesu briodol ar gyfer y cymhwyster maent yn ymgymryd ag ef, yn unol â chanllawiau ariannu allanol y mae'r contractau hyn yn gysylltiedig â nhw. Caiff pob incwm o flaendaliadau tymor byr ei gredydu i'r cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod yr enillir ef. Mae'r dyraniad cylchol blynyddol gan Lywodraeth Cymru sydd â'r bwriad o fodloni costau cylchol wedi'i gredydu'n uniongyrchol i'r cyfrif incwm a gwariant, a chaiff grantiau Cronfa Gymdeithasol Ewrop eu neilltuo pan mae lefel resymol o sicrwydd y byddant yn dod i law.

Caiff grantiau cyfalaf y Llywodraeth eu cadw fel incwm wedi'i ohirio a'u cydnabod fel incwm dros fywyd economaidd disgwyliedig yr ased, a brynwyd yn unol â'r "dull cronni" fel y caniateir gan FRS 102. Yn unol â gofynion Datganiad o'r Arfer Argymelledig 2018 ar gyfer AU ac AB, caiff unrhyw grant a ddefnyddir ar gyfer prynu tir neu a geir o ffynhonnell ar wahân i'r Llywodraeth ei gydnabod mewn incwm pan mae'r Coleg yn gymwys am yr arian ac mae unrhyw amodau yn ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni.

**Buddion ôl-gyflogaeth**

<u>Buddion wedi'u diffinio</u>

Mae cyflogeion y Coleg yn perthyn i ddau brif gynllun pensiwn, y Cynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, cynllun dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (staff gweinyddol a chymorth) a Chynllun Pensiwn Athrawon (staff academaidd). Mae'r ddau gynllun hyn yn gynlluniau buddion wedi'u diffinio.

Caiff cyfrifiadau i'r Cynllun Pensiwn Athrawon eu cysylltu ag incwm a gwariant er mwyn lledaenu cost pensiynau dros oes gweithio cyflogeion gyda'r Coleg mewn ffordd y mae'r gost pensiwn yn ganran lefel sylweddol o'r gyflogres bensiynadwy gyfredol ac yn y dyfodol. Caiff y cyfraniadau eu pennu gan actiwarïaid cymwys ar sail prisiadau pum mlynedd gan ddefnyddio dull budd arfaethedig.

## 1 DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad)

### Buddion Ôl-gyflogaeth (parhad)

Mae’r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun aml-gyflogwr ac nid yw'r Coleg yn gallu adnabod ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau
sylfaenol y cynllun yn gyson a rhesymol. Felly, caiff y Cynllun Pensiwn Athrawon ei drin fel cynllun cyfraniad diffiniedig a chaiff y cyfraniadau eu cydnabod wrth iddynt gael eu talu bob blwyddyn.

Mesurir asedau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan ddefnyddio gwerthoedd teg terfynol. Mesurir rhwymedigaethau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau a'u disgowntio ar y gyfradd adenillion gyfredol ar fond corfforaethol ansawdd uchel sydd â thymor ac arian cyfred cyfwerth â'r rhwymedigaethau. Caiff prisiadau'r actiwari eu caffael o leiaf bob tair blynedd a'u diweddaru ym mhob mantolen. Y symiau a nodir fel gwarged gweithredu yw costau cyfredol y gwasanaeth a chostau cyflwyno i'r cynllun, newidiadau mewn buddion, taliadau a chwtogiadau. Cânt eu cynnwys fel rhan o gostau staff fel costau a achoswyd. Caiff llog net ar y rhwymedigaeth/ased buddion diffiniedig net hefyd ei gydnabod yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr ac mae'n cwmpasu cost y llog ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig ac incwm llog ar asedau'r cynllun, wedi'u cyfrifo drwy luosi gwerth teg asedau'r cynllun ar ddechrau'r flwyddyn ariannol â'r gyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r budd. Mae'r gwahaniaeth rhwng yr incwm llog ar asedau'r cynllun a'r adenillion gwirioneddol ar asedau'r cynllun yn cael ei gydnabod yn enillion a cholledion eraill. Mae enillion a cholledion actiwaraidd yn cael eu cydnabod yn syth yn incwm cydnabyddedig arall.

<u>Cynlluniau cyfraniadau wedi'u diffinio</u>

Mae'r Grŵp yn gweithredu'r tri chynllun cyfraniad diffiniedig ar gyfer cyflogeion is-gwmnïau. Codir tâl cyfraniadau sy'n daladwy i gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig y Grŵp i'r elw neu golled yn y cyfnod maent yn berthnasol iddo.

### Buddion cyflogaeth tymor byr

Mae buddion cyflogaeth tymor byr, megis cyflogau ac absenoldebau digolledol (tâl gwyliau) yn cael eu cydnabod fel traul yn y flwyddyn y mae'r cyflogeion yn darparu gwasanaeth i'r Coleg. Caiff unrhyw fuddion heb eu defnyddio eu cronni a'u mesur fel y swm ychwanegol y disgwylia'r Coleg ei dalu o ganlyniad i'r hawl heb ei defnyddio.

### Pensiynau uwch

Caiff y gost wirioneddol o unrhyw bensiwn uwch cyfredol i gyn-aelod o staff ei dalu gan y Coleg bob blwyddyn. Caiff amcan o gost ddisgwyliedig y dyfodol o unrhyw godiad i bensiwn cyfredol cyn-aelod o staff ei godi'n llawn i gyfrif incwm a gwariant y Coleg yn y flwyddyn y mae'r aelod o staff yn ymddeol. Yn y blynyddoedd dilynol, codir tâl i'r darpariaethau yn y fantolen gan ddefnyddio'r fethodoleg gan Lywodraeth Cymru.

### Asedau anghyfredol - asedau sefydledig diriaethol

<u>Tir rhydd-ddaliad</u>

Fel y caniateir dan reolau mabwysiadu tro cyntaf FRS 102, cafodd rhai asedau tir rhydd-ddaliad y Coleg eu hail-brisio ar 1 Awst 2014 a chânt eu nodi yn y fantolen fel cost dybiedig yn dilyn yr ailbrisio hwnnw. Mae pob ased tir rhydd-ddaliad eraill wedi'u cynnwys yn y fantolen ar bris cost. Ni chaiff tir rhydd-ddaliadol ei ddibrisio.

**1 DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad) Asedau anghyfredol - asedau sefydledig diriaethol (parhad)**

Adeiladau

Mae adeiladau'r Coleg yn rhai arbenigol ac felly nid yw'n briodol eu prisio ar sail eu gwerth yn y farchnad agored. Caiff adeiladau sydd wedi'u hetifeddu gan yr Awdurdod Addysg Lleol eu nodi yn y fantolen ar sail cost amnewid ddibrisiedig ar ddyddiad trosglwyddo i'r colegau wrth eu corffori ar 1 Ebrill 1993.

Mae adeiladau sydd wedi'u caffael ers corffori'r colegau wedi'u cynnwys ar gost yn y fantolen, ar ôl tynnu dibrisiad cronedig.

Mae pob adeilad mae'r Coleg yn berchen arnynt ar hyn o bryd yn cael eu cadw gyda'r diben sylfaenol o gefnogi addysg yn unol â statws elusennol y Coleg, a'i strategaeth ystad. Yn unol â hynny, ystyrir bod yr adeiladau yn cael eu cadw er budd cymdeithasol a chânt eu cyfrif fel eitem o eiddo, offer a chyfarpar fel sy'n ofynnol gan y Datganiad o Arfer Argymelledig. O bryd i'w gilydd, gall y Coleg osod gofod nad yw'n cael ei defnyddio yn ei ystad i denantiaid trydydd parti. Mae pob cytundeb o'r fath sydd ar waith ar hyn o bryd ac sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y dyfodol rhagweladwy yn drefniadau tymor byr, ac fel y cyfryw, maent yn gyson â diben sylfaenol hirdymor yr adeiladau sef cefnogi addysg.

Caiff adeiladau rhydd-ddaliadol eu dibrisio ar sail llinell syth i'w gwerthoedd gweddilliol rhagweledig dros oes economaidd ddefnyddiol ddisgwyliedig prif rannau'r adeilad:

- Adeiladau hŷn lle nad yw'r prif rannau wedi'u hadnabod ar wahân: 40-60 mlynedd;
- Adeiladau mwy newydd:

| | Blynydd oedd |
|---|---|
| Cragen yr adeilad | 80 – 110 |
| Gorffeniadau'r adeilad | 15 – 36 |
| Amlennu'r adeilad | 36 – 86 |
| Systemau gwasanaethau adeiladu | 25 – 47 |
| Cyfarpar gosodedig | 5 – 20 |

Caiff addasiadau i adeiladau eu dibrisio dros gyfnodau o rhwng 5 a 25 mlynedd yn dibynnu ar natur y gwaith.

Ni chaiff asedau yn ystod gwaith adeiladu ar ddyddiad y fantolen eu dibrisio a byddant yn parhau i fod heb eu dibrisio nes bydd yr ased yn cael ei ddefnyddio. Caiff costau benthyca i ariannu gwaith adeiladu adeiladau eu cyfalafu yn ystod cam adeiladu'r ased.

Cyfarpar

O 1 Awst 2020, cynyddodd werth yr eitemau cyfarpar unigol sy'n cael eu rhoi yn erbyn y cyfrif incwm a gwariant o £1,000 i £5,000. Yn ogystal, caiff grwpiau o eitemau sy'n costio llai na £5,000 yn unigol, ond gyda'i gilydd yn costio mwy na'r cyfyngiad hwnnw ac sy'n cael eu hystyried, fel grŵp, i gynrychioli ased sy'n cael ei ddefnyddio dros sawl blwyddyn, eu cyfalafu. Caiff pob offer arall ei gyfalafu ar gost, gan dynnu unrhyw ddarpariaeth ar gyfer diffygion. Mae asedau a grwpiau o asedau sydd wedi'u cyfalafu yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes economaidd ddefnyddiol, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Cyfarpar addysgu | 10%, 20% neu 25% y |
| flwyddyn Cerbydau modur a chyfarpar cyffredin | 25% y flwyddyn |
| Cyfarpar TG | 25% y flwyddyn |
| Gosodiadau a ffitiadau | 10% y flwyddyn |

**1 DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad)**

**Asedau anghyfredol - asedau sefydledig diriaethol**

**(parhad)** Cyfarpar (parhad)

Cynhelir adolygiad ar gyfer diffyg ar ased sefydledig os yw digwyddiadau neu newid mewn amgylchiadau yn dangos efallai na fydd cario swm unrhyw ased sefydledig yn adferadwy.

**Grantiau cyfalaf a geir gan y Llywodraeth**

Pan gaiff tir neu adeiladau eu caffael gyda chymorth grantiau penodol gan asiantaethau Llywodraethol, cânt eu cyfalafu a'u dibrisio yn unol â'r polisi uchod. Mae'r grantiau cysylltiedig yn cael eu cadw o fewn credydwyr a'u rhyddhau o incwm cynhwysfawr dros oes economaidd ddefnyddiol yr ased cysylltiedig ar y sail ei fod yn gyson â'r polisi dibrisio. Pan ddarperir grantiau o'r fath i hwyluso gyda phrynu tir, cânt eu cynnwys yn y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr, yn llawn, yn syth ar ôl bodloni unrhyw amodau perfformiad.

**Cynnal a chadw safle**

Caiff cost cynnal a chadw adferol ei roi yn erbyn y cyfrif incwm a gwariant yn ystod y cyfnod y caiff ei achosi, oni bai ei fod yn cynyddu buddion y Coleg yn y dyfodol, ac os hynny, caiff ei gyfalafu a'i ddibrisio fel sy'n berthnasol.

**Asedau ar brydles**

Caiff costau mewn perthynas â gweithredu prydlesi eu codi ar sail llinell syth dros dymor y brydles. Caiff trefniadau prydlesu sy'n trosglwyddo i'r Grŵp yn sylweddol yr holl fuddion a risgiau perchnogaeth ased eu trin fel petai'r ased wedi'i brynu'n gyfan gwbl. Caiff gwerth teg yr asedau ei gynnwys yn yr asedau sefydledig a chaiff elfennau cyfalaf yr ymrwymiadau prydlesu eu dangos fel rhwymedigaethau dan brydlesi cyllid. Ymdrinnir â rhent prydles fel ei fod yn cynnwys elfennau cyfalaf a llog. Defnyddir yr elfen gyfalaf i leihau rhwymedigaethau sy'n weddill a chaiff yr elfen llog ei rhoi yn erbyn y cyfrif incwm a gwariant yn gymesur â lleihau'r elfen gyfalaf sy'n weddill. Caiff asedau a gedwir dan brydlesi cyllid eu dibrisio dros dymor byrrach y brydles neu oes economaidd ddefnyddiol asedau cyfwerth a berchnogir. Ymdrinnir ag asedau sy'n cael eu cadw dan gontractau hurbwrcasu, sydd â nodweddion prydlesi cyllid, yn yr un modd a chânt eu dibrisio dros eu hoes ddefnyddiol.

**Asedau anniriaethol**

Nodir asedau anniriaethol fel cost ar ôl tynnu'r amorteiddiad cronedig a cholledion diffygiol cronedig. Cyfrifir amorteiddiad, gan ddefnyddio'r dull llinell syth, i ddyrannu swm dibrisiadwy'r asedau i'w gwerthoedd gweddilliol dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig fel a ganlyn:

| | Blynyddoedd |
|---|---|
| Perthnasoedd â chwsmeriaid cytundebol | 10 |
| Brand ACT | 10 |
| Ewyllys da | 10 |
| Datblygiad systemau | 5 |

Pan mae ffactorau'r farchnad yn dynodi bod gwerth gweddilliol neu oes ddefnyddiol wedi newid, caiff y gwerth gweddilliol, oes ddefnyddiol neu gyfradd amorteiddio eu diwygio i adlewyrchu'r amgylchiadau newydd. Caiff yr asedau eu hadolygu ar gyfer diffygion os yw'r asedau uchod yn dynodi y gall y swm cario ymlaen fod yn ddiffygiol.

## 1 DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad)

### Asedau ariannol

*Masnach a dyledwyr/credydwyr eraill*

I ddechrau caiff masnach a dyledwyr eraill eu cydnabod ar y pris trafod ar ôl tynnu costau trafod wedi'u priodoli. I ddechrau caiff masnach a chredydwyr eraill eu cydnabod ar y pris trafod ar ôl tynnu costau trafod wedi'u priodoli. Yn dilyn y gydnabyddiaeth gychwynnol, cânt eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio dull llog effeithiol, ar ôl tynnu unrhyw golledion diffygiol yn achos dyledwyr masnach.

*Benthyciadau sy'n dwyn llog wedi'u dosbarthu fel offer ariannol sylfaenol*

I ddechrau caiff benthyciadau sy'n dwyn llog eu cydnabod ar werth presennol taliadau'r dyfodol wedi'u disgowntio ar gyfradd llog y farchnad. Yn dilyn y gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff benthyciadau sy'n dwyn llog eu nodi ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

*Buddsoddiadau mewn is-gwmnïau*

Cyfrifir buddsoddiadau mewn is-gwmnïau ar gost ar ôl tynnu'r diffyg.

### Costau benthyca

Caiff costau benthyca eu cydnabod fel gwariant yn y cyfnod y cânt eu hachosi. Caiff costau benthyca sydd wedi'u hachosi yn ystod caffael, adeiladu neu gynhyrchu ased sy'n gymwys, ac sydd wedi'u priodoli'n uniongyrchol iddo, eu cyfalafu.

### Cronfa wrth gefn

Dosberthir cronfeydd wrth gefn yn gyfyngedig neu'n anghyfyngedig. Mae cronfeydd cyfyngedig yn cynnwys balansau lle mae'r rhoddwr wedi dynodi diben penodol, ac felly mae'r Coleg wedi'i gyfyngu o ran defnydd yr arian hwnnw.

### Beirniadaethau o ran cymhwyso polisïau cyfrifyddu a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae rheolwyr wedi gwneud y beirniadaethau canlynol:

- Pennu a oes unrhyw ddangosyddion o ddiffyg yn asedau diriaethol y grŵp. Mae'r ffactorau a ystyriwyd wrth gyrraedd penderfyniad o'r fath yn cynnwys dichonoldeb economaidd a pherfformiad ariannol disgwyliedig yr ased yn y dyfodol a, phan mae'n gydran uned cynhyrchu arian mwy, dichonoldeb a pherfformiad disgwyliedig yr uned honno yn y dyfodol.

## 1 DATGANIAD O BOLISÏAU CYFRIFYDDU (parhad)

**Beirniadaethau o ran cymhwyso polisïau cyfrifyddu a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif (parhad)**

Mae ffynonellau allweddol eraill o ansicrwydd amcangyfrif fel a ganlyn:

*Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol*

Mae gwerth cyfredol rhwymedigaeth budd diffiniedig y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn dibynnu ar nifer o ffactorau sy'n cael eu pennu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio amrywiaeth o ragdybiaethau. Mae'r rhagdybiaethau a ddefnyddir i bennu'r gost net/(incwm) ar gyfer pensiynau yn cynnwys y gyfradd ddisgowntio. Bydd unrhyw newid yn y rhagdybiaethau hyn, sy'n cael eu datgelu yn nodyn 20, yn effeithio ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth pensiwn. Yn ogystal, mae dull treigl sy'n rhagamcanu canlyniadau o'r prisiad actiwaraidd llawn diweddaraf a wnaed ar 31 Mawrth 2019 wedi'i ddefnyddio gan yr actwari i brisio'r rhwymedigaethau pensiwn ar 31 Gorffennaf 2021. Byddai unrhyw wahaniaethau rhwng y ffigyrau sy'n deillio o'r dull treigl a phrisiad actiwaraidd llawn yn effeithio ar swm cario ymlaen y rhwymedigaeth bensiwn.

*Gwerth teg Campws Cymunedol y Dwyrain*

Mae Campws Cymunedol y Dwyrain wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol ar werth teg, sydd wedi'i gyfrifo ar sail amcan gost adeiladu'r adeilad a gafodd ei ddatgan ar ddechrau'r prosiect, wedi'i luosi gan feddiannaeth y Coleg o'r campws yn ôl canran.

**Treth**
Credir y bydd y Coleg yn llwyddo yn y profion a nodir ym Mharagraff 1 Atodlen 6 Deddf Cyllid 2010 ac felly mae'n bodloni diffiniad cwmni elusennol at ddibenion treth gorfforaeth y DU. Yn unol â hynny, mae'n bosibl bod y Coleg wedi'i eithrio rhag gorfod talu treth mewn perthynas ag incwm neu enillion cyfalaf a geir o fewn categorïau yr ymdrinnir â nhw ym Mhennod 3 Rhan 11 Deddf y Dreth Gorfforaeth 2010 neu Adran 256 Deddf Trethiant Enillion Trethadwy 1992, i'r graddau y caiff incwm neu enillion o'r fath eu cymhwyso'n arbennig at ddibenion elusennol.

Gwneir darpariaeth lawn ar gyfer trethiant gohiriedig yn deillio o wahaniaethau amseru rhwng cydnabod yr enillion a'r colledion yn y datganiadau ariannol a'u cydnabyddiaeth at ddibenion treth. Cyfrifir trethiant gohiriedig ar sylfaen heb ei ddisgowntio ar y cyfraddau treth y disgwylir iddynt fodoli yn y cyfnodau pan fydd y gwahaniaethau o ran amser yn lleihau.
Mae'r Coleg wedi'i eithrio'n rhannol mewn perthynas â Threth ar Werth, felly gall adennill rhan fechan o'r TAW a godwyd ar ei fewnbynnau. Mae TAW ar fewnbynnau na ellir ei hadennill wedi'i chynnwys yng nghostau mewnbynnau o'r fath a'u hychwanegu at y gost o asedau gosodedig diriaethol fel sy'n briodol, lle mae'r mewnbynnau eu hunain yn asedau sefydledig diriaethol yn eu natur. Mae'n ofynnol i is-gwmnïau'r Coleg dalu treth gorfforaeth a TAW yn yr un modd ag unrhyw sefydliad masnachol.

**Darpariaethau**
Cydnabyddir darpariaethau pan mae gan y Coleg rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol yn y presennol o ganlyniad i ddigwyddiad blaenorol, mae'n debyg y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd i setlo'r rhwymedigaeth a gellir amcangyfrif yn ddibynadwy swm y rhwymedigaeth.

**Costau asiantaeth**
Mae'r Coleg yn gweithredu fel asiant wrth gasglu ac ad-dalu cronfeydd ariannol wrth gefn, y Rhaglen Recriwtiaid Newydd a'r Rhaglen Cymell Cyflogwyr i Gynnal Prentisiaethau. Mae taliadau cysylltiedig a geir gan Lywodraeth Cymru a threuliau dilynol i fyfyrwyr yn cael eu heithrio o'r cyfrif incwm a gwariant a chânt eu dangos ar wahân yn nodyn 24.

## 2 GRANTIAU GAN LYWODRAETH CYMRU

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfunol | Coleg | Cyfunol | Coleg |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Grant rheolaidd | 36,188 | 36,188 | 33,091 | 33,091 |
| Grant dysgu seiliedig ar waith | 44,358 | 7,197 | 42,033 | 7,731 |
| Grantiau eraill gan Lywodraeth Cymru | 14,925 | 13,537 | 8,424 | 6,572 |
| Amorteiddiad grant cyfalaf | 1,266 | 1,266 | 873 | 873 |
| | **96,737** | **58,188** | **84,421** | **48,267** |

## 3 FFIOEDD DYSGU A CHONTRACTAU ADDYSG

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfunol | Coleg | Cyfunol | Coleg |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| <u>Ffioedd a thaliadau dysgu</u> | | | | |
| Y DU ac UE – Addysg Bellach | 303 | 303 | 419 | 419 |
| Y DU ac UE – Addysg Uwch | 1,885 | 1,885 | 2,035 | 2,035 |
| Heb fod yn UE – Addysg Bellach | 127 | 127 | 426 | 426 |
| | **2,315** | **2,315** | **2,880** | **2,880** |
| <u>Contractau addysg</u> | | | | |
| Llwybrau dysgu 14-19 | 1,648 | 171 | 1,946 | 147 |
| Contractau addysg eraill – y DU a'r UE | 959 | 959 | 1,036 | 1,036 |
| | **2,607** | **1,130** | **2,982** | **1,183** |
| | **4,922** | **3,445** | **5,862** | **4,063** |

## 4 INCWM ARALL

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Coleg** | **Cyfunol** | **Coleg** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyfleoedd preswyl, arlwyo a chynadleddau | 553 | - | 433 | - |
| Gweithgareddau cynhyrchu incwm eraill | 3,124 | 2,568 | 3,290 | 2,101 |
| Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws | 1,171 | 405 | 717 | 322 |
| Incwm grant arall | 2,054 | 1,832 | 1,423 | 1,423 |
| Incwm arall | 1,080 | 848 | 1,418 | 1,104 |
| | **7,982** | **5,653** | **7,281** | **4,950** |

Yn unol ag amodau Llywodraeth Cymru, ni hawliwyd cyllid drwy'r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws ar gyfer unrhyw gyflogai y mae ei swydd wedi'i hariannu'n sylweddol gan Lywodraeth Cymru ac a oedd yn parhau i gael ei hariannu yn ystod y cyfnod dan sylw.

## 5 INCWM BUDDSODDIAD

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Coleg** | **Cyfunol** | **Coleg** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Llog a gafwyd | **9** | **9** | **7** | **7** |

## 6 INCWM RHODD CYMORTH O IS-GWMNÏAU

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Coleg** | **Cyfunol** | **Coleg** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| O Associated Community Training Limited | - | 2,492 | - | 5,232 |
| O Apprenticeship Learning Solutions Limited | - | 1,212 | - | 1,211 |
| | **-** | **3,704** | **-** | **6,443** |

## 7 COSTAU STAFF

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Coleg** | **Cyfunol** | **Coleg** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adrannau addysgu a dysgu | 31,269 | 26,702 | 29,176 | 24,493 |
| Gwasanaethau cefnogi addysgu a dysgu | 3,112 | 2,563 | 2,798 | 2,195 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 1,234 | 1,085 | 1,098 | 926 |
| Gwasanaethau gweinyddol a chanolog | 10,372 | 5,052 | 9,213 | 4,533 |
| Safleoedd | 1,174 | 1,059 | 1,122 | 933 |
| Gweithgareddau cynhyrchu incwm eraill | 4,286 | 1,998 | 4,249 | 2,029 |
| Cost pensiwn uwch (nodyn 21) | 7 | 7 | 37 | 37 |
| Costau diswyddo gwirfoddol | 131 | 131 | 71 | 71 |
| | **51,585** | **38,597** | **47,764** | **35,217** |

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Coleg** | **Cyfunol** | **Coleg** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Cyflogau a thaliadau | 38,886 | 27,345 | 37,152 | 25,969 |
| Cost nawdd cymdeithasol | 3,456 | 2,504 | 3,248 | 2,310 |
| Costau pensiwn (nodyn 20) | 9,112 | 8,617 | 7,293 | 6,867 |
| Costau diswyddo gwirfoddol | 131 | 131 | 71 | 71 |
| | **51,585** | **38,597** | **47,764** | **35,217** |

Y nifer cyfartalog o unigolion (gan gynnwys staff rheoli allweddol) a gyflogwyd gan y Coleg yn ystod y flwyddyn oedd:

| | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Coleg** | **Cyfunol** | **Coleg** |
| | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** | **Nifer** |
| **Cyfwerth â llawn amser** | | | | |
| Adrannau addysgu a dysgu | 675 | 518 | 672 | 511 |
| Gwasanaethau cefnogi addysgu a dysgu | 69 | 48 | 65 | 42 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 70 | 65 | 64 | 57 |
| Gwasanaethau gweinyddol a chanolog | 196 | 62 | 194 | 61 |
| Safleoedd | 27 | 23 | 34 | 24 |
| Gweithgareddau cynhyrchu incwm eraill | 133 | 42 | 134 | 45 |
| | **1,170** | **758** | **1,163** | **740** |

## 7 COSTAU STAFF (parhad)

| | 2021 | | 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfunol | Coleg | Cyfunol | Coleg |
| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
| **Cyfanswm** | | | | |
| Adrannau addysgu a dysgu | 903 | 725 | 925 | 743 |
| Gwasanaethau cefnogi addysgu a dysgu | 84 | 60 | 85 | 59 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 89 | 82 | 86 | 77 |
| Gwasanaethau gweinyddol a chanolog | 214 | 69 | 208 | 65 |
| Safleoedd | 28 | 24 | 36 | 26 |
| Gweithgareddau cynhyrchu incwm eraill | 161 | 51 | 157 | 53 |
| | **1,479** | **1,011** | **1,497** | **1,023** |

## 8 STAFF RHEOLI ALLWEDDOL A STAFF CYFLOG UWCH

Staff Rheoli Allweddol yw'r unigolion hynny sydd ag awdurdod a chyfrifoldeb am gynllunio, cyfarwyddo a rheoli gweithgareddau'r Coleg – yn ystod y flwyddyn, roedd hyn yn cynnwys Tîm Gweithredol y Coleg (gan gynnwys Prif Weithredwr y Grŵp sydd hefyd yn gweithredu fel Swyddog Atebol) a Rheolwr Gyfarwyddwr ACT. Mae Pennaeth Llywodraethu Corfforaethol y Grŵp a Chlerc y Gorfforaeth, fel Deiliad Swydd Uwch, hefyd wedi'u cynnwys yn y categori hwn.

Dengys isod y nifer o gyflogeion, gan gynnwys y Swyddog Atebol a gafodd dâl yn yr ystodau canlynol.

| | Staff rheoli allweddol | | Staff arall | |
|---|---|---|---|---|
| | 2021 | 2020 | 2021 | 2020 |
| | Nifer | Nifer | Nifer | Nifer |
| £60,001 i £65,000 | - | - | 3.0 | 0.8 |
| £65,001 i £70,000 | - | 1.0 | 5.0 | 3.0 |
| £70,001 i £75,000 | 1.0 | 0.2 | - | - |
| £75,001 i £80,000 | 1.0 | 1.0 | - | 2.0 |
| £80,001 i £85,000 | 1.0 | - | 1.0 | 1.0 |
| £85,001 i £90,000 | - | - | - | 1.0 |
| £90,001 i £95,000 | - | - | 2.0 | 2.0 |
| £95,001 i £100,000 | - | 2.5 | - | - |
| £100,001 i £105,000 | - | - | 1.0 | - |
| £105,001 i £110,000 | 3.0 | - | - | - |
| £120,001 i £125,000 | - | 1.0 | - | - |
| £135,001 i £140,000 | - | 2.0 | - | - |
| £145,001 i £150,000 | 2.0 | - | - | - |
| £260,001 i £265,000 | - | 1.0 | - | - |
| £270,001 i £275,000 | 1.0 | - | - | - |
| | **9.0** | **8.7** | **12.0** | **9.8** |

Nid oedd staff rheoli allweddol eraill yn y bandiau cydnabyddiaeth oni bai am y rheiny a ddengys uchod.

## 8 STAFF RHEOLI ALLWEDDOL A STAFF CYFLOG UWCH (parhad)

Mae taliadau yn cynnwys cydnabyddiaeth a buddion mewn nwyddau ond yn eithrio iawndal am golli swydd a chyfraniadau pensiwn gan gyflogwr. Mae cyflogeion a gafodd eu penodi yn eu swydd neu a ddiswyddodd o'u swydd ar ganol y flwyddyn wedi'u cynnwys yn y band priodol yn seiliedig ar y gydnabyddiaeth a fyddai wedi'i rhoi petaent wedi bod yn y swydd am flwyddyn gron. Nid oedd staff rheoli allweddol yn derbyn llai na
£60,001 ac felly mae'r bandiau hynny wedi'u heithrio.

Gwneir taliadau i Staff Rheoli Allweddol fel a ganlyn:

| | 2021 £'000 | 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflogau | 1,073 | 1,065 |
| Taliadau yn lle cyfraniadau pensiwn | 47 | 45 |
| Buddion mewn nwyddau | 1 | 12 |
| | 1,121 | 1,122 |
| Costau pensiwn | 159 | 143 |
| | **1,280** | **1,265** |

Mae'r costau pensiwn mewn perthynas â Staff Rheoli Allweddol yn ymwneud â chyfraniadau'r cyflogwr i gynlluniau pensiwn Athrawon, Llywodraeth Leol neu eraill.

Nid oedd symiau yn daladwy i Staff Rheoli Allweddol a gafodd eu hepgor yn y flwyddyn, ac nid oedd unrhyw drefniadau aberthu cyflog ar waith ychwaith.

Mae cyfanswm cydnabyddiaeth Staff Rheoli Allweddol y Coleg yn gymesur â maint, a strwythur grŵp y Coleg, ac ehangder a natur ei weithgareddau. Caiff perfformiad Staff Rheoli Allweddol ei asesu yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol ar y cyd â'r adran AD berthnasol a chan ddefnyddio'r gweithdrefnau rheoli perfformiad safonol. Caiff cydnabyddiaeth ei feincnodi yn rheolaidd, gan ddefnyddio gwasanaethau meincnodi annibynnol pryd bynnag mae hynny'n briodol, yn erbyn sefydliadau addysg eraill yng Nghymru ac yn y DU. Fel yr amlinellir ar dudalen 16, caiff cydnabyddiaeth am swyddi'r pedwar deiliad swyddi uwch y Coleg ei hystyried gan y Pwyllgor Cydnabyddiaeth, sy'n cynnwys aelod anllywodraethol, allanol, annibynnol.

Mae taliadau'r Staff Rheoli Allweddol yn cynnwys y symiau canlynol sy'n daladwy i Brif Weithredwr y Grŵp, sydd hefyd yn gweithredu fel y Swyddog Atebol a'r aelod o staff sy'n cael y cyflog uchaf:

| | 2021 £'000 | 2020 £'000 |
|---|---|---|
| Cyflog | 226 | 219 |
| Taliadau yn lle cyfraniadau pensiwn | 47 | 45 |
| | 273 | 264 |
| Costau pensiwn | - | - |
| | **273** | **264** |

## 8 STAFF RHEOLI ALLWEDDOL A STAFF CYFLOG UWCH (parhad)

Roedd perthynas cydnabyddiaeth Prif Weithredwr y Grŵp a fynegwyd fel lluosrif o gydnabyddiaeth canolrif pob cyflogai arall yn y gorfforaeth (cyfwerth â llawn amser) fel a ganlyn:

| | **2021** | **2020** |
|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol Prif Weithredwr y Grŵp fel lluosrif o ganolrif pob staff | 7.1 | 7.2 |
| Cyfanswm cydnabyddiaeth Prif Weithredwr y Grŵp fel lluosrif o ganolrif pob staff | 7.0 | 7.3 |

Mae Prif Weithredwr y Grŵp yn ddeiliad swydd uwch ac fel y cyfryw, caiff ei gydnabyddiaeth ei sefydlu gan y Corff Llywodraethu, gan gymryd i ystyriaeth argymhellion y Pwyllgor Cydnabyddiaeth. Nid yw Prif Weithredwr y Grŵp ynghlwm â phennu ei gydnabyddiaeth.

Cytunodd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth ei argymhellion mewn perthynas â chydnabyddiaeth gyfredol Prif Weithredwr y Grŵp yn ei gyfarfod ar 18 Chwefror 2021, ac fe gafodd hyn ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Corff Llywodraethu ar 2 Mawrth 2021. Roedd argymhellion y Pwyllgor yn ystyried perfformiad Prif Weithredwr y Grŵp o ran bodloni amcanion strategol y Coleg a chyflawni ei flaenoriaethau o ran ansawdd, effeithiolrwydd a thwf. Cafodd ystod o ddangosyddion perfformiad eu hystyried, gan gynnwys perfformiad academaidd ac ariannol a mesurau allanol, gan gynnwys canlyniad arolygon diweddar gan Estyn, arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru. Yn ogystal, ystyriodd y Pwyllgor wybodaeth feincnodi annibynnol ar gyfer Cymru a rhywle arall yn y DU, er mwyn cynnwys sefydliadau addysg cymharol sy'n debyg i'r Coleg o ran maint a gweithgarwch.

**Treuliau sy'n cael eu had-dalu i aelodau'r Gorfforaeth**

Gwnaethpwyd taliadau o £438 (2020: £504) i ddau aelod o'r Gorfforaeth (2020: dau) ar wahân i Brif Weithredwr y Grŵp a llywodraethwyr staff eraill, ar gyfer teithio a threuliau cynhaliaeth a achosir wrth iddynt gyflawni eu dyletswyddau.

**Iawndal am golled swydd sy'n daladwy i gyn-aelodau o Staff Rheoli Allweddol**

Yn ystod y flwyddyn, ni wnaethpwyd unrhyw daliadau (2020: £28,141) i Staff Rheoli Allweddol mewn perthynas ag iawndal am golli swydd.

## 9 TREULIAU GWEITHREDU ERAILL

| | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 | | Blwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | **Cyfunol** | **Coleg** | **Cyfunol** | **Coleg** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Adrannau addysgu | 1,432 | 1,136 | 1,833 | 1,290 |
| Gwasanaethau cefnogi addysgu | | | | |
| • Ffioedd arholi | 1,782 | 1,232 | 1,651 | 1,173 |
| • Trafnidiaeth dysgwyr | 85 | 85 | 124 | 124 |
| • Gwasanaethau cefnogi addysgu eraill | 1,433 | 481 | 1,416 | 355 |
| Gwasanaethau cefnogi eraill | 133 | 133 | 66 | 65 |
| Costau arlwyo | 226 | 126 | 378 | 99 |
| Marchnata | 659 | 583 | 506 | 458 |
| Gwasanaethau gweinyddol a chanolog | 4,701 | 3,624 | 3,691 | 2,018 |
| Costau cynhyrchu incwm | 722 | 122 | 1,447 | 648 |
| Costau safleoedd | 4,650 | 3,532 | 5,220 | 3,795 |
| Darpariaeth is-gontract | | | | |
| • Dysgu seiliedig ar waith | 23,157 | 4,834 | 19,647 | 5,346 |
| • Cyrsiau breiniol | 820 | 820 | 804 | 804 |
| • Is-gontractau eraill | 6,106 | 4,661 | 3,076 | 1,871 |
| | **45,906** | **21,369** | **39,859** | **18,047** |

**Mae treuliau gweithredu eraill yn cynnwys:**

| | Cyfunol a Choleg | |
|---|---|---|
| | **2021** | **2020** |
| | **£'000** | **£'000** |
| Cydnabyddiaeth archwilwyr | | |
| Archwilwyr allanol | | |
| • Archwiliad o'r datganiadau ariannol | 69 | 54 |
| • Archwiliad o ddatganiadau ariannol yr is-gwmnïau | 58 | 47 |
| • Gwasanaethau eraill a ddarperir gan archwilydd allanol | 27 | 11 |
| | 154 | 112 |
| Archwilwyr mewnol | | |
| • Archwiliad allanol | 29 | 24 |
| • Gwasanaethau eraill gan archwilydd mewnol | 51 | 25 |
| | 80 | 49 |
| Rhent prydles weithredu | | |
| • Tir ac adeiladau | 718 | 639 |
| • Arall | 136 | 136 |
| | 854 | 775 |

## 10 LLOG A CHOSTAU CYLLID ERAILL

| | 2021 Cyfunol £'000 | 2021 Coleg £'000 | 2020 Cyfunol £'000 | 2020 Coleg £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Benthyciadau a gorddrafft banc | 1,576 | 1,564 | 1,747 | 1,747 |
| Prydlesi cyllid | 18 | 18 | 21 | 21 |
| Costau cyllid pensiwn (nodyn 20) | 580 | 580 | 430 | 430 |
| Darpariaeth pensiwn uwch (nodyn 21) | 5 | 5 | 8 | 8 |
| Tâl cyllid ar ystyriaeth ohiriedig | - | - | 47 | 42 |
| | **2,179** | **2,167** | **2,253** | **2,248** |

## 11 ASEDAU ANNIRIAETHOL AC EWYLLYS DA

| **Cyfunol** | **Perthnasoedd cytundebol â chwsmeriaid £'000** | **Brand ACT £'000** | **Ewyllys da £'000** | **Datblygiad systemau £'000** | **Cyfanswm £'000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | **8,307** | **1,600** | **7,098** | **839** | **17,844** |
| Ychwanegiadau (gweler isod) | - | - | 2,202 | - | 2,202 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **8,307** | **1,600** | **9,300** | **839** | **20,046** |
| **Amorteiddiad ac amhariad** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | **3,557** | **685** | **2,165** | **193** | **6,600** |
| Costau amorteiddiad | 1,052 | 202 | 1,423 | 168 | 2,845 |
| Costau amhariad | - | - | 1,269 | - | 1,269 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **4,609** | **887** | **4,857** | **361** | **10,714** |
| **Gwerth net ar y llyfrau** | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **3,698** | **713** | **4,443** | **478** | **9,332** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **4,750** | **915** | **4,933** | **646** | **11,244** |

Mae'r balansau uchod yn ymwneud â pherthnasoedd cytundebol â chwsmeriaid, cododd brand ACT ac ewyllys da wrth gaffael ACT Group ac Apprenticeship Learning Solutions Limited (ALS). Gweler nodyn 13 am ragor o wybodaeth.

## 11 ASEDAU ANNIRIAETHOL AC EWYLLYS DA (parhad)

Mae'r ychwanegiadau at ewyllys da yn ystod y flwyddyn yn gysylltiedig â'r canlynol:

- Addasiad i werth ystyriaeth cydnabyddiaeth ddibynnol o £597,000 (gweler nodyn 15); ac
- Ailasesu'r gost o ewyllys da yn deillio o gaffael ACT Group o £1,605,000, gyda gostyngiad cyfatebol yn y derbyniadwyon masnach o'r un swm hefyd yn cael ei gydnabod yn ystod y flwyddyn (gweler nodyn 14).

Mae'r gost amhariad o £1,269,000 wedi'i chydnabod yn y flwyddyn yn gysylltiedig ag ewyllys da yn codi o fuddsoddiad y cwmni yn ALS. Yn dilyn ymarfer caffael diweddar, methodd ALS i sicrhau contract gyda Llywodraeth Cymru i gynnig prentisiaethau ar ôl mis Gorffennaf 2021. O fis Awst 2021 ymlaen, prif ffynhonnell trosiant ALS fydd drwy is-gontract prentisiaethau gydag ACT, a'i rwydwaith o bartneriaid ar is-gontractau yn dechrau trefniadau is-gontract newydd gydag ACT a fydd yn dod i rym 1 Awst 2021.

| **Coleg** | **Datblygiad systemau** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Cost** | | |
| Ar 1 Awst 2020 a 31 Gorffennaf 2021 | **839** | **839** |
| | -------- | -------- |
| **Amorteiddiad ac amhariad** | | |
| Ar 1 Awst 2020 | 193 | 193 |
| Costau amorteiddiad | 168 | 168 |
| | -------- | -------- |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **361** | **361** |
| | -------- | -------- |
| **Gwerth net ar y llyfrau** | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **478** | **478** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **646** | **646** |

Mae'r balansau a nodir uchod yn ymwneud â'r prosiect Taith y Dysgwr, prif adolygiad o brosesau busnes y Coleg o'r cyswllt cyntaf gyda myfyrwyr, drwy'r broses recriwtio ac ymrestru, i astudio yn y Coleg, derbyn cymorth yn ystod astudiaethau ac yna mynd ymlaen i addysg uwch neu gyflogaeth.

Arweiniodd y prosiect hwn at nifer o ddatblygiadau yn y system TG, sydd wedi'u cyfalafu fel ased anniriaethol, gan gynnwys:

- Gwefan newydd i'r Coleg;
- Creu pyrth newydd i staff a myfyrwyr;
- System Cynllun Dysgu Unigol Electronig newydd er mwyn olrhain a monitro perfformiad dysgwyr yn well; a
- Chyflwyno datrysiad i gasglu pob cyswllt gan gyflogwyr i wella cyflogadwyedd myfyrwyr a darpariaeth hyfforddiant gyda mwy o ffocws.

## 12 ASEDAU DIRIAETHOL

| Cyfunol | Rhydd-ddaliad tir a adeiladau | Offer, cyfarpar a cherbydau | Cyfrifiaduron a TG | Asedau wrth adeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | 92,484 | 11,218 | 6,076 | 230 | 110,008 |
| Ychwanegiadau | 388 | 1,309 | 2,026 | 3,221 | 6,944 |
| Gwarediadau | - | (94) | (4) | - | (98) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **92,872** | **12,433** | **8,098** | **3,451** | **116,854** |
| **Dibrisiant ac Amhariad Cronedig** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | 17,738 | 7,481 | 4,203 | - | 29,422 |
| Cost ar gyfer y flwyddyn | 1,803 | 1,253 | 763 | - | 3,819 |
| Costau amhariad | 5,193 | - | - | - | 5,193 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **24,734** | **8,734** | **4,966** | **-** | **38,434** |
| **Gwerth net ar y llyfrau** | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **68,138** | **3,699** | **3,132** | **3,451** | **78,420** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **74,746** | **3,737** | **1,873** | **230** | **80,586** |

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliad yn cynnwys cost o £40,113,000 ar gyfer Campws Canol y Ddinas, a gafodd ei ariannu'n rhannol drwy grant gan Lywodraeth Cymru. Mae telerau'r grant hwn yn cyflwyno cyfyngiadau ar ddefnydd y campws a byddai angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw waredu posibl.

Mae gwerth net y cyfarpar ar y llyfrau yn cynnwys swm o £586,000 (2020: £704,000) mewn perthynas ag asedau a gedwir dan brydlesi cyllid. Y tâl dibrisiad ar yr asedau hyn ar gyfer y flwyddyn oedd £274,000 (2020:
£271,000).

Mae'r tâl amhariad yn ystod y flwyddyn yn gysylltiedig â'r canlynol yn bennaf:

- £1,937,000 yn ymwneud â safleoedd Heol Colcot a Chanolfan Ryngwladol Hyfforddiant Awyrofod y Coleg, sy'n adlewyrchu'r ffaith y bydd yr asedau hynny yn cael eu gwaredu er mwyn ail-ddatblygu ar ôl cwblhau datblygiad campws y Fro newydd;

- £2,851,000 yn ymwneud â safle Un Parêd y Gamlas yng nghanol dinas Caerdydd, yn dilyn prisiad allanol diweddar ac asesiad gwerth mewn defnydd.

- £395,000 i osod goleuadau newydd yn adeilad Campws Canol y Ddinas

## 12 ASEDAU DIRIAETHOL (parhad)

| Coleg | Tir ac adeiladau | Offer, cyfarpar a cherbydau | Cyfrifiaduron a TG | Asedau wrth adeiladu | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | 91,618 | 8,276 | 6,076 | 230 | 106,200 |
| Ychwanegiadau | 387 | 675 | 2,026 | 3,221 | 6,309 |
| Gwarediadau | - | (94) | (4) | - | (98) |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **92,005** | **8,857** | **8,098** | **3,451** | **112,411** |
| **Dibrisiant cronedig** | | | | | |
| Ar 1 Awst 2020 | 17,162 | 5,484 | 4,204 | - | 26,850 |
| Cost ar gyfer y flwyddyn | 1,765 | 819 | 763 | - | 3,347 |
| Costau amhariad | 5.193 | - | - | - | 5,193 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **24,120** | **6,303** | **4,967** | **-** | **35,390** |
| **Gwerth net ar y llyfrau** | | | | | |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **67,885** | **2,554** | **3,131** | **3,451** | **77,021** |
| **Ar 31 Gorffennaf 2020** | **74,456** | **2,792** | **1,872** | **230** | **79,350** |

Mae tir ac adeiladau rhydd-ddaliad yn cynnwys cost o £40,113,000 ar gyfer Campws Canol y Ddinas, a gafodd ei ariannu'n rhannol drwy grant gan Lywodraeth Cymru. Mae telerau'r grant hwn yn cyflwyno cyfyngiadau ar ddefnydd y campws a byddai angen i Lywodraeth Cymru gymeradwyo unrhyw waredu posibl.

Mae gwerth net y cyfarpar ar y llyfrau yn cynnwys swm o £586,000 (2020: £704,000) mewn perthynas ag asedau a gedwir dan brydlesi cyllid. Y tâl dibrisiad ar yr asedau hyn ar gyfer y flwyddyn oedd £274,000 (2020: £271,000).

Mae'r cynnydd mewn asedau wrth adeiladu yn ystod y flwyddyn yn ymwneud yn bennaf â phrosiect

Parc y Gamlas. Mae'r taliadau amhariad sydd wedi'u cydnabod yn ystod y flwyddyn i'w gweld uchod.

## 13 BUDDSODDIADAU

Mae'r Coleg yn berchen ar 100% o'r cyfranddaliadau cyffredin £1 o'r cwmnïau canlynol, y cwbl wedi'u hymgorffori ym Mhrydain Fawr.

- ICAT Limited, ei brif weithgarwch busnes yw darparu hyfforddiant unigryw;
- CF10 Retail Limited, ei brif weithgarwch busnes yw darparu gwasanaethau manwerthu;
- International Centre for Aerospace Training Limited (segur);
- Cardiff College Enterprises Limited (segur);
- South East Wales City Region ATA Limited, ei brif weithgarwch busnes yw cynnig model prentisiaeth risg isel, rhwydd ei ddefnyddio i gyflogwyr; ac
- ACT (Holdings) Limited. Mae ACT (Holdings) Limited yn berchen ar 100% o gyfalaf cyfranddaliadau Associated Community Training Limited a Learn About (Wales) Limited (segur). Mae Associated Community Training Limited yn berchen ar 100% o gyfalaf cyfranddaliadau Apprenticeship Learning Solutions Limited (ALS). Gyda'i gilydd, mae'r endidau hyn yn ffurfio'r ACT Group.

Cafodd Learn About (Wales) Limited, cwmni segur a gafodd ei ddiddymu yn wirfoddol ar 11 Mehefin 2019, ei adfer ar 1 Hydref 2021 am resymau gweinyddol; mae'r cwmni yn parhau i fod yn segur, a bwriad y cyfarwyddwyr yw diddymu'r cwmni maes o law.

Buddsoddiad yn yr ACT Group

Cost buddsoddi yn yr ACT Group yw £19,098,000 (2020: £19,098,000). Fel y disgrifir yn nodyn 11, cydnabuwyd tâl amhariad yn gysylltiedig ag ewyllys da yn codi o gaffael ALS yn ystod y flwyddyn.

Llifau arian

Mae'r datganiad o lifau arian yn dangos cyfanswm o all-lif arian parod o £2,625,000 (2020: £2,206,000) mewn perthynas â chaffael ymgymeriadau'r is-gwmni. Mae hyn yn cynnwys:

- £2,063,000 o daliadau arian mewn perthynas ag ystyriaeth ddibynnol ACT Limited (2020: £2,479,000); a
- £562,000 o daliadau arian mewn perthynas ag ystyriaeth ddibynnol ALS Limited (2020: £299,000)

Cafodd y taliadau hyn oll eu hariannu'n llawn drwy rodd cymorth a ddaeth i ran y Coleg gan yr is-gwmni perthnasol.

## 14 MASNACH A DERBYNIADWYON ERAILL

| | Ar 31 Gorffennaf 2021 | | Ar 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfunol £'000 | Coleg £'000 | Cyfunol £'000 | Coleg £'000 |
| Symiau yn daladwy cyn pen blwyddyn: | | | | |
| Derbyniadwyon masnach | 3,481 | 15 | 6,039 | 1,004 |
| Rhagdaliadau ac incwm cronnol | 4,017 | 2,970 | 2,189 | 1,865 |
| Symiau yn daladwy o ymgymeriadau is-gwmni | - | 530 | - | 711 |
| | **7,498** | **3,515** | **8,228** | **3,580** |

Mae pob swm sy'n daladwy o ymgymeriadau is-gwmni yn rhydd rhag llog ac yn ad-daladwy ar alw.

Yn ystod y flwyddyn, arweiniodd ail-asesiad o ewyllys da yn deillio o gaffael yr ACT Group at addasiad heb fod yn arian i dderbyniadwyon masnach o £1,605,000, gyda chynnydd cyfatebol yn y gost ewyllys da wedi'i gynnwys yn yr asedau anniriaethol, fel y disgrifir yn nodyn 11 y datganiadau ariannol.

## 15 CREDYDWYR - SYMIAU YN DALADWY CYN PEN BLWYDDYN

| | Ar 31 Gorffennaf 2021 | | Ar 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfunol | Coleg | Cyfunol | Coleg |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyciadau banc (gweler nodyn 17) | 2,298 | 2,298 | 2,008 | 2,008 |
| Rhwymedigaethau dan brydlesi cyllid | 221 | 221 | 199 | 199 |
| Symiau taladwy masnach | 3,103 | 1,331 | 3,661 | 2,050 |
| Trethiant a nawdd cymdeithasol | 1,659 | 1,328 | 1,653 | 1,288 |
| Croniadau ac incwm gohiriedig | 12,418 | 11,624 | 4,979 | 4,719 |
| Croniad tâl gwyliau | 1,110 | 946 | 861 | 861 |
| Grantiau cyfalaf gan y llywodraeth | 1,394 | 1,272 | 1,071 | 1,071 |
| Grantiau eraill | 2 | 2 | 5 | 5 |
| Cydnabyddiaeth ddibynnol | 584 | - | 2,752 | 2,190 |
| Credydwyr eraill | 176 | - | 22 | 22 |
| | **22,965** | **19,022** | **17,211** | **14,413** |

Cydnabyddiaeth ddibynnol yw gwerth net presennol taliadau cydnabyddiaeth posibl y dyfodol sy'n ymwneud â chaffael Apprenticeship Learning Solutions Limited (ALS) gan Associated Community Training Limited (gweler nodyn 13). Mae'r rhwymedigaeth yn ymwneud â thargedau perfformiad ariannol cytunedig sydd wedi'u bodloni gan ALS yn ystod y flwyddyn, ac mae'r trefniant hwn wedi'i strwythuro fel y bydd unrhyw rwymedigaeth sy'n daladwy mewn perthynas â hyn wedi'i hariannu'n llawn gan y gwarged ychwanegol cysylltiedig sydd wedi'i gynhyrchu gan ALS. Mae'r rhwymedigaeth wedi gostwng mewn cymhariaeth â'r flwyddyn flaenorol, a oedd hefyd yn cynnwys cydnabyddiaeth ddibynnol yn ymwneud â chaffael Associated Community Training, trefniant sydd wedi dod i ben bellach.

**Incwm Gohiriedig**

Wedi'u cynnwys yn yr incwm cronnol a gohiriedig mae'r eitemau canlynol o incwm sydd wedi'u gohirio nes bod amodau penodol yn ymwneud â pherfformiad wedi'u bodloni.

| | Ar 31 Gorffennaf 2021 | | Ar 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfunol | Coleg | Cyfunol | Coleg |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Incwm gohiriedig | 4,721 | 4,721 | 1,222 | 1,222 |
| | **4,721** | **4,721** | **1,222** | **1,222** |

## 16 CREDYDWYR - SYMIAU YN DALADWY AR ÔL MWY NA BLWYDDYN

| | Ar 31 Gorffennaf 2021 | | Ar 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfunol | Coleg | Cyfunol | Coleg |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyciadau banc (gweler nodyn 17) | 31,148 | 31,148 | 37,196 | 37,196 |
| Rhwymedigaethau dan brydlesi cyllid | 259 | 259 | 408 | 408 |
| Grantiau cyfalaf gan y llywodraeth | 22,407 | 22,073 | 17,734 | 17,734 |
| | **53,814** | **53,480** | **55,338** | **55,338** |

## 16 CREDYDWYR - SYMIAU YN DALADWY AR ÔL MWY NA BLWYDDYN (parhad)

Gweler isod dadansoddiad o symudiad grantiau cyfalaf y llywodraeth yn ystod y flwyddyn:

| | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Ar 1 Awst** | 18,805 | 17,648 |
| Grantiau newydd a gafwyd yn ystod y flwyddyn | 6,262 | 2,030 |
| Grantiau a ddyfarnwyd yn ystod y flwyddyn | (1,266) | (873) |
| | ------- | ------- |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **23,801** | **18,805** |
| | ------- | ------- |

## 17 BENTHYCIADAU

### Benthyciadau banc

Mae benthyciadau banc yn ad-daladwy fel a ganlyn:

| | Ar 31 Gorffennaf 2021 | | Ar 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfunol<br>£'000 | Coleg<br>£'000 | Cyfunol<br>£'000 | Coleg<br>£'000 |
| Yn daladwy cyn pen blwyddyn neu ar alw | 2,298 | 2,298 | 2,008 | 2,008 |
| Yn daladwy rhwng un a dwy flynedd | 2,241 | 2,241 | 6,048 | 6,048 |
| Yn daladwy rhwng dwy a phum mlynedd | 13,967 | 13,967 | 14,174 | 14,174 |
| Yn daladwy mewn pum mlynedd neu fwy | 14,940 | 14,940 | 16,974 | 16,974 |
| | -------- | -------- | -------- | ------- |
| **Cyfanswm** | **33,446** | **33,446** | **39,204** | **39,204** |
| | -------- | -------- | -------- | -------- |

Roedd gan y Coleg ddau fenthyciad banc diwarant yn ystod y flwyddyn, a'r ddau gyda Santander.

Mae'r cyntaf wedi'i rannu'n ddwy gyfran £10miliwn. Mae pob cyfran yn cynnwys cyfleuster credyd cylchdröol tair blynedd a ddechreuodd ar 9 Awst 2013, ac yna tymor benthyg o saith mlynedd a thair blynedd ar ddeg yn y drefn honno. Dechreuodd ad-daliadau cyfalaf ar y ddwy gyfran benthyg ym mis Hydref 2016, gyda phroffil ad-dalu yn seiliedig ar gyfnod ad-dalu o 22 mlynedd. Mae'r cyfraddau llog ar gyfer y ddwy gyfran wedi'u gosod ar gyfraddau rhwng 4.54% a 5.47%.

Dechreuwyd yr ail fenthyciad ar 14 Hydref 2016, a'i gyfanswm yw £10miliwn sy'n ad-daladwy dros 10 mlynedd ar gyfradd llog sefydlog o 3.702%. Fel rhan o'r trefniant hwn, cafodd y cyfamodau sy'n ymwneud â'r trefniadau cyfleusterau cyfredol eu diwygio i ymgorffori'r triniaethau cyfrifyddu diwygiedig a nodir yn FRS 102 a'r Cyfrifyddu ar gyfer Addysg Bellach ac Addysg Uwch.

Dechreuwyd y trydydd benthyciad, hefyd gyda Santander, ar 23 Awst 2018, a'i gyfanswm yw £12.78miliwn. Mae gan y benthyciad broffil ad-dalu yn seiliedig ar gyfnod ad-dalu o 20 mlynedd, ac mae'n dwyn llog ar gyfradd sefydledig o 4.01%. Cafodd y benthyciad ei ddefnyddio i brynu'r eiddo rhydd-ddaliad Un Parêd y Gamlas, bloc swyddfeydd newydd sbon ar Heol Dumballs, ger Campws Canol y Ddinas, ac mae'r benthyciad wedi'i roi yn erbyn yr eiddo hwn.

## 17 BENTHYCIADAU (parhad)

### Benthyciadau banc (parhad)

Yn ogystal â'r benthyciadau banc a nodir uchod, ar 23 Gorffennaf 2018, sicrhaodd y Coleg gyfleuster credyd cylchdröol o £3.5miliwn gyda Santander. Caiff llog ar y cyfleuster ei godi ar gyfradd Sterling Overnight Index Average + 1.6%. Yn ystod y flwyddyn, ymestynnodd y Coleg y cyfleuster hyd at 31 Mai 2022, ac mae ganddo'r opsiwn i'w ymestyn blwyddyn arall hyd at 31 Mai 2023.

### Prydlesi cyllid

Gweler yma y rhwymedigaethau prydlesi cyllid mae'r Coleg yn ymrwymedig iddynt:

| | 31 Gorffennaf 2021 | | 31 Gorffennaf 2020 | |
|---|---|---|---|---|
| | Cyfunol | Coleg | Cyfunol | Coleg |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Mewn blwyddyn neu lai | 221 | 221 | 199 | 199 |
| Rhwng dwy a phum mlynedd | 259 | 259 | 408 | 408 |
| **Cyfanswm** | **480** | **480** | **607** | **607** |

## 18 CYSONI DYLED NET YN GYFUNOL

| | Ar 1 Awst 2020 | Llifau arian | Symudiadau benthyciadau anariannol | Prydlesi cyllid newydd | Ar 31 Gorffennaf 2021 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Arian parod yn y banc ac i law | 9,318 | 10,024 | - | - | 19,342 |
| Dyled yn daladwy cyn pen blwyddyn | (2,008) | 2,258 | (2,548) | - | (2,298) |
| Dyled yn daladwy ar ôl blwyddyn | (37,196) | 3,500 | 2,548 | - | (31,148) |
| Prydlesi cyllid | (607) | 283 | - | (156) | (480) |
| | **(30,493)** | **16,065** | **-** | **(156)** | **(14,584)** |

## 19 RHWYMEDIGAETHAU PRYDLESI

Ar 31 Gorffennaf, roedd gan y Coleg gyfanswm o isafswm taliadau prydles dan brydlesi gweithredu na ellir eu canslo fel a ganlyn:-

| | 2021 Cyfunol £'000 | 2021 Coleg £'000 | 2020 Cyfunol £'000 | 2020 Coleg £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Tir ac Adeiladau** | | | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 1,297 | 718 | 1,290 | 718 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 2,005 | 1,792 | 2,907 | 2,169 |
| Mwy na phum mlynedd | 4,493 | 4,493 | 4,834 | 4,834 |
| | **7,795** | **7,003** | **9,031** | **7,721** |
| **Arall** | | | | |
| Dim hwyrach na blwyddyn | 159 | 45 | 256 | 112 |
| Yn hwyrach nag un flwyddyn ond dim hwyrach na phum mlynedd | 117 | 12 | 118 | 57 |
| | **276** | **57** | **374** | **169** |

## 20 DARPARIAETHAU PENSIWN

Mae'r Grŵp yn gweithredu'r cynlluniau pensiwn canlynol:

- Cynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg, cynllun budd diffiniedig yn gweithredu dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol;
- Cynllun Pensiwn Athrawon, cynllun budd diffiniedig;
- cynllun pensiwn yr Ymddiriedolaeth Arbedion Cyflogaeth Genedlaethol, cynllun cyfraniad diffiniedig;
- cynllun pensiwn Scottish Widows, cynllun cyfraniad diffiniedig;
- cynllun St James's Place Wealth Management, cynllun cyfraniad diffiniedig;
- Legal & General, cynllun cyfraniad diffiniedig; ac
- Aviva, cynllun cyfraniad diffiniedig.

**Cyfunol**

| | 2021 £'000 | 2021 £'000 | 2020 £'000 | 2020 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cynllun Pensiwn Athrawon: cyfraniadau a dalwyd | | 3,400 | | 3,070 |
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: | | | | |
| Cyfraniadau a dalwyd | 1,730 | | 1,680 | |
| tâl FRS 102 (28) | 3,480 | | 2,080 | |
| | | 5,210 | | 3,760 |
| Cost pensiwn uwch (gweler nodyn 21) | | 7 | | 37 |
| Cynlluniau cyfraniad diffiniedig: cyfraniadau a dalwyd | | 495 | | 426 |
| **Cyfanswm cost pensiwn ar gyfer y flwyddyn o fewn costau staff** | | **9,112** | | **7,293** |

**20 DARPARIAETHAU PENSIWN (parhad)**

**Coleg**

| | | 2021 | | 2020 |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Cynllun Pensiwn Athrawon: cyfraniadau a dalwyd | | 3,400 | | 3,070 |
| Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol: | | | | |
| Cyfraniadau a dalwyd | 1,730 | | 1,680 | |
| tâl FRS 102 (28) | 3,480 | | 2,080 | |
| | | 5,210 | | 3,760 |
| Cost pensiwn uwch (gweler nodyn 21) | | 7 | | 37 |
| **Cyfanswm cost pensiwn ar gyfer y flwyddyn o fewn costau staff** | | **8,617** | | **6,867** |

Caiff y costau pensiwn ar gyfer y cynlluniau budd diffiniedig eu hasesu yn unol â chyngor gan actiwariaid cymwys, annibynnol. Prisiad actiwaraidd ffurfiol diweddaraf y Cynllun Pensiwn Athrawon oedd 31 Mawrth 2016 a'r Cynllun Pensiwn Caerdydd a'r Fro oedd 31 Mawrth 2019.

Ar 31 Gorffennaf 2021, roedd cyfraniadau cyfwerth â £625,000 (2020: £553,000) yn daladwy i'r cynlluniau a chânt eu cynnwys o fewn credydwyr.

**Cynllun Pensiwn Athrawon**

Trosolwg

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun galwedigaethol budd diffiniedig, statudol a heb ei ariannu, sy'n cael ei reoli gan Reoliadau Pensiynau Athrawon 2010 (fel y'u diwygwyd), a Rheoliadau Cynllun Pensiwn Athrawon 2014 (fel y'u diwygwyd). Mae'r rheoliadau hyn yn berthnasol i athrawon mewn ysgolion a sefydliadau addysg eraill, gan gynnwys academïau, yng Nghymru a Lloegr sy'n cael eu cynnal gan awdurdodau lleol. Yn ogystal, mae'n bosibl bod athrawon mewn nifer o ysgolion annibynnol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir ac athrawon a darlithwyr yn rhai sefydliadau addysg bellach ac uwch yn gymwys am aelodaeth. Mae aelodaeth yn awtomatig ar gyfer athrawon a darlithwyr llawn amser, ac o 1 Ionawr 2007, mae'n awtomatig hefyd ar gyfer athrawon a darlithwyr rhan amser ar ôl eu penodi neu newid yn eu contract. Gall athrawon a darlithwyr optio allan o'r Cynllun Pensiwn Athrawon.

Cyfrif Cyllidebu a Phrisio Pensiwn Athrawon

Er y gall aelodau fod wedi'u cyflogi gan sawl corff, mae eu buddion ymddeol a buddion pensiwn eraill wedi'u nodi mewn rheoliadau o dan Ddeddf Blwydd-daliadau (1972) a Deddf Pensiynau'r Gwasanaeth Cyhoeddus (2013) a chânt eu talu gan gronfeydd cyhoeddus a ddarperir gan y Senedd. Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun heb ei ariannu ac mae aelodau yn cyfrannu ar sail 'talu wrth fynd' – mae'r cyfraniadau gan aelodau, ynghyd â'r rheiny a wneir gan gyflogwyr, yn cael eu credydu i'r Trysorlys dan drefniadau a reolir gan y Deddfau uchod.

Mae Rheoliadau Pensiynau Athrawon 2010 yn gofyn cyfrif blynyddol, y Cyfrif Cyllidebu a Phrisio Pensiynau Athrawon, yn cael ei gadw gan gynnwys cofnod o'r derbyniadwyon a gwariant (a chynnydd mewn costau pensiwn). O 1 Ebrill 2001, mae'r Cyfrif wedi'i gredydu gyda chyfradd adennill go iawn, sy'n gyfwerth â chymryd yn ganiataol bod balans y Cyfrif yn cael ei fuddsoddi mewn buddsoddiadau tybiannol sy'n cynhyrchu cyfradd adennill go iawn.

## 20 DARPARIAETHAU PENSIWN (parhad)

Prisio Cynllun Pensiwn Athrawon

Cafodd prisiad actiwaraidd diweddaraf y Cynllun Pensiwn Athrawon ei gyhoeddi fis Mawrth 2019, gan ddefnyddio data aelodaeth 31 Mawrth 2016. O ganlyniad i'r prisiad hwn, mae cyflogwyr Cynllun Pensiwn Athrawon yn talu cyfradd gyfrannu o 23.68% (gan gynnwys y tâl gweinyddol o 0.8%) a ddaeth i rym fis Medi 2019.

Newidiadau i'r cynllun

Cafodd y trefniadau ar gyfer Cynllun Pensiwn Athrawon diwygiedig, yn unol â'r argymhellion a wnaed gan yr Arglwydd Hutton, yn enwedig cyflwyno cynllun Ailbrisio Enillion Cyfartalog Gyrfa, eu gweithredu 1 Ebrill 2015.

Fis Rhagfyr 2018, cefnogodd y Llys Apêl y ffaith bod darpariaethau gwarchodaeth drosiannol sydd wedi'u cynnwys yng nghynlluniau pensiwn diwygiedig barnwyr a diffoddwyr tân, a gyflwynwyd fel rhan o ddiwygiadau i bensiynau'r gwasanaeth cyhoeddus yn 2015, yn gwahaniaethu'n uniongyrchol ar sail oedran a'u bod, o'r herwydd hynny, yn anghyfreithlon. Mewn penderfyniad a wnaed fis Mehefin 2019, gwrthododd y Goruchaf Lys gais y Llywodraeth am ganiatâd i apelio dyfarniad y Llys Apêl. Yn sgil hynny, cyfeiriwyd yr achos at Dribiwnlys Cyflogaeth fis Rhagfyr 2019, a benderfynodd bod gan aelodau'r cynllun sydd wedi'u heffeithio yr hawl i ddychwelyd i'w cynlluniau pensiwn cyn 2015.

Mae Trysorlys EM yn glir bod y dyfarniad yn cyflwyno goblygiadau i gynlluniau eraill y gwasanaeth cyhoeddus, gan gynnwys Cynllun Pensiwn Athrawon. Mae'r goblygiadau hynny yn cael eu hystyried ar hyn o bryd a disgwylir y bydd unrhyw effaith ar gostau'r cynllun yn cael ei hystyried yn y prisiad cynllun nesaf, sydd ar hyn o bryd wedi'i drefnu i fod yn seiliedig ar ddata mis Ebrill 2020 a'i weithredu fis Ebrill 2023.

Y costau pensiwn a dalwyd i'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn ystod y flwyddyn oedd

£3,400,000 (2020: £3,070,000). FRS 102 (28)

Dan y diffiniadau a nodir yn FRS 102 (28.11), mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon yn gynllun pensiwn aml-gyflogwr. Ni all y Coleg adnabod ei gyfran o asedau a rhwymedigaethau sylfaenol y cynllun.

Yn unol â hynny, mae'r Coleg wedi cymryd mantais o'r eithriad yn FRS 102 ac wedi nodi ei gyfraniadau i'r cynllun fel petai'n gynllun cyfraniad diffiniedig. Mae'r Coleg wedi nodi uchod y wybodaeth sydd ar gael ynghylch y cynllun a'r goblygiadau i'r Coleg o ran y cyfraddau cyfrannu rhagweledig.

**Cronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg**

Trosolwg

Mae Cynllun Pensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg yn gynllun budd diffiniedig yn gweithredu dan Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, gyda'r asedau yn cael eu cadw mewn cronfeydd ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Mae'r datganiadau ariannol yn ymgorffori'r wybodaeth gyfrifyddu o'r prisiad cyfrifyddu actiwaraidd ar 31 Gorffennaf 2021, sy'n adlewyrchu diweddariad o ganlyniadau'r prisiad cyllid diweddaraf ar 31 Mawrth 2019 (a gafodd ei gadarnhau fis Mawrth 2020) yn unol â gofynion FRS102.

Y rhwymedigaeth pensiwn net a gydnabuwyd ar 31 Gorffennaf 2021 oedd £39.4miliwn (2020: £41.9miliwn).

**20 DARPARIAETHAU PENSIWN (parhad)**

Prif Ragdybiaethau Actiwaraidd

Y prif ragdybiaethau a wnaed gan yr actiwariaid oedd:

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| Chwyddiant yn ôl Mynegai Prisiau Defnyddwyr | 2.6% | 2.2% |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 3.6% | 3.2% |
| Cyfradd y cynnydd ar gyfer taliadau pensiynau | 2.6% | 2.2% |
| Cyfradd ail-brisio cyfrifon pensiwn | 2.6% | 2.2% |
| Cyfradd y cynnydd i bensiynau gohiriedig | 2.6% | 2.2% |
| Cyfradd gostyngiad ar gyfer rhwymedigaethau | 1.7% | 1.4% |

Marwolaethau

Mae'r rhagdybiaethau marwolaethau yn seiliedig ar dablau marwolaethau safonol SAPS S2N gyda lwfans ar gyfer gwelliannau yn y dyfodol yn unol â rhagamcaniad craidd CMI 2014 gyda chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn. Y disgwyliad oed tybiedig i rywun sy'n ymddeol yn 65 oed ydy:

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| Ymddeol heddiw: | | |
| Gwryw | 22.3 | 22.2 |
| Benyw | 24.7 | 24.6 |
| Ymddeol mewn 20 mlynedd: | | |
| Gwryw | 23.3 | 23.2 |
| Benyw | 26.1 | 26.0 |

Ased wedi'i rannu fel canran o gyfanswm yr asedau

| | 2021 | 2020 |
|---|---|---|
| Ecwitïau | 66.5% | 61.1% |
| Eiddo | 6.6% | 8.2% |
| Bondiau llywodraethol | 10.1% | 12.0% |
| Bondiau corfforaethol | 15.2% | 17.1% |
| Arian Parod | 1.6% | 1.4% |
| Arall | - | 0.2% |
| | **100.0%** | **100.0%** |

## 20 DARPARIAETHAU PENSIWN (parhad)

### Dadansoddiad o'r swm a godir i'r Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

| | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Symiau wedi'u cynnwys yng nghostau staff** | | |
| Cost net gwasanaeth cyfredol cyflogwr o gyfraniadau cyflogeion | 5,210 | 3,740 |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol - straen pensiwn | - | 20 |
| **Cyfanswm y swm a godir ar y Datganiad o Incwm Cynhwysfawr** | **5,210** | **3,760** |

### Symiau wedi'u cynnwys yn y llog sy'n daladwy

| | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| Cost llog net | 580 | 430 |

### Swm wedi'i gydnabod mewn Incwm Cynhwysfawr Arall

| | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| Enillion/(colledion) asedau yn codi yn y flwyddyn | 7,520 | (900) |
| Cynnydd rhwymedigaeth yn codi yn y flwyddyn | (930) | (18,120) |
| **Cyfanswm y swm wedi'i gydnabod mewn Incwm Cynhwysfawr Arall** | **6,590** | **(19,020)** |

### Atebolrwydd pensiwn net wedi'i gydnabod ar y fantolen

| | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| Gwerth teg cyfran y Coleg o asedau'r cynllun | 51,690 | 42,300 |
| Gwerth cyfredol y rhwymedigaeth budd diffiniedig yn ymwneud â'r Coleg | (91,080) | (84,220) |
| **Atebolrwydd pensiwn net sy'n berthnasol i'r Coleg** | **(39,390)** | **(41,920)** |

**20 DARPARIAETHAU PENSIWN (parhad)**

**Symudiad mewn rhwymedigaeth pensiwn net yn ystod y flwyddyn**

| | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Ar 1 Awst** | (41,920) | (20,390) |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | (5,210) | (3,740) |
| Cyfraniadau gan gyflogwyr | 1,730 | 1,680 |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol | - | (20) |
| Cost llog net ar asedau | (580) | (430) |
| Enillion/(colledion) actiwaraidd | 6,590 | (19,020) |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **(39,390)** | **(41,920)** |

**Symudiadau yng ngwerth cyfredol y rhwymedigaeth budd diffiniedig**

| | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Ar 1 Awst** | 84,220 | 61,440 |
| Cost gyfredol y gwasanaeth | 5,210 | 3,740 |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol | - | 20 |
| Treuliau llog | 1,180 | 1,350 |
| Ail-fesur: colled actiwaraidd* | 930 | 18,120 |
| Cyfraniadau gan aelodau | 630 | 610 |
| Buddion a dalwyd # | (1,090) | (1,060) |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **91,080** | **84,220** |

**Symudiad yng ngwerth teg asedau'r cynllun**

| | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Ar 1 Awst** | 42,300 | 41,050 |
| Incwm llog | 600 | 920 |
| Ail-fesur: (colledion)/enillion ar asedau | 7,520 | (900) |
| Cyfraniadau gan gyflogwr | 1,730 | 1,680 |
| Cyfraniadau gan aelodau | 630 | 610 |
| Buddion a dalwyd # | (1,090) | (1,060) |
| **Ar 31 Gorffennaf** | **51,690** | **42,300** |

*Yn cynnwys newidiadau i'r rhagdybiaethau actiwaraidd.

# Yn cynnwys all-llif arian net o'r gronfa mewn perthynas â'r cyflogwr, ac eithrio cyfraniadau ac unrhyw symiau sylweddol marwolaeth yn y swydd a delir, ac yn cynnwys lwfans bras ar gyfer costau symiau sylweddol marwolaeth yn y swydd a ddisgwylir.

## 20 DARPARIAETHAU PENSIWN (parhad)

**Prisiad o asedau yng Nghronfa Bensiwn Caerdydd a Bro Morgannwg ("y cynllun")**
Fel y dangosir uchod, roedd yr adroddiad actiwaraidd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 yn dangos adenillion bras ar ddyraniad tybiannol y Coleg o asedau'r cynllun o £8.12miliwn (yn cynnwys incwm llog ar asedau ac enillion asedau yn ystod y flwyddyn). Mae'r rheolwyr wedi dibynnu ar weinyddwyr y gronfa i gyfrifo'r adenillion ar asedau'r cynllun. Gall yr adenillion gwirioneddol ar asedau yn ystod y flwyddyn fod yn wahanol i'r adenillion bras oherwydd ansicrwydd amcangyfrif cynhenid yng ngwerth asedau'r cynllun ar 31 Gorffennaf 2021, sydd wedi codi oherwydd bod gwerthoedd asedau yn cael eu dwyn ymlaen o 31 Mawrth 2021, dyddiad adrodd diweddaraf y cynllun. Mae'r dull o brisio dwyn ymlaen ar gyfer adenillion ar fuddsoddiadau (gydag amcangyfrif fel sy'n berthnasol), cyfraniadau a delir i mewn i'r cynllun, a'r amcan fuddion a delir o'r cynllun, gan y Coleg a'i gyflogeion ac mewn perthynas â nhw. Byddai newid o 1% yng ngwerth yr asedau yn cynyddu/gostwng prisiad o ddyraniad tybiannol asedau'r cynllun gan y Coleg o £0.5miliwn.

**Materion eraill**
Roedd y prisiad actiwaraidd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 yn ystyried y materion canlynol: Dyfarniad McCloud/Sargeant
Fis Rhagfyr 2018, dyfarnodd y Llys Apêl yn nyfarniad McCloud/Sargeant fod y trefniadau gwarchodaeth drosiannol, a weithredwyd pan gafodd y cynlluniau pensiwn ar gyfer Diffoddwyr Tân a Barnwyr eu diwygio, yn gwahaniaethu ar sail oedran. Yn sgil hynny, ymrwymodd y Llywodraeth i gyflwyno datrysiad ar draws holl gynlluniau'r sector cyhoeddus a oedd yn cynnwys trefniadau gwarchodaeth drosiannol cyffelyb, sy'n cynnwys Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys amcangyfrif actiwaraidd o rwymedigaethau posibl McCloud gan ddefnyddio'r data a ddarparwyd ar gyfer prisiad cyllid 2019, gan ganiatáu elfennau allweddol y datrysiad arfaethedig fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol ym mis Gorffennaf 2020.

Mae'r dull prisio datrysiad McCloud a ddefnyddiwyd gan yr actiwariaid yn debyg i'r dull a gynigir gan y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ei hymgynghoriad. Ar 13 Mai 2021, cadarnhaodd y Weinyddiaeth Dai, Cymunedau a Llywodraeth Leol yn ei datganiad gweinidogol y byddant yn parhau â'r egwyddorion allweddol fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad hwnnw, gydag ymateb llawn i ddilyn gan y llywodraeth yn ddiweddarach yn 2021.

Mynegeio Isafswm Pensiynau Gwarantedig
Ym mis Hydref 2018, penderfynodd yr Uchel Lys bod rhaid i gronfeydd pensiwn fod yn gyfartal i fuddion sy'n daladwy i aelodau'r cynllun pensiwn sydd ag isafswm pensiwn gwarantedig o ganlyniad i fuddion sydd wedi'u contractio allan. Cyfrifwyd isafswm pensiwn gwarantedig gan ddefnyddio gwahanol oedrannau ymddeol ar gyfer dynion a merched, a dyfarnwyd hyn yn anghyfreithlon yn ddiweddarach oherwydd y gwahaniaeth mewn buddion i ddynion a merched. Mae'r Uchel Lys wedi pennu'r dull y dylid ei ddefnyddio gan gynlluniau pensiwn er mwyn gwneud eu buddion yn gyfartal. Roedd y datganiadau ariannol ar gyfer y flwyddyn flaenorol yn cynnwys amcangyfrif o'r rhwymedigaethau posibl mewn perthynas â'r dyfarniad, a oedd wedi'u cynnwys yn y costau gwasanaethau blaenorol.

Mae'r prisiad actiwaraidd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 yn cynnwys rhagdybiaeth o fynegeio llawn o'r isafswm pensiynau gwarantedig ar gyfer aelodau y maent wedi cyrraedd eu Hoedran Pensiwn y Wladwriaeth ar 6 Ebrill 2016 neu ar ôl y dyddiad hwn.

Ym mis Hydref 2020, mewn ail ddyfarniad yr achos yn yr Uchel Lys, eglurwyd y byddai angen iawndal ar aelodau a drosglwyddodd fuddion o'r cynllun ar ôl mis Mai 1990. Hyd yn hyn, nid yw'r Llywodraeth wedi cydnabod rhwymedigaeth mewn cynlluniau gwasanaethau cyhoeddus nac wedi dangos y byddant yn cywiro hynny. Oherwydd yr ansicrwydd sy'n bodoli mewn perthynas â hyn, nid yw'r actiwari wedi gwneud unrhyw lwfans ar gyfer rhwymedigaeth posibl yn deillio o'r dyfarniad hwn yn ei brisiad ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021.

## 20 DARPARIAETHAU PENSIWN (parhad)

### Materion eraill (parhad)

Newid mewn methodoleg ar gyfer rhagdybiaeth Mynegai Pris Defnyddwyr

Mae Actiwari'r Gronfa wedi cynnig newid i'w dull safonol o osod rhagdybiaeth y Mynegai Pris Defnyddwyr, i ystyried diwygio'r Mynegai Prisiau Manwerthu. Mae'r dull cyfrifo'r rhagdybiaeth Mynegai Prisiau Manwerthu (y mae rhagdybiaeth y Mynegai Pris Defnyddwyr wedi'i seilio arno) wedi'i ddiweddaru, gan arwain at ostyngiad o rhwng 4% a 6% yn y Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig (h.y. rhwng oddeutu £3,600k ac oddeutu £5,500k). Yn ogystal, mae'r gwahaniaeth rhwng y Mynegai Pris Defnyddwyr a'r Mynegai Prisiau Manwerthu wedi'i ddiweddaru, gan arwain at gynnydd o rhwng 2% a 4% yn y Rhwymedigaeth Buddion Diffiniedig (h.y. rhwng oddeutu £1,800k ac oddeutu £3,600k). Mae'r newidiadau hyn yn gysylltiedig, ac yn seiliedig ar newidiadau i'r cyfraddau cyn 2030 ac ar ôl 2030.

Proses Rheoli Costau

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud hi'n ofynnol i Drysorlys EM a Bwrdd Cynghori'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ymgymryd ag adolygiadau rheolaidd i fonitro cost y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gynaliadwy a fforddiadwy. Cyfeirir at hyn fel y 'Broses Rheoli Costau'.

Oedodd Trysorlys EM a Bwrdd Cynghori'r Cynllun eu hadolygiadau yn dilyn dyfarniad 'McCloud' yn y Llys Apêl; mae'r adolygiadau hyn wedi'u dad-oedi, a disgwylir y bydd cyfarwyddyd Trysorlys EM yn cael eu gwneud yn ystod 2021 a fydd yn caniatáu i adolygiadau'r Trysorlys a Bwrdd Cynghori'r Cynllun barhau. Mae'n annhebygol y bydd canlyniad yr adolygiadau hynny yn cael eu cyhoeddi yn 2021, ac ni ddisgwylir unrhyw newidiadau mewn buddion neu gyfraniadau gan aelodau tan 2024.

Oherwydd ansicrwydd ynghylch canlyniad y prosesau hynny a'r effaith debygol ar y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, nid yw'r prisiad actiwaraidd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 yn cynnwys unrhyw lwfans ar gyfer cost bosibl gwella buddion aelodau dan yr adolygiadau hyn.

### Cynlluniau cyfraniadau diffiniedig

Gweithredodd y Grŵp dri chynllun cyfraniad diffiniedig yn ystod y flwyddyn. Cyfanswm y cyfraniadau a dalwyd gan y cyflogwr i'r cynlluniau hyn yn ystod y flwyddyn yw £423,000 (2020: £426,000). Codir tâl cyfraniadau sy'n daladwy i gynlluniau pensiwn buddion diffiniedig y Grŵp i'r elw neu golled yn y cyfnod maent yn berthnasol iddo.

## 21 DARPARIAETHAU ERAILL

| Cyfunol | Pensiwn uwch | Colli gwaith | Gohiriedig treth | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Ar 1 Awst 2020** | 417 | 32 | 62 | 100 | 611 |
| Ychwanegiadau | 7 | 131 | - | - | 138 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (35) | (23) | - | - | 58 |
| Llog a godwyd ar ddarpariaeth (nodyn 10) | 5 | - | - | - | 5 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **394** | **140** | **62** | **100** | **696** |

| Coleg | Pensiwn uwch | Colli gwaith | Arall | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Ar 1 Awst 2020** | 417 | 32 | 100 | 549 |
| Ychwanegiadau | 7 | 131 | - | 138 |
| Defnyddiwyd yn y flwyddyn | (35) | (23) | - | 58 |
| Llog a godwyd ar ddarpariaeth (nodyn 10) | 5 | - | - | 5 |
| **Ar 31 Gorffennaf 2021** | **394** | **140** | **100** | **634** |

Mae'r ddarpariaeth pensiwn uwch yn cynrychioli'r asesiad actiwaraidd o gostau'r ychwanegiadau pensiwn yn y dyfodol a ganiateir ar gyfer ymddeoliadau cynnar ym 1994 a 1996. Bydd y ddarpariaeth yn cael ei defnyddio drwy oes yr unigolion sy'n derbyn pensiynau uwch.

Mae'r ddarpariaeth colli swydd yn cynrychioli'r taliadau sydd i'w gwneud i unigolion yn dilyn ymarferion colli swydd yn wirfoddol.

Mae darpariaethau eraill ar 31 Gorffennaf 2021 yn cynnwys amcangyfrif o ad-daliadau cyllid grant posibl yn y dyfodol.

## 22 YMRWYMIADAU CYFALAF

Roedd gan y Coleg werth £1,428,000 o ymrwymiadau cyfalaf cytundebol ar 31 Gorffennaf 2021 (2020: £dim).

## 23 TRAFODION PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Grŵp

Yn ystod y flwyddyn, ymgymerodd y grŵp â thrafodiadau, wrth gynnal busnes arferol, gyda phartïon eraill. Mae'r trafodiadau yr ymgymerwyd â nhw, a'r balansau masnachu sy'n weddill ar 31 Gorffennaf 2021, fel a ganlyn:

Trafodiadau gyda chwmnïau dan reolaeth gyffredin:

| | Gwerth net y cyflenwad yn ystod y flwyddyn £'000 | Balans sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn £'000 |
|---|---|---|
| Gwerthu nwyddau a gwasanaethau i | | |
| bartïon cysylltiedig 2021 | 36 | |
| 2020 | 52 | - |
| Prynu nwyddau a gwasanaethau gan bartïon cysylltiedig | | |
| 2021 | 1,711 | 81 |
| 2020 | 1,751 | 132 |

Coleg

Mae'r Coleg wedi manteisio ar yr eithriad a roddwyd gan FRS 102 i beidio â datgelu trafodion gyda'i is-gwmnïau sy'n eiddo llwyr iddo.

O ystyried natur gweithrediadau'r Coleg a chyfansoddiad aelodau'r bwrdd llywodraethwyr (sy'n cael eu tynnu o sefydliadau'r sector cyhoeddus a phreifat lleol), mae'n anochel y bydd trafodion yn digwydd gyda sefydliadau y gall aelod o'r bwrdd llywodraethwyr fod â budd ynddynt. Mae pob trafodiad sy'n ymwneud â sefydliadau y mae gan aelod o'r bwrdd llywodraethwyr fudd ynddynt yn cael eu cynnal o hyd braich ac yn unol â rheoliadau ariannol y Coleg a'r gweithdrefnau caffael arferol. Ni adnabuwyd unrhyw drafodiad, ac eithrio'r rheiny a gafodd eu datgelu yn y datganiadau ariannol, y dylid eu datgelu dan FRS 102.

## 24 DERBYNIADAU A THALIADAU ASIANTAETH

Cronfeydd ariannol wrth gefn

| | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Ar 1 Awst** | | |
| Grantiau gan Lywodraeth Cymru, a llog | 733 | 663 |
| Alldaliadau | (644) | (606) |
| | ------- | ------- |
| **Ar 31 Gorffennaf** | 89 | 57 |
| | ===== | ===== |

Mae grantiau cronfa ariannol wrth gefn Llywodraeth Cymru ar gael i gefnogi myfyrwyr sy'n ei chael hi'n anodd yn ariannol ac na fyddai wedi gallu ymgymryd â chyrsiau yn y Coleg fel arall. Gellir dyfarnu grantiau er mwyn talu am brydau bwyd, costau teithio, cyfarpar, ffioedd a gofal plant, a gellir gwneud y taliadau i dalu'r costau a achosir yn llawn neu ar raddfa symudol y cytunwyd arni.

Gweinyddwyd yr arian yn unol â'r amodau a'r telerau a nodwyd, ac mae balansau nad ydynt yn cael eu defnyddio o'r grantiau yn cael eu buddsoddi mewn cyfrif banc sy'n dwyn llog ar wahân, nad yw wedi'i gynnwys ym mantolen y Coleg.

Bydd arian heb ei ddefnyddio a nodir uchod yn cael ei drosglwyddo ar gyfer ei alldalu yn y flwyddyn nesaf, fel y caniateir gan reoliadau'r cynllun.

Rhaglen Recriwtiaid Ifanc

Yn ystod y flwyddyn, cymerodd y Coleg ran yn Rhaglen Recriwtiaid Ifanc Llywodraeth Cymru, menter sy'n anelu at gymell cyflogwyr i recriwtio prentisiaid ychwanegol (16-24 oed) drwy ddarparu cymhorthdal cyflog. Nid yw'r fenter yn agored ar gyfer cyfranogwyr newydd, a bydd unrhyw arian grant sy'n cael ei dynnu i lawr gan y Coleg ac na chaiff ei hawlio gan y cyflogwr yn cael ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru. Y cyfanswm a gafodd ei ad-dalu i Lywodraeth Cymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Gorffennaf 2021 oedd £dim (2020: dim).

Cymell Cyflogwyr i Gynnal Prentisiaethau

| | 2021<br>£'000 | 2020<br>£'000 |
|---|---|---|
| Balans ar 1 Awst | 7 | - |
| Cyllid rhaglen gros a gafwyd | 244 | 85 |
| Taliadau cymhelliant a wnaed i gyflogwyr | (251) | (78) |
| | ------- | ------- |
| Balans ar 31 Gorffennaf | - | 7 |
| | ===== | ===== |

Dechreuodd Rhaglen Cymell Cyflogwyr i Gynnal Prentisiaethau gan Lywodraeth Cymru ar 1 Awst 2017 ac mae'n anelu at roi cymorth i fusnesau bach a chanolig i recriwtio prentisiaid 16-19 oed. Gwneir taliadau o £3,500 fesul dysgwr ar gyfer prentisiaid a gafodd eu recriwtio o fis Gorffennaf-Medi a gwneir taliadau o £2,500 ar gyfer prentisiaid a gafodd eu recriwtio ar unrhyw adeg arall yn ystod y flwyddyn. Mae'r Coleg yn tynnu'r cyllid i lawr yn llawn gan Lywodraeth Cymru pan mae prentis wedi'i gyflogi am wyth mis, ac yna'n trosglwyddo'r arian i'r cyflogwr pan ddaw i law.

## 25 REFENIW CYFYNGEDIG

Mae'r gronfa wrth gefn gyfyngedig o £1,525,000 (2020: £1,525,000) yn cynrychioli cronfa incwm a gwariant cronnol wrth gefn Cymdeithas Hyfforddiant Bro Morgannwg â Choleg y Barri ar 31 Gorffennaf 2010. Un amod i uno'r cwmnïau hyn, fel y nodir yn y weithred drosglwyddo, yw bod asedau Cymdeithas Hyfforddiant Bro Morgannwg, gan gynnwys y cronfeydd wrth gefn a gafodd eu trosglwyddo o'r Coleg, yn cael eu defnyddio'n unig ar gyfer amcan elusennol Cymdeithas Hyfforddiant Bro Morgannwg – *er mwyn gwella paratoad a hyfforddiant galwedigaethol ac addysg pobl ifanc ac oedolion.*